


# LLYFRYN GWYBODAETH RHIENI / GOFALWYR 2026





Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

TORFAEN COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

Ebrill 2025

© 2023 Graphic Design Service, Communications, TCBC (4018

# Dyddiadau Tymor Ysgol Blwyddyn Academaidd 2026/2027

Er na ragwelir y bydd y rhain yn newid, mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i wneud addasiadau ble mae'n ofynnol oherwydd yr amgylchiadau.

| Tymor | Dechrau Tymor | Dechrau Hanner Tymor | Diwedd Hanner Tymor | Diwedd y Tymor | Nifer y Diwrndau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | **Dydd Mawrth** 01-09-2026 | **Dydd Llun** 26-10-2026 | **Dydd Gwener** 30-10-2026 | **Dydd Gwener** 18-12-2026 | **74** |
| **Gwanwyn** | **Dydd Llun** 04-01-2027 | **Dydd Llun** 08-02-2027 | **Dydd Gwener** 12-02-2027 | **Dydd Gwener** 19-03-2027 | **50** |
| **Haf** | **Dydd Llun** 05-04-2027 | **Dydd Llun** 31-05-2027 | **Dydd Gwener** 04-06-2027 | **Dydd Mawrth** 20-07-2027 | **71** |
| | | | | **Cyfanswm** | **195** |

* Yn cynnwys 5 diwrnod ar gyfer hyfforddiant mewn swydd i

athrawon. Dydd Calan Mai – Dydd Llun, 3 Mai 2027.

Unrhyw gyfnod(au) y mae angen cau at bwrpas etholiad i'w gydbwyso yn ystod y flwyddyn academaidd.

# Dalgylchoedd

Yn Nhorfaen, bydd pob cyfeiriad yn dod o fewn dalgylch ysgol cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg. Mae'r manylion hyn ar www.torfaen.gov.uk/YourLocation/find your local services , clicio ar fapiau'r dalgylchoedd addysg ac yna nodi eich cod post. Dewch o hyd i'r cyfeiriad a chliciwch chwith ar y marciwr.

# Dyddiadau derbyn allweddol 2026

## Dosbarth Meithrin (Ionawr, Ebrill a Medi)

- Bydd y broses ymgeisio ar-lein yn mynd yn fyw 9 Mehefin 2025.
- Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 18 Gorffennaf 2025, (5pm).
- Cynnig lleoedd - 15 Medi 2025 (Medi 2026 plant 4-blwydd-oed a Ionawr 2026 plant sy'n codi'n 3).
- Cynnig lleoedd –30 Ionawr 2026 (Ebrill i blant sy'n Codi'n 3).

## Cynradd

- Bydd y cais ar-lein yn fyw 13 Tachwedd 2025 (9.00am).
- Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 15 Ionawr 2026 5pm.
- Cynnig lleoedd –16 Ebrill 2026*.
- Cynhelir apeliadau cynradd yn ystod mis Mai/Mehefin 2026 ar gyfer ceisiadau sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau, ac yn unol â'r amserlen apelio.

## Uwchradd

- Bydd y ffurflen gais ar-lein yn fyw 19 Medi 2025 (9am).
- Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 31 Hydref 2025 (5pm).
- Cynnig lle –2 Mawrth 2026*.
- Cynhelir apeliadau uwchradd yn ystod mis Mai/Mehefin 2026 ar gyfer ceisiadau sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau, ac yn unol â'r amserlen ar gyfer apelio.

## Ysgolion ffydd

- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Cynradd - 15 Ionawr 2026.
- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Uwchradd - 31 Hydref 2025.
- Cynnig lle Cynradd –16 Ebrill 2026*.
- Cynnig lle Uwchradd - 2 Mawrth 2026*.

*Dyma'r dyddiad cyffredin ar gyfer cynnig lleoedd ar draws yr holl awdurdodau derbyn yng Nghymru.

# Croeso

Annwyl Riant/Ofalwr,

Croeso i Lyfryn Gwybodaeth Rhieni / Gofalwyr 2026. Efallai bod eich dysgwr yn dechrau ar ei siwrnai addysgol gyda ni, yn parhau ar y siwrnai honno neu'n symud i fyny i ysgol newydd. Beth bynnag yw'r sefyllfa, gobeithiaf y bydd y llyfryn hwn yn ddefnyddiol i chi. Mae'n rhoi gwybodaeth gynhwysfawr, o ansawdd da, i rieni a gofalwyr. Fe fydd hefyd yn rhoi cyngor i chi am bopeth y mae angen ei wybod arnoch am ein gwasanaethau a'n sefydliadau addysg, o dderbyniadau cyn-ysgol i addysg bellach, o ddyddiadau ar gyfer ceisio am le i ddyddiadau'r tymhorau ysgol.  Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ein trefniadau ar gyfer Ysgolion Cyfrwng Cymraeg ac Ysgolion Eglwysig.

Rwy'n gwerthfawrogi eich rhan allweddol yn addysg pobl ifanc a hoffwn ddiolch i chi, eu rhieni a'u gofalwyr, am gefnogi ein dysgwyr yn eu hysgolion. Gyda'ch cefnogaeth chi, a thrwy weithio gyda'n hysgolion a gwasanaethau eraill y Cyngor, gallwn sicrhau bod pob ysgol a phob myfyriwr yn cael y cyfle i wireddu eu gwir botensial ac i gael y dechrau gorau mewn bywyd.

**Y Cynghorydd Richard G. Clark**
**Dirprwy Arweinydd ac Aelod Gweithredol dros Blant, Teuluoedd ac Addysg**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 8 |
| Diogelu ac Amddiffyn Plant | 9 |
| Plant Sy'n Derbyn Gofal / Plentyn Mewn Angen | 10 |
| Y Blynyddoedd cynnar yn y cyfnod cyn ysgol | 11 |
| Beth fydd eich plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol / Cyfnodau Addysg | 12 |
| Addysg ôl-orfodol | 13 |
| Addysg Cyfrwng Cymraeg | 14 |
| Darpariaeth Feithrin a Chyn-Ysgol | 15 |
| Derbyn i'r Dosbath Derbyn ac i Ysgol Uwchradd | 15 |
| Derbyn i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir (ysgoilion ffydd) | 17 |
| Gwneud cais am le mewn dosbarth meithrin | 18 |
| Gwneud cais am le mewn ysgol / Sut ydw i'n gwneud cais? | 19 |
| Cadarnhau'r Cyfeiriad | 22 |
| Rhannu'r Preswylio / Gyda phwy mae'r cyfrifoldeb am y plentyn? | 23 |
| Ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau | 24 |
| Trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion y cyngor bwrdeistref ac ysgolion gwirfoddol a reolir | 25 |
| Meini Prawf Gordanysgrifio | 26 |
| Deddfwriaeth | 27 |
| Genedigaethau yn Nhymor yr Haf | 27 |
| Apeliadau | 28 |
| Addysg feithrin a darpariaeth cyn - ysgol arall | 29 |
| Meini prawf gordanysgrifio ar gyfer dyfarnu lleoedd meithrin | 30 |
| Ceisiadau Hwyr | 31 |
| Genedigaethau Lluosog (e.e. efeilliaid/ tripledi) | 32 |
| Plant swyddogion lluoedd arfog y DU a gweision y goron (yn cynnwys diplomyddion) | 32 |
| Rhestri aros | 32 |
| Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen | 34 |
| Dewisiadau gofal plant | 35 |
| Cymorth gyda chostau gofal plant | 36 |
| Credyd Cynhwyso | 36 |
| Cynllun Gofal Plant Di-dreth | 37 |
| Talebau Gofal Plant (i'r rhai sydd eisoes yn hawlio) | 37 |
| Elfen Gofal Plant Credyd Treth Gwaith (i'r rhai sydd eisoes yn hawlio) | 38 |
| Cefnogaeth i Fyfyrwyr mewn Addysg Uwch | 38 |
| Cynnig Gofal Plant Cymru | 39 |
| Polisi derbyn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban | 40 |
| Polisi derbyn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Henllys | 44 |

| | |
|---|---|
| Polisi derbyn Ysgol Gynradd Gatholig Mair a'r Angylion | 48 |
| Polisi derbyn Ysgol Gynradd Gatholig Padre Pio | 51 |
| Polisi derbyn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Ponthir | 55 |
| Polisi derbyn Ysgol Feithrin ac Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant | 58 |
| Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant | 61 |
| Y Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd a Chyfathrebu (Sen-Com) | 66 |
| Darpariaeth Arbenigol Torfaen | 69 |
| Lleoliadau mewn Ysgolion y Tu Allan i'r Sir | 69 |
| Trafnidiaeth i ddisgyblion sy'n mynychu Darpariaeth Arbenigol | 70 |
| Cefnogaeth i Ddysgwyr Bregus | 70 |
| Plant Sy'n Derbyn Gofal Gan Dorfaen | 71 |
| Gwasanaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr | 71 |
| Disgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol | 71 |
| Plant o Deuluoedd y Lluoedd Arfog | 72 |
| Gwaharddiadau | 72 |
| Y Gwasanaeth Lles Addysg | 75 |
| Trefniadau ar gyfer darparu addysg mewn ysgolion y tu allan i Dorfaen | 78 |
| Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 79 |
| Cyhoeddiadau a Newidiadau | 80 |
| Cwynion | 80 |
| Cyhoeddiadau a Newidiadau | 80 |
| Prosbectws Ysgolion | 81 |
| Polisi Codi a Dileu Tâl | 81 |
| Arolygiadau Ysgolion | 81 |
| Uned Atgyfeirio Disgyblion Torfaen (UCD) | 83 |
| Bwyta'n Iach Mewn Ysgolion | 84 |
| Rhaglan Gwella Gwyliau'r Haf | 84 |
| Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru | 85 |
| Cynllun Cyn-Yshol Iach a Chynaliadwy | 86 |
| Imiwneiddio | 87 |
| Llaeth a Phrydau Bwyd / Prydau Ysgol am Ddim | 88 |
| Grant Hanfodion Ysgol | 88 |
| Cludiant i'r Ysgol a Choleg (ac eithrio ar gyfer ADY) | 90 |
| Cyflogi plant | 92 |
| Arholiadau cyhoeddus | 92 |
| Lleoliadau preifat / blynyddoedd cynnar gwirfoddol cofrestredig | 93 |
| Rhestr o ysgolion uwchradd (â'r ysgolion cynradd perthnasol sy'n eu bwydo) | 95 |
| Map o Ysgolion Torfaen | 96 |
| Rhestr o ysgolion | 97 |

# Cyflwyniad

Mae dechrau ysgol yn ddigwyddiad pwysig iawn ym mywyd eich plentyn. Gobeithiwn y bydd y llyfryn hwn yn darparu'r holl wybodaeth rydych ei hangen i sicrhau bod hyn yn digwydd mor rhwydd â phosibl. Wrth i'ch plentyn symud ymlaen drwy'r ysgol, bydd y llyfryn hwn yn parhau i'ch cefnogi trwy ddarparu llawer o wybodaeth ar hyd y ffordd.

Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt pob ysgol yn Nhorfaen yn y llyfryn hwn ynghyd â map yn dangos lleoliad yr ysgolion. Mae ystod eang o wybodaeth hefyd ar gael ar ein gwefan hefyd www.torfaen.gov.uk. Os bydd gennych unrhyw bryderon yr hoffech eu trafod, byddwn bob amser yn hapus i'ch cyfarfod yn bersonol yn Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y- pŵl. Bydd ein Tîm Derbyniadau yn hapus i drafod unrhyw bryderon sydd gennych.

Y Tîm Derbyn
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

Rheolwr Derbyniadau a Throsglwyddo Kelly Slade
Ffôn: 01495 766915
E-bost: school.admissions@torfaen.gov.uk
Cyswllt i'r wefan:- Home | Torfaen County Borough Council

# Diogelu ac Amddiffyn Plant

Diogelu yw'r cam a gymerir i hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl, i'w diogelu rhag niwed a sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithiol i'w galluogi i gael y cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd. Mae Amddiffyn Plant yn rhan o ddiogelu ac mae'n cyfeirio at y gweithgaredd a wneir i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

Mae pawb yn y Gwasanaeth Addysg ac ysgolion yn rhannu nod o helpu i gadw plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn ddiogel. Rydym yn derbyn ac yn cydnabod ein cyfrifoldebau i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r materion sy'n achosi niwed i blant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o niwed ac i ddatblygu'n barhaus ac adolygu ein harfer trwy:

- Sicrhau bod diogelu yn brif flaenoriaeth inni
- Mabwysiadu canllawiau sy'n darparu gweithdrefnau clir i'r holl staff
- Rhannu Gwybodaeth am amddiffyn a diogelu plant gyda phlant, rhieni a gofalwyr, staff a gwirfoddolwyr
- Rhannu gwybodaeth yn brydlon am bryderon gydag asiantaethau y mae angen iddynt wybod, a chynnwys rhieni a phlant yn briodol
- Dilyn y gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a dewis staff yn ddiogel
- Diweddaru ein hyfforddiant ar ddiogelu yn rheolaidd
- Darparu rheolaeth effeithiol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr trwy oruchwyliaeth, cefnogaeth a hyfforddiant
- Monitro ac adolygu ein polisi a'n harfer yn gyson a rhannu arfer da yn rheolaidd

Mae'n ofynnol i benaethiaid gyfeirio unrhyw bryderon i'r gwasanaeth gofal cymdeithasol a thai fel bod plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl yn cael eu canfod yn gyflym. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y broses hon, cysylltwch â'r gwasanaeth gofal cymdeithasol a thai. Rhif ffôn 014957 762200, neu Jacqueline Watkins, Rhif ffôn 01495 766912.

# Plant Sy'n Derbyn Gofal

Mae'r term 'Derbyn Gofal' yn cyfeirio at y plant hynny y darparwyd gofal a llety ar eu cyfer gan yr Awdurdod Lleol. Mae hyn naill ai yn rhinwedd Gorchymyn Llys, neu bobl ifanc y mae'r ALl yn eu "lletya" yn wirfoddol ar gais, neu mewn cytundeb â'u rhieni. Rydym yn cyfeirio at y plant yma fel plant sydd 'mewn gofal'.

Mae Mewn Gofal yn golygu bod llys wedi gwneud y plentyn/person ifanc yn destun Gorchymyn Llys Interim, mae'r statws hwn yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r Awdurdod Lleol a (rhywfaint) o awdurdod i gyfyngu ar allu'r rhieni rhag ymarfer eu cyfrifoldeb parhaol fel rhieni.

Mae 'Llety - Adran 20' yn gytundeb gwirfoddol lle nad oes gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb fel rhieni, ac nid oes angen rhybudd i symud y plentyn/person ifanc.

Y nod yw sicrhau iechyd a diogelwch Plant Sy'n Derbyn Gofal sydd yn aml yn dod o deuluoedd sydd wedi dioddef caledi llethol a chyffro, tra'n gweithio mod agos â phosibl gyda'r rhieni biolegol.

Mae unrhyw ymyrraeth ar fywyd cartref yn golygu'n aml nad yw Plant Sy'n Derbyn Gofal yn cyflawni eu potensial academaidd. Mae'r Gwasanaethau Plant yn gweithio ochr yn ochr ag addysg i sicrhau bod anghenion addysgol pob plentyn yn cael eu bodloni.

# Plentyn Mewn Angen

Mae plentyn mewn angen yn berson ifanc sy'n derbyn gwasanaeth gan yr Adran Gofal Cymdeithasol a Thai. Gall hyn olygu bod yr Adran Gofal Cymdeithasol a Thai yn darparu cyngor, arweiniad neu wybodaeth i blant a'u gofalwyr ynglŷn â gwasanaethau statudol neu anstatudol, er mwyn hyrwyddo potensial y plentyn i'r eithaf.

Mae llawer o blant/pobl ifanc yn symud i mewn ac allan o ofal neu lety (gweler plant sy'n derbyn gofal), gall rhai fod ar y gofrestr amddiffyn plant ac eraill ar y gofrestr anabledd. Bydd angen i un neu fwy o'r asiantaethau cynhaliol (Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai, Gwasanaethau Gwirfoddol) asesu anghenion yr holl blant/pobl ifanc. Gelwir yr holl blant/pobl ifanc hyn yn Blant mewn Angen.

# Y Blynyddoedd Cynnar a'r cyfnod cyn ysgol

Trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg mae ein mentrau Dechrau'n Deg, Gofal Plant a brecwast ysgol am ddim yn rhai enghreifftiau o'r ffyrdd yr ydym yn helpu'ch plentyn i gael dechrau da.

Mae gofal plant Dechrau'n Deg ar gael yn Nhorfaen. I gael gwybod mwy ewch i wefan Gwybodaeth i Deuluoedd – Dechrau'n Deg torfaenfis.org.uk. Dewis y gofal plant cywir i'ch plentyn yw un o'ch penderfyniadau pwysicaf fel rhiant. Rhydd ein gwefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd fanylion cyswllt i'ch helpu i ddod o hyd i ofal plant cofrestredig a gwasanaethau yn eich ardal:

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Torfaen Canolfan Blant Integredig
Cwmbrân
Ton Road
Cwmbrân
NP44 7LE

Llinell gymorth: 0800 0196330
E-bost: fis@torfaen.gov.uk
Gwefan: Torfaen Family Information Service | Torfaen FIS
Early Years Education Entitlement for 3 and 4 Year olds | Torfaen FIS

# Beth fydd eich plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol?

Unwaith fydd eich plentyn yn yr ysgol byddwch yn siŵr o fod am wybod beth maen nhw'n ei ddysgu. Mae cwricwlwm yr ysgol yn hyblyg, ac yn darparu ar gyfer anghenion y plentyn a'r ysgol. Bydd dulliau dysgu pob ysgol ychydig yn wahanol. Rhaid i ysgolion addysgu cwricwlwm craidd, ac mae gennym nifer o fentrau a all gyfoethogi a gwella bywyd ysgol.

# Cyfnodau addysg

Gall addysg ffurfiol eich plentyn yn ddechrau pan fydd yn dair oed. O'r adeg hon tan iddo adael yr ysgol, byddant yn dilyn y cwricwlwm diwygiedig i Gymru: llwybr dysgu a gynlluniwyd yn arbennig i blant.

Ni fydd y cwricwlwm yn cael ei drefnu fesul Cyfnodau Allweddol mwyach. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, y cyfeirir ato bellach fel Dysgu Sylfaen, yn parhau ac yn dod yn rhan o un cwricwlwm di-dor i blant rhwng 3 a 16 oed, gan ddarparu dysgu mwy unedig.

Caiff disgwyliadau eu fframio'n eang er mwyn iddynt gynnal y dysgu dros gyfres o flynyddoedd. Mae'r continwwm dysgu yr un peth ar gyfer pob dysgwr, ond bydd cyflymder y cynnydd drwy'r continwwm yn wahanol. Oherwydd hynny, mae'r camau cynnydd yn gallu cyfateb i'r disgwyliadau'n fras pan yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed yn unig.

Source: Education is changing | GOV.WALES

# Addysg ôl-orfodol

Daw addysg orfodol eich plentyn i ben pan fydd eich plentyn yn 16 oed.

Nid oes rhaid i'w addysg ddod i ben ar yr adeg hon, ac mae llawer o ddewisiadau gwahanol ar gael. Gall y rhain fod yn addysg yn y dosbarth neu'n addysg seiliedig ar waith, ac maent yn cynnwys ystod eang o bynciau.

Cynhelir y cyrsiau hyn gan wahanol fathau o sefydliadau, fel ysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith. Gyda chymaint o ddewis, mae'n bwysig sicrhau bod eich plentyn yn mynd at y darparwr addysg mwyaf priodol.

Ar ôl cael profiad o addysg bellach, efallai y bydd gan eich plentyn ddiddordeb mewn addysg uwch. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu dilyn cwrs gradd, ond gall olygu diploma neu dystysgrif addysg uwch. Yn yr un modd a phob math arall o addysg ôl-16, mae'r dewisiadau a'r cyfleoedd yn eang iawn, ac yn rhoi'r cyfle i'ch plentyn astudio'r hyn sydd o ddiddordeb gwirioneddol iddo.

Mae unrhyw gyfarwyddyd neu gyngor pellach ar gael drwy ddilyn y cyswllt hwn: Contact Us | Careers Wales

Y rhif ffôn yw: 0800 028 4844
Gwefan: Careers Wales | Careers Wales

# Addysg Cyfrwng Cymraeg

Fel rhan o weledigaeth Llywodraeth Cymru (Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg) ar gyfer addysg, hyfforddiant a'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynhyrchu cynllun (Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP)) sy'n nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio, darparu a thwf mewn addysg gyfrwng Cymraeg. Prif nod y Strategaeth yw cynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gwaith.

Bydd y WESP hefyd yn helpu awdurdodau lleol i gyfrannu at Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a chyrraedd ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Os hoffech i'ch plentyn dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, rydym yn darparu addysg ragorol drwy gyfrwng y Gymraeg yn Nhorfaen.

Yn Ysgol Panteg mae uned drochi i hwyrddyfodiaid i helpu'r dysgwyr hynny sy'n ymuno ag addysg cyfrwng Cymraeg yn ddiweddarach o lawer( rhwng 7-11) a'r disgyblion hynny, nad oedd y Gymraeg yn rhan o'u trefn ddyddiol, i gyflawni'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i barhau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn gyffredinol, bydd y plant yn ymuno a'r uned am gyfnod dysgu dwys o tua 12 wythnos cyn cael eu hintegreiddio i leoliadau prif ffrwd Gymraeg yn Nhorfaen. Mae'r enw 'Carreg Lam' yn cynrychioli pont i ddyfodol dwyieithog ar gyfer pob disgybl.

Gweler y wefan am fwy o wybodaeth Cartref | Home

Mae'r dolenni defnyddiol eraill yn cynnwys

Being Bilingual in Torfaen
Schools & Colleges | Torfaen County Borough Council
Education through the Medium of Welsh | Torfaen County Borough Council
your-guide-to-welsh-medium-education.pdf
Cymraeg i Bawb | Cymraeg i Bawb

Mae addysg Gymraeg ar gael i bawb – nid yw cyfran fawr o rieni plant yn ysgolion cynradd Torfaen yn siarad Cymraeg ac nid yw hyn yn rhwystr.

Mae disgyblion ysgolion Cymraeg yng Nhorfaen yn astudio Cymraeg a Saesneg i safon uchel iawn. Mae'r holl addysgu ac asesu, ac eithrio Saesneg fel pwnc, drwy gyfrwng y Gymraeg ymhob Cyfnod Allweddol.

Os yw eich plentyn yn mynychu ysgol cyfrwng Saesneg, a'ch bod yn ystyried eu trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg, sylwer bod cyfleusterau trochi i gefnogi pontio eich plentyn.

## Darpariaeth Feithrin a Chyn-Ysgol

Os yw eich plentyn o oed meithrin, mae uned feithrin yn rhan o Ysgol Gymraeg Cwmbrân, Ysgol Bryn Onnen, Ysgol Panteg, Ysgol Gymraeg Gwynllyw. Mae addysg Blynyddoedd Cynnar rhan amser drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd ar gael yn Ysgol Feithrin Pont-y-pŵl ym Mhont-y-pŵl, lleoliad gofal plant cymeradwy sy'n cynnig gofal diwrnod llawn am 3 diwrnod yr wythnos, a 2 sesiwn hanner diwrnod ar y 2 ddiwrnod arall. Gall pob plentyn sy'n mynychu'r lleoliad hwn o 2 1/2 oed aros yno tan eu bod yn dechrau yn y Dosbarth Derbyn a bod angen. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd os gwelwch yn dda ynglŷn â phob darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Nid oes rhaid i rieni fod yn siaradwyr Cymraeg er mwyn galluogi eu plant i elwa ar Addysg Cyfrwng Cymraeg. Gall plant drosglwyddo i Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg o'r sector meithrin cyfrwng Saesneg. Os oes gennych unrhyw gwestiynau gallwch gysylltu â phenaethiaid ein hysgolion cyfrwng Cymraeg yn uniongyrchol a byddant yn hapus i siarad â chi.

Gweler isod y dolenni defnyddiol fydd o gymorth i rieni

Supporting Parents and Families | Learn Welsh

## Derbyn i'r Dosbarth Derbyn ac i Ysgol Uwchradd

Ar gyfer y rhieni hynny sy'n dymuno i'w plant gael addysg cyfwng Cymraeg, mae yna dair Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg ac un ysgol 3-18 oed sydd hefyd yn cynnig lleoedd Dosbarth Derbyn yn Nhorfaen. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Ysgol Bryn Onnen yn Farteg sy'n gwasanaethu gogledd y fwrdeistref.
- Ysgol Gymraeg Cwmbrân sy'n gwasanaethu mwyafrif ardal Cwmbrân.
- Ysgol Panteg yn Nhref Gruffydd sy'n gwasanaethu rhannau o Gwmbrân a chanol Torfaen.
- *Ysgol Gymraeg Gwynllyw, yn Nhrefddyn sy'n gwasanaethu ardal Pont-y-pŵl. Mae Ysgol Gymraeg Gwynllyw ar agor erbyn hyn fel ysgol cyfrwng Cymraeg i bob oedran. Ar hyn o bryd mae'n derbyn disgyblion o Dorfaen, Blaenau Gwent a Sir Fynwy.

*Dylid nodi bod y ddarpariaeth hon wedi dechrau fel "egin-ysgol" a oedd yn cynnig lleoedd yn y Meithrin a'r Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2022, yn ystod y flwyddyn gyntaf yr oedd yr ysgol ar waith.

Ceir addysg Uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw ym Mhont-y-pŵl. Daeth yr ysgol hon yn "ysgol pob oed" i blant a phobl ifanc 3 i 18 oed ym mis Medi 2022.

Mae'r trefniadau a'r polisïau derbyn ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r trefniadau a'r polisïau ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg, yr un peth.

Darperir cludiant ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgol cyfrwng Cymraeg yn unol â pholisi cludiant yr Awdurdod.

Derbyniadau i'r chweched dosbarth (addysg anstatudol) – ceir darpariaeth 6ed dosbarth cyfrwng Saesneg ym Mharth Dysgu Torfaen, Cwmbrân.

Mae Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn dal i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16.

# Derbyn i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir (ysgoilion ffydd)

Mae yna 5 Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir sy'n Ysgolion Ffydd yn Nhorfaen. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant, Cwmbrân
- Ysgol Gynradd Gatholig Mair a'r Angylion, Cwmbrân
- Ysgol Gynradd Gatholig Padre Pio, Pont-y-pŵl
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Henllys
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Ponthir
- Ysgol Gatholig Sant Alban yw'r ddarpariaeth Uwchradd Gatholig ranbarthol ar gyfer Torfaen.

## Sut ydw i'n gwneud cais?

Mae gan Gyrff Llywodraethu Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn Nhorfaen, gyfrifoldeb am eu trefniadau derbyn eu hunain, a dylid gwneud cais am ffurflenni cais yn uniongyrchol i'r ysgol, gan ddychwelyd y ffurflenni i'r ysgol o'ch dewis.

O fis Medi 2027, bydd angen i rieni wneud cais yn uniongyrchol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i'w plant gael eu derbyn mewn unrhyw ysgol gynradd sy'n ysgol ffydd yn Nhorfaen.

Bydd ysgol uwchradd Sant Alban, sef yr ysgol ffydd yn Nhorfaen, yn parhau i fynd ati eu hunain i brosesu'u ceisiadau derbyn. Bydd angen i ymgeiswyr wneud cais yn uniongyrchol i'r ysgol trwy eu gwefan.

# Gwneud cais am le mewn dosbarth meithrin

Gall yr Awdurdod dderbyn plant i'w Ysgolion Meithrin o ddechrau'r tymor ar ôl pen- blwydd y plentyn yn dair blwydd oed os oes lleoedd ar gael, waeth pryd fydd y gwyliau ysgol. Gelwir hyn yn aml yn lleoedd Plant Sy'n Codi'n 3 Oed. Nid yw plant a anwyd rhwng 1 Ebrill a 31 Awst yn gymwys am le i blant sy'n codi'n 3 oed.

**Tymor yr Hydref:** 1 Medi – 31 Rhagfyr (mae plant a aned rhwng y dyddiadau hyn yn gallu cael lleoliad yn nhymor y gwanwyn/ym mis Ionawr).

**Tymor y Gwanwyn:** 1 Ionawr – 31 Mawrth (mae plant a aned rhwng y dyddiadau hyn yn gallu cael lleoliad yn nhymor yr haf/ym mis Ebrill).

**Tymor yr Haf:** 1 Ebrill - 31 Awst. (mae plant a aned rhwng y dyddiadau hyn yn gallu cael lleoliad ym mis Medi).

Dim ond un ffenestr sydd i wneud cais am le meithrin, ac o'r un cais hwnnw caiff lleoedd ym mis Medi ac i'r rhai sy'n codi'n 3 oed eu dyrannu, lle bo hynny'n bosibl.

Pan fyddant wedi cael lle meithrin ym mis Medi, bydd plant a anwyd rhwng 1 Medi a 31 Mawrth o bosibl yn cael cynnig dechrau'n gynnar yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, os oes lleoedd ar gael. Gellir cael lleoliad codi'n 3 yn yr yn feithrinfa a dderbyniwyd lleoliad ym mis Medi a hynny'n unig. Os oes lleoedd i blant sy'n codi'n 3 oed ar gael, bydd plant cymwys yn cael cynnig lle cynnar yn yr ysgol feithrin a ddyrennir iddynt fel a ganlyn:

- Ar 15 Medi 2025 ar gyfer lleoedd ym mis Ionawr 2026 i blant sy'n codi'n 3 oed
- Ar 30 Ionawr 2026 ar gyfer lleoedd yn Ebrill 2026 i blant sy'n codi'n 3 oed

Ni all y Cyngor ystyried ceisiadau am leoedd meithrin am ran yn unig o'r wythnos ysgol, ac felly mae lleoedd yn cael eu cynnig mewn ysgolion a dosbarthiadau meithrin am sesiynau hanner diwrnod, naill ai yn y bore neu'r prynhawn, 5 diwrnod yr wythnos. Mae ysgolion yn disgwyl i ddisgyblion sy'n mynychu'r feithrinfa i fynd i bob sesiwn sydd ar gael iddynt. Os nad yw rhieni am i'w plentyn fynd i bum sesiwn bob wythnos, mae'n bosibl y byddai'n well iddyn nhw chwilio am le mewn lleoliad nas cynhelir, sy'n gallu ymdopi'n haws â threfniadau hyblyg

fel hyn.

Mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, gellir cynnig lleoliadau amser llawn i blant 4 oed, os oes lleoedd ar gael.

Dylai rhieni sy'n dewis lleoliad gofal plant preifat neu wirfoddol cymeradwy gwblhau ffurflen Blynyddoedd Cynnar 1 gyda lleoliad eu dewis, a fydd yn gwneud cais am arian ar eu rhan.

# Gwneud cais am le mewn ysgol

## Cynradd (Dosbarth Derbyn)

Bydd eich plentyn yn dechrau yn y Dosbarth Derbyn ar ddechrau'r flwyddyn ysgol, h.y. mis Medi, pan fydd ef neu hi yn 5 oed er nad ydyw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i blentyn ddechrau yn yr ysgol tan ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen- blwydd yn bump oed.

Sylwer mai un ffurflen dderbyn yn unig sydd ei hangen (yn y flwyddyn derbyn) ar gyfer Ysgol Gymraeg Gwynllyw, am ei bod yn ysgol i 'bob oedran'.

## Uwchradd

Bydd eich plentyn yn dechrau yn yr ysgol uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol y bydd ef/hi yn 12 oed.

Nodwch os gwelwch yn dda nad yw mynychu ysgol gynradd yn rhan o'r meini prawf ar gyfer derbyn i'w hysgol uwchradd partner/bwydo.

# Sut i wneud cais yn y rownd derbyn arferol (ac eithrio derbyn i'r chweched dosbarth)?

O ran Derbyn i'r Dosbarth Derbyn bydd y rhan fwyaf o rieni yn cael llythyr yn dweud wrthynt sut i ymgeisio, 6 wythnos cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyniadau. Anfonir y llythyron yn uniongyrchol i gyfeiriad cartref y plentyn (os nad yw'r plentyn yn mynychu lleoliad Meithrin yr ALl ar y pryd) neu trwy law'r disgybl, a bydd yn esbonio sut i wneud cais ar-lein.

O ran Derbyn i Ysgol Uwchradd bydd pob rhiant yn cael llythyr 6 wythnos cyn y dyddiad cau trwy law'r disgybl a bydd yn esbonio sut y gall rhieni wneud cais ar-

lein.

Gellir gwneud ceisiadau i'r Cyngor ar-lein drwy wefan [Ysgolion a Cholegau | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen] rhwng y dyddiadau agor a chau a restrir ar dudalen 2. Wrth wneud cais caiff ymgeiswyr gadarnhad yn syth bod eu cais wedi ei gyflwyno ac mae modd gweld y penderfyniad ar-lein ar y dyddiad y caiff lleoedd eu cynnig. Fodd bynnag os na dderbynnir e-bost i gadarnhau dylai'r ymgeisydd gysylltu â'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn syth i wneud yn siŵr bod y cais wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. A fyddech cystal â naill ai lawr lwytho copi o www. torfaen.gov.uk neu ffonio 01495 766915.

Os ydych yn llenwi copi papur rhaid i chi ei lenwi a'i ddychwelyd at y tîm derbyn i ysgolion (nid yr ysgol) erbyn y dyddiad cau perthnasol (gweler yr amserlen). Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cais yn cael ei gyflwyno erbyn y dyddiad cau.

Bydd yr Awdurdod yn gofyn i rieni gyflwyno tystiolaeth ddogfennol lle bo angen hynny er mwyn dilysu'r data a gyflwynwyd ar ffurflen gais e.e. Tystysgrif Geni, Cerdyn Meddygol y GIG, Pasbort, Bil Treth Gyngor neu Gyfleustodau diweddar.

Noder: Prawf am ddyddiad geni'r plentyn ym mhob achos ac eithrio pan fo plentyn yn trosglwyddo o un ysgol Torfaen i arall. Mathau o dystiolaeth a dderbynnir yw:

- Tystysgrif Geni
- Pasbort
- Trwydded Preswyliad a gyhoeddwyd gan Swyddfa Gartref y DU
- Ffurflen Gofrestru Ailsefydlu a gyhoeddwyd gan Swyddfa Gartref y DU

Ni fyddwn yn derbyn cais am le mewn meithrinfa heb dystiolaeth o ddyddiad geni.

Pan fo rhieni'n dymuno ymgeisio i'w plentyn fynychu ysgol mewn awdurdod derbyn arall (h.y. Casnewydd, Sir Fynwy, Blaenau Gwent neu Gaerffili), gofynnir i chi ymgeisio trwy'r awdurdod derbyn perthnasol yn unol â'u trefniadau derbyn nhw.

Dylai unrhyw ymgeiswyr sy'n byw yn ardaloedd awdurdodau (cynghorau) eraill, ac sy'n dymuno i'w plentyn fynd i ysgol yn Nhorfaen, ymgeisio trwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn unol â'r amserlenni a osodwyd.

# Derbyn i'r Chweched Dosbarth

## Sut ydw i'n gwneud cais?

Bydd darpariaeth chweched dosbarth cyfrwng Saesneg ar gael ym Mharth Dysgu Torfaen (yng Nghwmbrân). Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei gweithredu gan Goleg Gwent ar ran y cyngor a dylid gwneud ceisiadau yn uniongyrchol i'r coleg.

Torfaen yw'r Awdurdod derbyn o hyd ar gyfer pob ysgol a gynhelir o fewn ei ardal, gan gynnwys yr ysgolion hynny sydd â chweched dosbarth. Yr ysgol arall yn Nhorfaen a fydd yn cynnig addysg chweched dosbarth fydd yr ysgol cyfrwng Cymraeg, Ysgol Gymraeg Gwynllyw. Serch hynny, mae'r ysgolion unigol yn gweinyddu'r holl brosesau a gweithdrefnau yn ymwneud a Derbyniadau i'r chweched dosbarth ac os hoffech chi i'ch plentyn fynychu'r chweched dosbarth yn yr ysgol, cysylltwch â'r ysgol yn uniongyrchol.

# Cadarnhau'r Cyfeiriad

Mae gofyn i rieni / ofalwyr nodi eu cyfeirnod Treth Gyngor ar ffurflen gais derbyn i ysgolion eu plentyn. Bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddilysu'r cyfeiriad i sicrhau ei fod yr un peth â'r wybodaeth sydd ar gronfa ddata Treth Gyngor yr Awdurdod Lleol, ystyrir y cyfeiriad yn ddilys ddim ond os yw'r oedolyn sy'n llenwi'r cais wedi ei enwi ar y cofnod treth gyngor.

Pan na ellir defnyddio'r cofnod treth gyngor, neu ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n byw y tu allan i Torfaen, bydd y Cyngor yn ystyried o leiaf ddau o'r dogfennau canlynol i fod yn cefnogi penderfyniad ar gyfer preswylfa yng nghyfeiriad penodol:-

- Hysbysiadau Galw am Dalu Treth Gyngor* (dim hŷn na 12 mis).
- Hysbysiad CThEM, Adran Gwaith a Phensiynau, neu'r Awdurdod Lleol am hawliad h.y. Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith, Credyd Cynhwysol, Lwfans Ceisio Gwaith, Budd-dâl Plant neu Fudd-dâl Tai (Dim hŷn na 3 mis).
- Cytundeb tenantiaeth/prydlesi neu lyfr rhent swyddogol a gyhoeddwyd gan gymdeithas tai, cyngor lleol, asiantaeth gosod wedi'i hen sefydlu neu gyfreithiwr, y mae'n rhaid iddynt gynnwys y dyddiad cau perthnasol (ar gyfer y rownd derbyn i ysgolion arferol) / dyddiad cyflwyno (ar gyfer ceisiadau trosglwyddo yn ystod y flwyddyn).
- Datganiad morgais (dim hŷn na 3 mis)
- Bil nwy, trydan neu ddŵr sy'n dangos defnydd o'r gwasanaeth priodol (dim hŷn na 3 mis)
- Trwydded yrru ddilys y DU â ffotograff
- Tystysgrif Yswiriant Cartref neu Fodur* (dim hŷn na 12 mis).
- Tystysgrif Trwydded Deledu* (dim hŷn na 12 mis).
- Cofnod y Gofrestr Etholiadol (Gwiriad mewnol yw hwn y gellir ei gynnal ar gyfer trigolion Torfaen yn unig, ni dderbynnir cardiau cofrestru)

Bydd y Cyngor yn defnyddio'r cyfeiriad cartref a roddir yn y cais i benderfynu pa un yw'r ysgol ddalgylch ac a oes unrhyw gymhwysedd am drafnidiaeth am ddim iddi o'r cartref, yn unol â pholisi trafnidiaeth cyfredol y Cyngor. Ni fydd cyfeiriad newydd yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar gais os nad yw'r ymgeisydd a'r plentyn yn byw yno ar y dyddiad cau.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw dweud wrth y Tîm Derbyn i Ysgolion am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau gan gynnwys newid cyfeiriad yn dilyn cyflwyno'r cais. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gohebiaeth yn cael ei hanfon i'r cyfeiriad cywir, ac ni fydd yn effeithio ar ganlyniad y cais os yw hyn ar ôl y dyddiad cau. Dim ond os yw'r plentyn yn byw yn y cyfeiriad newydd ar y dyddiad cau y bydd yn cael ei ystyried wrth benderfynu canlyniad y cais, a rhaid cyflwyno tystiolaeth ddigonol i gadarnhau hyn.

# Rhannu'r preswylio

Os yw rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am y plentyn a'i fod yn treulio amser cyfartal gyda'r ddau riant yn ystod yr wythnos ysgol, ystyrir cyfeiriad y rhiant sy'n derbyn budd-dal plant fel cartref y plentyn at ddibenion dyrannu lle.

# Gyda phwy mae'r cyfrifoldeb am y plentyn?

Dylech fod yn ymwybodol bod angen i ysgolion wybod pwy sydd â chyfrifoldeb fel rhiant am bob plentyn, yn dilyn newidiadau a wnaed i'r gyfraith plant gan Ddeddf Plant 1989 a ddaeth i rym ym mis Hydref 1991. Y rheswm dros hyn yw sicrhau bod y caniatâd cywir yn cael ei rhoi pan fydd yr ysgol angen caniatâd y rhiant. Fe fydd hefyd yn sicrhau bod pobl sydd â chyfrifoldeb rhiant, ond sydd ddim yn byw gyda'r plentyn, yn derbyn adroddiadau ysgol a chael cyfle i fod yn rhan o addysg y plentyn. Cafwyd newidiadau pellach yn y gyfraith yn 2003.

- Mamau sydd bob amser yn cael cyfrifoldeb rhiant (onid oes Gorchymyn Llys yn ei le yn nodi nad oes ganddi'r cyfrifoldeb bellach).
- Mae gan dadau oedd yn briod â'r mamau cyn 2003, gyfrifoldeb rhiant.
- Mae gan dadau hefyd gyfrifoldeb rhiant am blentyn os cafodd yn plentyn hwnnw ei eni ar ôl 2003 ac os yw ei enw ar dystysgrif geni y plentyn.
- Gall tadau di-briod, llys rieni, perthnasau ac unrhyw unigolion eraill gael cyfrifoldeb rhiant, ond nid yn awtomatig

Gofynnir i rieni gydweithredu â staff yr ysgol trwy ddarparu manylion y bobl sydd â chyfrifoldebau rhiant am ddisgybl i'r ysgol dan sylw. Dylid hysbysu'r ysgol ynghylch unrhyw newidiadau i drefniadau cyfrifoldebau rhiant neu newidiadau i ofal y plentyn o ddydd i ddydd.

# Ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau

## Sut ydw i’n gwneud cais?

Ble’n bosibl, rydym yn ceisio gosod plant mewn lleoliadau prif ffrwd. Fodd bynnag, mae rhai plant angen darpariaeth y tu hwnt i adnoddau ysgol prif ffrwd. Mae derbyniadau i ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau sy’n gysylltiedig ag ysgolion cynradd ac uwchradd, ac sy’n darparu ar gyfer plant ag Anghenion Addysgol Ychwanegol cael eu trin trwy drefniant arbennig ar Awdurdod Addysg Lleol. Mae angen cyngor penodol i helpu rhieni a disgyblion dderbyn lleoliad sy’n addas i’r Anghenion Addysgol Ychwanegol.

Am unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â Tracy Tucker ar 01495 766998 os gwelwch yn dda.

# Trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion cynradd ac uwchradd cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir

Rheolir a gweinyddir derbyniadau plant i ysgolion gan Awdurdod Derbyn'. Yn achos ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, cydnabyddir hyn fel Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (Awdurdod Lleol). Yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig (ysgolion eglwysi), yr awdurdod derbyn yw corff llywodraethu'r ysgol unigol.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Awdurdod Lleol rhoi cyfle i rieni/gofalwyr fynegi pa ysgol y maen nhw'n dymuno i'w plentyn ei mynychu. Yn y mwyafrif o achosion, mae rhieni/gofalwyr yn ddigon hapus i ddewis eu hysgol leol ond nawr mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r ysgol honno gael ei henwi ar ffurflen gais. Bydd y rheini sy'n cyflwyno ffurflen gais (i fynegi dewis) yn cael y flaenoriaeth dros y rheini nad ydynt yn gwneud hynny.

Er y bydd y mwyafrif o blant yn cael eu derbyn i ysgol gyda'u grŵp oedran cronolegol, o bryd i'w gilydd mae rhieni yn gwneud cais am le y tu allan i'w grŵp oedran arferol. Cysylltwch os gwelwch yn dda â y Tîm Derbyn i Ysgolion am gopi o'r polisi.

Noder os gwelwch yn dda nad yw'r Awdurdod yn gweithredu polisi i ddyrchafu disgyblion (hy plant dawnus a thalentog) i grwpiau blwyddyn uwch (y rheiny sydd wedi cael problemau neu wedi colli rhan o'r flwyddyn ysgol oherwydd afiechyd y plentyn) neu grwpiau is, onid mewn amgylchiadau y gellir eu hesgusodi, a rhesymau pendant a chanfyddadwy cyn y gellir gwneud y fath benderfyniadau. Rhoddir ystyriaeth hefyd i adroddiad seicolegydd addysg os oes adroddiad ar gael.

Rhaid i bob ysgol a gynhelir, dderbyn disgyblion hyd at ei nifer derbyn (ND). Y nifer derbyn yw'r nifer o ddisgyblion y dylid eu derbyn i grŵp oedran perthnasol os daw digon o geisiadau i law. Wrth fynd ati i wneud cais, gall rieni/gofalwyr enwi mwy nag un ysgol yn ôl y drefn o'u dewis a bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio cydymffurfio gydag o leiaf un o'r dewisiadau hynny.

Pan na fydd yr Awdurdod yn medru cynnig lle i'ch plentyn yn eich ysgol dalgylch, darperir cludiant am ddim i'r ysgol agosaf sydd â lle, yn amodol ar y meini prawf

pellter ym mholisi cludiant yr Awdurdod.

Gall yr Awdurdod Lleol (yn cynnwys Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir) wrthod cydymffurfio â dewis y rhieni am gyfnod o ddwy flynedd yn dilyn ail waharddiad neu waharddiad dilynol. Yn y fath amgylchiadau, ni all rhiant apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Lleol.

Pob cais i'w dderbyn erbyn y dyddiad cau, (gweler yr amserlen) yn cael eu hystyried, ac os bydd angen, bydd y meini prawf gordanysgrifio yn cael eu cymhwyso.

Pan fydd y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, defnyddir y meini prawf gordanysgrifio canlynol i benderfynu pa ymgeiswyr y dylid cynnig lle iddynt yn ôl blaenoriaeth fel a ganlyn.

# Meini Prawf Gordanysgrifio

Lle enwir ysgol mewn datganiad o Anghenion Addysgol neu yn y Cynllun Datblygu Unigol, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i dderbyn y plentyn i'r lleoliad a enwyd cyn defnyddio'r meini prawf ar gyfer achosion lle bo mwy o geisiadau na lleoedd, ar gyfer y ceisiadau a dderbynnir.

- **Blaenoriaeth 1:** Plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod neu sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol
- **Blaenoriaeth 2:** Plant ar sail feddygol, a gefnogir gan adroddiad gan feddyg ymgynghorol/arbenigwr meddygol, a gafwyd gan y rhieni, yn nodi'r fantais feddygol i'r plentyn fynychu'r ysgol o'u dewis o gymharu ag ysgol arferol y dalgylch.

  **Sylwer: Ni dderbynnir adroddiadau gan feddygon teulu at y diben hwn.**
- **Blaenoriaeth 3:** Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol o'u dewis ac sydd â brodyr neu chwiorydd perthnasol yn yr ysgol adeg y dyddiad derbyn
- **Blaenoriaeth 4:** Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol o'u dewis heb frodyr a chwiorydd perthnasol yn yr ysgol adeg y dyddiad derbyn
- **Blaenoriaeth 5:** Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol o'u dewis sydd â brodyr neu chwiorydd perthnasol yn yr ysgol adeg y dyddiad derbyn
- **Blaenoriaeth 6:** Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol o'u dewis heb frodyr a chwiorydd perthnasol yn yr ysgol adeg y dyddiad derbyn

  **O.N. Ystyrir brodyr a chwiorydd, pa un ai'n llawn, hanner, llys neu faeth yn berthnasol os ydynt yn byw gyda'i gilydd yn yr un cyfeiriad. Mae hyn yn wir yn unig pan fydd plentyn hŷn yn bendant wedi'i gofrestru yn yr**

**ysgol pan fydd y plentyn iau yn gymwys i fynychu. Bydd brodyr a chwiorydd sydd wedi cael eu geni yn yr un flwyddyn academaidd hefyd yn cael blaenoriaeth.**

Pan fydd mwy nag un achos o'r fath, asesir blaenoriaeth ar sail y plant hynny sydd agosaf mewn oedran i'r brodyr neu'r chwiorydd hŷn sydd yn yr ysgol eisoes ar y dyddiad derbyn.

Ystyrir y meini prawf brodyr a chwiorydd fel yn berthnasol yn y Flwyddyn Derbyn hyd at flwyddyn 11 yn unig. Wrth ddyrannu lleoedd meithrin, nodwch nad yw brodyr neu chwiorydd yn cael blaenoriaeth o dan y meini prawf gordanysgrifio a gyhoeddwyd. Wrth wneud cais i ysgol gyfun, dylai rhieni fod yn ymwybodol na ystyrir disgyblion chweched dosbarth o dan y meini prawf ar gyfer brodyr a chwiorydd.

Wedi ystyried y categorïau uchod, seilir blaenoriaeth ar agosrwydd at yr ysgol. Mesurir y pellter o'r pwynt lle bo cartref y plentyn yn cwrdd â'r briffordd i'r fynedfa agosaf sydd ar gael yn yr ysgol.. Defnyddir System Fapio Gwybodaeth Ddigidol i fesur, gan ddilyn y rheolau ynghylch cymhwystra ar gyfer cludiant i'r ysgol.

Yn olaf, mae pob derbyniad i unrhyw ysgol yn cael ei drafod yn unol â pholisi derbyniadau naill ai'r Awdurdod Lleol neu bolisi derbyniadau'r ysgol ac nid yw disgyblion yn cael eu 'dewis' na chyfweliadau'n cael eu cynnal i benderfynu ar fynediad ar unrhyw amser. Er bod byw o fewn dalgylch eich hoff ysgol yn ffurfio rhan o'r meini prawf gordanysgrifio, nid yw'n sicrhau lle ar y sail hon.

## Deddfwriaeth

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r codau statudol a ganlyn: Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Y Cod Derbyn i Ysgolion a'r Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion 2013.

Mae'n bwysig nodi bod Paragraff 3.45 Cod Derbyn i ysgolion 2013 yn datgan:

"Mae cyfyngiadau statudol ar faint dosbarthiadau yn golygu pan fydd athro ysgol unigol yn bresennol, ac yn amodol ar rhai disgwyliadau cyfyngedig, ni chaniateir i ddosbarthiadau babanod (Derbyn. Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion."

## Genedigaethau yn Nhymor yr Haf

Yn achos plentyn sy'n cael ei eni yn nhymor yr haf, nid oes gofyn cyfreithiol iddo fynychu'r ysgol tan y tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn bump oed/ y mis Medi ar ôl blwyddyn  derbyn arferol i blentyn oed Derbyn. Ond mewn amgylchiadau o'r fath

bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i sicrhau bod plant yn parhau i ddilyn eu grŵp blwyddyn gronolegol ac felly byddai'r plentyn yn cael ei dderbyn i Flwyddyn 1 ac nid y Dosbarth Derbyn.

Mewn amgylchiadau eithriadol, a hynny'n unig  y bydd yr Awdurdod Lleol yn caniatáu i dderbyn plentyn a aned yn nhymor yr haf i mewn i grŵp blwyddyn sydd y tu allan i flwyddyn derbyn arferol. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen sail dystiolaeth addas (e.e adroddiad gan Seicolegydd Addysg) sy'n awgrymu nad yw'r grŵp blwyddyn gronolegol yn gallu diwallu anghenion y plentyn dan sylw mewn modd addas.

# Apeliadau

Yma yn Nhorfaen rydym yn ceisio gweithio mewn partneriaeth, a sicrhau bod pob rhiant yn cael eu dewis cyntaf o ysgol i'w plant. Os nad yw'n bosibl neilltuo lle i'ch plentyn yn yr ysgol o'ch dewis chi, byddwn yn eich hysbysu am eich hawl i apelio. Fe wnawn hyn oherwydd ein bod eisiau bod yn deg a chlir bob amser. Os ydych yn dymuno apelio, gallwch dderbyn lle mewn ysgol arall tan i'r apêl fynd rhagddi, ac ni fydd hyn yn effeithio ar yr apêl dan sylw.

Os byddwch yn dewis apelio, bydd yn cael ei gyfeirio at Banel Apêl Annibynnol a gwneir trefniadau i hyn ddigwydd. Gellir cael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag apeliadau gan y Gwasanaethau Democrataidd, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, drwy ffonio 01495 766294. (Bydd yn cynnwys cyngor ar bwy y gall fod gyda chi a nodi pryd y dylid
ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig) Os bydd angen i chi apelio, mae'n bwysig nodi bod yr Awdurdod Lleol yn caniatáu 10 diwrnod ysgol i rieni gyflwyno apêl ac os nad yw rhieni yn glynu at hyn, ystyrir nad yw'r hawl i apelio wedi cael ei dderbyn o fewn y terfyn amser a ni chaiff ei chlywed.

# Addysg feithrin a darpariaeth cyn - ysgol arall

Mae ystod o leoliadau ar gael i blant oed Meithrin yn Nhorfaen. Unedau Meithrin yr ALl yw'r rhain (a elwir yn feithrinfeydd a gynhelir) sy'n rhan o'r Ysgolion Cynradd (sydd ar hyn o bryd yn cynnwys tair ysgol gyfrwng Gymraeg sef Ysgol Gymraeg Cwmbrân, Ysgol Bryn Onnen ym Mhont-y-pŵl, Ysgol Panteg yn Nhref Gruffydd ac o fis Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn Nhrefddyn). Mae yna ganolfan yn Ysgol Arbennig Crownbridge sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol ynghyd ag Unedau Meithrin yn Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant ac Ysgol Gynradd Gatholig Mair a'r Angylion, i blant Catholig. Cyrff Llywodraethu'r ysgolion sydd delio â'r derbyniadau i'r ysgolion hyn. Mae Canolfan Blant Integredig (CBI) wedi ei lleoli yng Nghwmbrân ar safle ysgol Nant Celyn.

Mae pob Meithrinfa yn gwasanaethu dalgylch penodol. Gall rhieni gyflwyno cais i'w plentyn fynd i unrhyw Uned Feithrin a gynhelir gan yr Awdurdod, ond pan fydd mwy o blant eisiau mynd i'r uned honno na'r lleoedd sydd ar gael, bydd y Cyngor yn defnyddio'r meini prawf gordanysgrifio canlynol, yn ôl blaenoriaeth.

Hefyd mae lleoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Saesneg neu Gymraeg nad ydynt yn cael eu cynnal wedi cofrestru gyda'r Awdurdod Lleol i ddarparu addysg i blant tair a phedair oed.Gall rhieni/gofalwyr ddewis rhoi eu plentyn mewn lleoliad blynyddoedd cynnar sector gwirfoddol neu breifat, sy'n ddarparwr addysg cofrestredig. Mae yna ddarparwyr nas gynhelir sy'n gallu darparu gofal plant ychwanegol pe bai ei angen arnoch. Yn wahanol i dderbyn i feithrinfeydd yr ALl, nid oes dyddiadau agor/cau sy'n berthnasol i'r meithrinfeydd hyn.

Mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, gellir cynnig lleoliadau amser llawn i blant 4 oed, os oes lleoedd ar gael.

**Fodd bynnag, nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod lleoliad meithrin ac ni ddarperir cludiant ar gyfer plant oed Meithrin.**

Os byddwch yn dewis i'ch plentyn fynychu ysgol feithrin nas cynhelir sy'n ddarparwr addysg cofrestredig gyda'r Awdurdod Lleol, bydd yr Awdurdod yn talu am le eich plentyn ar sail rhan amser (isafswm o 10 awr dros bedwar neu bum niwrnod yr wythnos neu 3 diwrnod llawn)(isafswm o 7 awr y dydd). Bydd lefel y nawdd yn gyfartal â'r hyn a neilltuir ar gyfer plentyn pedair oed mewn darpariaeth a gynhelir, ac ar hyn o bryd mae hyn yn cyfateb i £10 y dydd yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn dair oed. Os bydd plentyn yn mynychu lleoliad gofal

plant cymeradwy, bydd rhieni'n gyfrifol am unrhyw daliadau ychwanegol dros a thu hwnt i'r nawdd a neilltuwyd gan yr Awdurdod Lleol.

Polisi'r Cyngor yw parchu dewis rhieni lle'n bosibl; fodd bynnag, mewn rhai achosion efallai y bydd mwy o geisiadau am leoliad penodol na'r lleoedd sydd ar gael. Wrth benderfynu pa blant i'w derbyn i'r Meithrin, bydd y Cyngor yn defnyddio'r meini prawf canlynol ar gyfer achosion lle mae mwy o geisiadau na lleoedd, yn nhrefn blaenoriaeth.

# Meini prawf gordanysgrifio ar gyfer dyfarnu lleoedd meithrin:

Lle enwir ysgol mewn datganiad o Anghenion Addysgol neu yn y Cynllun Datblygu Unigol, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i dderbyn y plentyn i'r lleoliad a enwyd cyn defnyddio'r meini prawf ar gyfer achosion lle bo mwy o geisiadau na lleoedd, ar gyfer y ceisiadau a dderbynnir.

- **Blaenoriaeth 1:** Blaenoriaeth ar gyfer lleoedd llawn-amser (i blant pedair oed yn unig).

  - Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol sy'n byw yn y dalgylch.

  - Plant ag ADY hynod gymhleth ac anghenion meddygol penodol, sy'n byw yn y dalgylch, a'r asiantaethau (iechyd) priodol yn cefnogi darpariaeth feithrin amser llawn mewn cytundeb â'r adran ADY

  - Plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sy'n byw yn y dalgylch.

- **Blaenoriaeth 2:** Plant 3-4 oed â blaenoriaeth rhan amser. Plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod neu sydd wedi derbyn gofal yn y gorffenno.

- **Blaenoriaeth 3:** Plant ar sail feddygol, a gefnogir gan adroddiad gan feddyg ymgynghorol/arbenigwr meddygol, a gafwyd gan y rhieni, yn nodi'r fantais feddygol i'r plentyn fynychu'r ysgol o'u dewis o gymharu ag ysgol arferol y dalgylch.

  **Sylwer: Ni dderbynnir adroddiadau gan feddygon teulu at y diben hwn**

- **Blaenoriaeth 4:** Disgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch

- **Blaenoriaeth 5:** Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol o'u dewis ac sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer blaenoriaeth amser llawn (Blaenoriaeth 1).

- **Blaenoriaeth 6:** Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol o'u dewis

Wedi ystyried y categorïau uchod, seilir blaenoriaeth ar agosrwydd at yr ysgol.

Mesurir y pellter o’r pwynt lle bo cartref y plentyn yn cwrdd â’r brifffordd i’r fynedfa agosaf sydd ar gael yn yr ysgol, a mesurir yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael a gydnabyddir gan y cyngor. Defnyddir System Fapio Gwybodaeth Ddigidol i fesur.

Er mai’r Awdurdod sy’n dod i benderfyniad ynghylch derbyn plentyn ac sy’n dweud wrth y rhieni am y penderfyniad hwn, yr unedau unigol fydd yn dweud yn swyddogol wrth y rhieni am statws y lleoliad h.y. sesiynau bore neu brynhawn. Bydd llythyron cynnig yn cael eu hanfon allan erbyn diwedd mis Tachwedd bob blwyddyn.

Nid yw’r ffaith fod plentyn yn mynychu dosbarth Meithrin yn gwarantu y caiff ei dderbyn i’r Dosbarth Derbyn nac yn rhoi mantais i gais y plentyn am le yn y Dosbarth Derbyn. Rhaid i rieni gyflwyno cais ar wahân am le mewn Dosbarth Derbyn ar yr adeg briodol.

Gellir cael manylion darpariaeth ysgolion meithrin gan Benaethiaid yr Ysgolion Cynradd sydd ag Uned Feithrin. Mae Ysgolion ag Uned Feithrin ynghlwm wedi’u nodi â seren (📖) yng Nghyfeirlyfr yr Ysgolion.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â mynediad i Grwpiau Chwarae, Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Dydd Preifat, cysylltwch â’r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

# Ceisiadau Hwyr

Bydd unrhyw geisiadau sy’n dod i law ar ôl y dyddiad cau perthnasol (gweler yr amserlen) neu unrhyw geisiadau sy’n dal i fod yn anghyflawn ar y dyddiad cau, yn cael eu trafod o dan y trefniadau ymgeisio hwyr. Rhaid cyflwyno ceisiadau hwyr ar ffurflen gais bapur, oherwydd nid yw’n bosibl ymgeisio ar-lein ar ôl y dyddiad cau.

Os bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn newid i’r ysgol a ffefrir ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd, bydd y cais yn cael ei weld fel cais hwyr. Dylai unrhyw geisiadau neu ddewisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd gael eu prosesu’n fisol ar ôl y dyddiad cynnig, lle bo’n bosibl.

Bydd y trefniadau ar gyfer ceisiadau hwyr yn parhau hyd nes wythnos olaf mis Awst. Ar gyfer ceisiadau i’r Meithrin, mae’r rhestr aros ar waith ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan. Ar ôl y dyddiad hwn, caiff unrhyw dderbyniadau statudol sy’n dod i law eu prosesu fel trosglwyddiad o fewn y flwyddyn ysgol. Sylwer y gallai ceisiadau sy’n cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr gynyddu’r posibilrwydd o beidio â chael lle yn yr ysgol(ion) a ffefrir. Y rheswm dros hyn yw fod pob cais a gyflwynir gyda’r dystiolaeth angenrheidiol cyn y dyddiad cau yn

cael blaenoriaeth dros y rheiny sydd wedi dod i law ar ôl y dyddiad cau.

Ni all y Cyngor dderbyn cyfrifoldeb dros unrhyw gais neu dystiolaeth na chafodd ei gyflwyno'n gywir trwy'r system ar-lein, neu sy'n mynd ar goll yn y post. Argymhellir bod unrhyw un sy'n anfon cais trwy'r post yn defnyddio gwasanaeth lle mae'n rhaid i'r sawl sy'n derbyn y post lofnodi.

## Genedigaethau Lluosog (e.e. efeilliaid/ tripledi)

Os yw'r plentyn olaf i gael ei dderbyn yn un o enedigaethau lluosog, yna, wrth gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, bydd yr ALl yn derbyn y brawd/brodyr neu chwaer/chwiorydd eraill.

## Plant swyddogion lluoedd arfog y DU a gweision y goron (yn cynnwys diplomyddion)

Mae teuluoedd personél Lluoedd Arfog y DU a Gweision eraill y Goron yn gorfod symud yn aml o fewn y DY ac o dramor, a hynny'n aml ar fyr rybudd.

O ganlyniad, i bersonél lluoedd arfog y DU a Gweision eraill y Goron bydd y Cyngor o'r farn fod y meini prawf preswylio wedi'u bodloni (ac yn rhoi blaenoriaeth yn y dalgylch) os bydd unrhyw un o'r canlynol yn dod gyda'r cais, hyd yn oed os nad yw'r teulu'n byw yn Nhorfaen ar y dyddiad perthnasol.

- Llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad
- Dyddiad preswylio pendant
- Cadarnhad o'r cyfeiriad newydd.

## Rhestri aros

O ran trosglwyddiadau pontio statudol, bydd yr Awdurdod yn cadw rhestr aros ar gyfer y rownd dderbyniadau hyd nes 30 Medi yn yr un flwyddyn academaidd. Ar ôl y fath amser, bydd y rhestrau aros presennol yn cael eu clirio ac yn ffres Bydd angen ymgeisioi. Gosodir enw plentyn ar y rhestr aros hyd yn oed os bydd rhieni yn dewis ysgol arall neu'n penderfynu defnyddio'u hawl i apelio.

Gallai safle plentyn ar y rhestr aros newid, gan y gallai ceisiadau ddod i law sydd â blaenoriaeth uwch dan y meini prawf derbyn. Os daw lle ar gael yn ystod y cyfnod hwn bydd y lle yn cael ei roi i blentyn ar y rhestr aros ar sail meini prawf yr Awdurdod ar gyfer achosion lle mae mwy o geisiadau na lleoedd, ac nid ar sail y dyddiad yr ychwanegwyd y cais at y rhestr.

Pan gaiff cais i drosglwyddo yn ystod y flwyddyn ei wrthod, bydd enw'r plentyn yn aros ar y rhestr aros ar gyfer y dewis ysgol hyd at ddiwedd y flwyddyn

academaidd y caiff y cais ei wneud ynddi, pan ellir gwneud cais newydd. Os daw lle yn wag bryd hynny, caiff yr holl blant ar y rhestr aros eu hystyried gyda'i gilydd am y lle, a'u blaenoriaethu fel y nodir ym meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor a gyhoeddwyd.

Yn benodol ar gyfer y broses derbyn i feithrin, cedwir rhestr aros ar gyfer y disgyblion hynny nad ydynt wedi gallu cael lle ym mis Medi. Pan ddyrennir lle mewn meithrin i'r plentyn, ni fydd yn gymwys i fod ar y rhestr aros (ac eithrio lleoliad codi'n 3 yn y feithrinfa honno), oni bai bod newid sylweddol wedi bod mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar statws y cais, fel symud tŷ i dalgylch arall. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cysylltu â'r Tîm Derbyn i Ysgolion i gael eglurhad ynghylch unrhyw newid mewn amgylchiadau.

# Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen

O wybodaeth am ofal plant i weithgareddau hamdden ar gyfer eich plant, ac o gymorth i deuluoedd i wasanaethau i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen yma i helpu.

Os hoffech wybodaeth ynghylch y gwahanol fathau o ofal plant sydd ar gael yn Nhorfaen, a chyngor ynghylch y gofal plant sydd fwyaf addas i'ch anghenion, cysylltwch â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen am becyn gwybodaeth wedi ei deilwra'n arbennig, sydd yn cynnig manylion ynghylch lleoliadau, costau a manylion cyswllt lleol.

Os ydych yn dewis addysg feithrin mewn ysgol ar gyfer eich plentyn, efallai bydd gennych ddiddordeb i wybod mwy am ofal plant sy'n cydweddu a'r ddarpariaeth feithrin yn Nhorfaen, sef gofal meithrin cofleidiol a gwarchodwyr plant. Gall rhai lleoliadau gofal plant preifat a gwirfoddol hefyd gynnig lleoedd addysg feithrin a ariennir gan yr awdurdod lleol.

Os ydych yn dewis ysgol, gall Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen rhoi gwybodaeth i chi ynghylch gofal plant sy'n darparu gofal cyn ac ar ôl ysgol i blant yn Nhorfaen, a gofal plant ar gyfer eich plant yn ystod gwyliau ysgol, sydd yn addas i rieni gofalwyr sy'n gweithio.

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd hefyd yn cynnig cyngor a chanllawiau ynglŷn â chymorth gyda chost gofal plant, gan gynnwys gwybodaeth ar Gredydau Treth, Gofal Plant Di-dreth a'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn ogystal â gwybodaeth arall fel dewis addysg Cyfrwng Cymraeg i'ch plentyn.

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd hefyd yn cynnig cyngor a chanllawiau o ran help gyda chost gofal plant, gan gynnwys gwybodaeth am Gredydau Treth, Gofal Plant Di- dreth, Cynnig Gofal Plant Cymru a dewis gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eich plentyn.

Bod yn ddwyieithog yn Nhorfaen – Mae'r llyfryn hwn yn mapio taith cyfrwng Cymraeg i'ch plentyn a chi - drwy'r blynyddoedd cyn-ysgol ac yn yr ysgol - o 'r ysgol feithrin i ysgolion cynradd, uwchradd, addysg bellach a thu hwnt.

Bydd plant sy'n mynychu ysgol Gymraeg, yn derbyn eu haddysg yn y Gymraeg o'r dosbarth meithrin tan Flwyddyn 2 ac yn cael gwersi Saesneg o flwyddyn 3 ac yn defnyddio'r Saesneg yn eu gwersi ar draws y cwricwlwm, ac felly'n dod yn

ddwyieithog.

Mae plant yn dechrau dysgu Cymraeg o'r cychwyn ac yn cael eu trochi yn yr iaith. Mae cymorth ar gael i rieni sy'n methu siarad Cymraeg er mwyn iddynt allu cefnogi eu plentyn yn y dosbarth meithrin neu'r ysgol.

Ewch i learnwelsh.cymru i gael rhagor o wybodaeth.

Gall rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd yn Nhorfaen ddefnyddio'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd am wybodaeth ddiduedd o ansawdd, sydd am ddim ynglŷn â'r uchod a llawer mwy. Cysylltwch â ni os oes gennych ymholiad, drwy:

- Rhadffôn 0800 0196 330
- E-bost fis@torfaen.gov.uk
- Cysylltwch â ni ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol www.facebook.com/ TorfaenFIS neu www.twitter.com/TorfaenFIS
- Neu beth am bori trwy ein gwybodaeth a manteisio ar gyfle i chwilio ar wefan y Gwasanaeth gwybodaeth i Deuluoedd www.torfaenfis.org.uk

Darperir Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, a sefydlwyd y gwasanaeth i gydymffurfio ag ymrwymiadau statudol Deddf Addysg 2002.Mae'n parhau i ddarparu gwybodaeth yn ôl y ddyletswydd statudol a nodir yn Neddf Gofal Plant 2006.

## Dewisiadau gofal plant

Dewis gofal plant sy'n addas ar gyfer anghenion eich teulu yw un o'r penderfyniadau pwysicaf y gallwch chithau fel rhiant ei wneud. Beth bynnag yw oedran eich plentyn, byddwch am y sicrwydd eu bod yn ddiogel, hapus ac yn cael eu hysgogi tra eu bod yn derbyn gofal. Gall Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen gynnig manylion ynghylch yr amrediad o ofal plant sydd ar gael yn Nhorfaen yn ogystal â chanllawiau am ddim ar gyfer dewis gofal plant, yn cynnwys enghreifftiau o gwestiynau y gallwch eu holi i ddarpar ddarparwyr gofal plant.

Mae llawer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd gweithio a gofalu am eu plant yn ystod gwyliau ysgol. Gall y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ddarparu gwybodaeth ynghylch gofal plant yn Nhorfaen, yn cynnwys manylion ynglŷn â lleoliadau a chostau.

Mae gofal plant Dechrau'n Deg ar gael yn Nhorfaen. I gael gwybod mwy ewch i wefan Gwybodaeth i Deuluoedd – Dechrau'n Deg (torfaenfis.org.uk).

# Cymorth gyda chostau gofal plant

Canfu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Torfaen yn 2022 bod rhai rheini a gofalwyr wedi dweud bod cost gofal plant wedi eu hatal rhag cael darpariaeth ffurfiol, a bod dim ond 37% o deuluoedd yn hawlio help gyda chostau gofal plant (yn seiliedig ar deuluoedd a gwblhaodd yr arolwg gofal plant rhieni/gofalwyr yn ystod 2021).

Gall rhieni / gofalwyr gael rywfaint o arian tuag at gostau gofal plant, fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar nifer o feini prawf cymhwysedd ac mae maint y cymorth a dderbynnir yn medru amrywio rhwng teuluoedd.

Gall rhieni / gofalwyr fod yn gymwys i gael help tuag at gostau gofal plant os yw'r gofal plant maent yn ei ddefnyddio wedi'i gofrestru. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio gofal plant yng Nghymru. Gall rhieni / gofalwyr wirio gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd os yw eu darparwr gofal plant wedi'i gofrestru gydag AGC a gallant ofyn am y rhif cofrestru yn uniongyrchol gan y darparwr a ddewiswyd ganddynt.

Mae'r cyllid presennol sydd ar gael i rieni/gofalwyr a chyllid arfaethedig yn ystod 2026 yn cynnwys:

- Credyd Cynhwysol
- Gofal Plant Di-dreth
- Talebau Gofal Plant (hawliadau sy'n bodoli eisoes)
- Elfen Gofal Plant Credyd Treth Gwaith (hawliadau sy'n bodoli eisoes)
- Cymorth i fyfyrwyr
- Cynnig Gofal Plant Cymru

# Credyd Cynhwysol

Mae Credyd Cynhwysol ar gael i hawlwyr newydd a gall helpu tuag at gost gofal plant i rhieni / gofalwyr sy'n ennill cyflog (os ydynt yn rhan o gwpl, rhaid i rhieni / gofalwyr fod yn ennill cyflog) a defnyddio gofal plant cofrestredig.

Gall Credyd Cynhwysol helpu teuluoedd i dalu hyd at 85% o'u costau gofal plant a gellir hawlio uchafswm o £1031.88 ar gyfer un plentyn y mis, neu £1,768.94 ar gyfer dau blentyn (GOV.UK) os ydynt yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol, fodd bynnag, bydd hyn yn seiliedig ar feini prawf cymhwysedd a bydd y swm a ddyfernir yn seiliedig ar amgylchiadau'r teulu.

Bydd teuluoedd yn gallu hawlio am un cynllun yn unig i helpu gyda chostau gofal plant.

## Cynllun Gofal Plant Di-dreth

Mae Gofal Plant Di-dreth yn fenter gan y Llywodraeth sydd ar gael i deuluoedd sydd â phlant dan 12 oed (hyd at 17 oed i blant ag anabledd), os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwyster.

Bydd rhieni / gofalwyr sy'n talu am ofal plant cofrestredig yn gallu agor cyfrif ar-lein y gallant dalu i mewn iddo i dalu am gost gofal plant cofrestredig.

Am bob £8 y bydd rhieni / gofalwyr yn eu rhoi i mewn i'r cyfrif, bydd y Llywodraeth yn ychwanegu £2. Gallai hyn o bosib, rhoi cyfle i rieni / gofalwyr gynilo uchafswm o £2,000 y flwyddyn, am bob plentyn (£4,000 am blentyn ag anabledd).

I fod yn gymwys, rhaid bod rhiant/gofalwyr yn gweithio, ac yn ennill o leiaf yr hyn sy'n cyfateb i 16 awr yr wythnos ar isafswm cyflog cenedlaethol neu gyflog byw ar gyfartaledd bob yr wythnos. Ar hyn o bryd mae'r cap incwm ar gyfer gwneud cais am Ofal Plant Di-dreth yn £100,000. Bydd rhiant/gofalwyr hunangyflogedig hefyd yn gallu hawlio Gofal Plant Di-dreth, nad yw'n cael ei gynnig ar hyn o bryd drwy gynlluniau talebau gofal plant. Gallwch ddefnyddio Gofal Plant Di-dreth ar yr un pryd â'r Cynnig Gofal Plant i Gymru os ydych yn gymwys i dderbyn y ddau, i dalu am unrhyw gostau ychwanegol. Ni allwch dderbyn Gofal Plant Di-dreth ar yr un pryd â hawlio Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant, Credyd Cynhwysol neu dalebau gofal plant.

Gall unigolion eraill, fel aelodau'r teulu neu gyflogwyr hefyd dalu i mewn i'r cyfrif. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i rieni/gofalwyr gynilo arian yn y cyfrif ar gyfer yr adegau hynny y bydd eu hanghenion gofal plant yn fwy o lawer. Os bydd amgylchiadau'r rhieni/ gofalwyr yn newid, gallant dynnu allan yr arian a gynilwyd, ac eithrio cyfraniadau'r llywodraeth. I gael mwy o wybodaeth ewch i https://www.gov.uk/tax- free-childcare.

## Talebau Gofal Plant (i'r rhai sydd eisoes yn hawlio)

Mae talebau Gofal Plant yn gynllun y Llywodraeth sy'n cael ei gynnig drwy gyflogwyr ac sy'n caniatáu i riant/gofalwyr sy'n gweithio dalu eu costau gofal plant o gyflog cyn treth.

Nid yw Talebau Gofal Plant ar gael mwyach i ymgeiswyr newydd. Fodd bynnag gall rhiant/ gofalwyr sy'n parhau i ddefnyddio talebau gofal plant wneud hynny tan i'w cyflogwr roi'r gorau i gynnig y cynllun, ac nid oes o reidrwydd angen trosi i Ofal Plant Di-dreth.

# Elfen Gofal Plant Credyd Treth Gwaith (i'r rhai sydd eisoes yn hawlio)

Mae elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith yn help ariannol tuag at gostau gofal plant. Mae hwn yn cael ei dalu i'r sawl sy'n bennaf gyfrifol am ofalu am y plentyn neu'r plant, ochr yn ochr â thaliadau Credyd Treth Plant ac elfennau eraill o Gredyd Treth Gwaith. Mae'r elfen Gofal Plant Credyd Treth Gwaith yn ddibynnol ar incwm aelwydydd. Fodd bynnag, gall symiau a dderbynnir fod yn wahanol oherwydd nifer y plant sy'n defnyddio gofal plant neu os oes gan y plentyn/plant anabledd.

Pe byddent yn gymwys, gallai rhieni / gofalwyr dderbyn hyd at 70% o'u costau gofal plant, fodd bynnag, ni ellir ond ei hawlio os ydynt yn derbyn Credyd Treth Gwaith.

Mae terfyn i gyfanswm y swm sydd ar gael i rieni cymwys, fel a ganlyn:

- £175 yr wythnos mewn costau ar gyfer un plentyn a £300 am ddau o blant neu fwy. Nid yw unrhyw gostau gofal plant y mae rhieni/gofalwyr yn eu talu'n fwy na'r symiau hyn, yn cael eu defnyddio i gyfrifo.
- Felly gallai rhieni/gofalwyr cymwys hawlio £122.50 (70% o £175 ar gyfer un plentyn) neu £210 (70% o £300 ar gyfer dau blentyn) tuag at eu costau gofal plant bob wythnos. Rhaid i rieni/gofalwyr dalu unrhyw gostau gofal plant sy'n fwy na'r swm hwn.

I ganfod a ydych yn gymwys i dderbyn Elfen Gofal Plant Credyd Treth Gwaith/ Credyd Cynhwysol ffoniwch Linell Gymorth Credydau Treth ar 0345 300 3900.

# Cefnogaeth i Fyfyrwyr mewn Addysg Uwch

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, gallai'r Grant Gofal Plant (GGP) helpu gyda chostau gofal plant cofrestredig. Os oes gennych blant dibynnol o dan 15 oed (neu dan 17 oed os oes ganddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Uchafswm y Grant Gofal Plant fydd ar gael fydd hyd at 85% o'ch gwir gostau, yn seiliedig ar ddwyster eich cwrs. Yn ystod blwyddyn academaidd 2025/2026, gallech hawlio mwyafswm o £199.62 yr wythnos ar gyfer 1 plentyn, £342.24 ar gyfer 2 neu fwy o blant. Os nad oes gennych ddarparwr gofal plant ar yr adeg yr ydych yn gwneud cais, gallwch gael GGP o hyd, ond bydd uchafswm o £141 yr wythnos i hyn, neu 85% o'r gwir gostau, pa un bynnag sydd isaf. Unwaith y byddwch yn rhoi manylion eich darparwr gofal plant, byddwn yn ailgyfrif eich arian ar gyfer y swm uwch.

Ni all teuluoedd hawlio’r grant hwn os ydyn nhw neu eu partner yn hawlio elfen gofal plant Credydau Treth Gwaith, Credyd Cynhwysol, grantiau gofal plant a ariennir gan y GIG, yn talu perthynas i ofalu am eu plentyn neu’n cael Gofal Plant Di-dreth.

(Cymerwyd o www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk  Ebrill 2025).

# Cynnig Gofal Plant Cymru

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn fenter gan Lywodraeth Cymru a bydd yn darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant i rieni cymwys, ar gyfer plant 3-4 oed yn unig. Mae’r Cynnig yn gyfuniad o Feithrin Cyfnod Sylfaen (MCS) (rhwng 10 - 12.5 awr) a gofal plant (rhwng 17.5 - 20 awr), am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Bydd angen i rieni/gofalwyr cymwys fod yn ennill cyflog cyfwerth ag 16 awr ar yr isafswm cyflog cenedlaethol, cyflog byw cenedlaethol neu fwy, a rhaid eu bod yn byw yn Nhorfaen. Mae cap incwm uchaf ar gyfer rhieni sy’n gweithio wedi’i osod ar £100,000. Os ydynt yn rhan o gwpl, rhaid i’r ddau riant fod yn gweithio a bodloni’r gofyniad hwn. Os bydd y naill riant neu’r llall yn ennill uwchlaw’r cap incwm uchaf hwn, ni fyddant yn gymwys i dderbyn y cynnig. Bydd y Cynnig Gofal Plant ar gael hefyd i rai rhieni mewn addysg neu hyfforddiant. Bydd ehangu’r Cynnig yn canolbwyntio i gychwyn ar rieni sydd wedi cofrestru ar gyrsiau addysg uwch a phellach. Unwaith bydd y newid yma wedi ei gyflwyno, bydd Llywodraeth Cymru’n ystyried ychwanegu minteioedd ychwanegol o ddysgwyr dros amser.

Gellir gweld manylion llawn y Cynnig yma;

Cynnig Gofal Plant Cymru | Torfaen FIS

I ganfod mwy am Dalebau Gofal Plant, Credydau Treth, Gofal Plant Di-dreth, a Chynnig Gofal Plant Cymru a gofal plant cofrestredig, cysylltwch â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen ar Radffôn 0800 0196 330, e-bostiwch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen | Torfaen FIS

# Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban

## Polisi Derbyn

Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban yn rhan o'r Eglwys Gatholig. Mae'n ysgol a reolir yn wirfoddol yn Archesgobaeth Caerdydd a chaiff ei chynnal gan Awdurdod Lleol Torfaen. Corff Llywodraethu Sant Alban yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr ysgol hon.

Ein nod yw darparu Addysg Gristnogol o safon uchel yn seiliedig ar ddysgeidiaeth Crist yn yr Efengylau, lle mae pob unigolyn yn aelod gwerthfawr o'n cymuned, ac yn gallu datblygu ei dawn/ddawn i'r eithaf. Ein nod yw hyrwyddo ffydd ac ymrwymiad crefyddol ym mhob aelod o'n cymuned, a hynny'n, yn unol â defodau, arferion a dysgeidiaeth yr Eglwys Gatholig.

## Nifer Derbyn

Y Nifer Derbyn o'r newydd o fis Medi 2026 yw 170 yn ôl cyfarwyddebau Llywodraeth Cymru/yr Awdurdod Lleol.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 31 Hydref 25

Dyddiad rhoi'r cynnig: 2 Mawrth 26

## Disgyblion Â Datganiad Anghenion Addysgol Ychwanegol/ Cynllun Datblygu Unigol

Bydd plant â datganiad ADY/ Cynllun Datblygu Unigolsy'n enwi'r ysgol yn cael eu derbyn cyn ymgeiswyr eraill.

## Meini prawf Gordanysgrifio a Threfn Blaenoriaeth

Pan fydd nifer y ceisiadau yn hafal i neu'n llai na'r nifer derbyn, bydd yr holl ddisgyblion yn cael eu derbyn. Pan fydd nifer y ceisiadau yn fwy na'r rhif derbyn, defnyddir y meini prawf canlynol ar gyfer pob cais, yn nhrefn blaenoriaeth:

1. Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a arferai Dderbyn Gofal. Y diffiniad ar gyfer Plentyn sy'n Derbyn Gofal yw plentyn sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989. Mae Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi eu bedyddio i'r ffydd Gatholig yn cael blaenoriaeth dros Blant sy'n Derbyn Gofal sydd heb eu bedyddio i'r ffydd Gatholig.
2. Plant sydd wedi eu bedyddio'n aelodau yn yr Eglwys Gatholig, sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Gynradd Gatholig.

3. Plant sydd wedi eu bedyddio’n aelodau yn yr Eglwys Gatholig, nad ydynt yn mynychu Ysgol Gynradd Gatholig ar hyn o bryd
4. Plant nad ydynt wedi eu bedyddio’n aelodau o’r Eglwys Gatholig sy’n mynychu Ysgol Gynradd Gatholig ar hyn o bryd
5. Plant sy’n mynychu ysgol yr Eglwys yng Nghymru ar hyn o bryd ac sy’n cael eu cefnogi gan lythyr gan eu Hoffeiriad Cristnogol neu’r Pennaeth
6. Plant sy’n ceisio addysg ar sail Ffydd sy’n cael eu cefnogi gan lythyr gan eu Hoffeiriad Cristnogol
7. Plant o ffydd arall sy’n ceisio addysg ar sail Ffydd, ble mae’r plentyn wedi eu bedyddio neu eu cysegru yn unol ag arferion traddodiad eu ffydd, ac sy’n cael eu cefnogi gan lythyr gan eu Gweinidog neu Arweinydd eu Ffydd
8. Plant o ffydd arall sy’n ceisio addysg ar sail ffydd ac sy’n cael eu cefnogi gan lythyr gan eu Gweinidog neu Arweinydd eu Crefydd neu Ffydd
9. Plant y mae eu rhieni’n ceisio addysg ar sail ffydd

## Torri’r Ddadl

Lle mae lleoedd ar gael i rai ond nid pob un o'r ymgeiswyr yn unrhyw un o'r categorïau a restrir uchod, yna rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw agosaf at Ysgol Uwchradd Gatholig Saint Alban.

Mesurir y pellter o’r pwynt lle bo cartref y plentyn yn cwrdd â’r briffordd i’r fynedfa agosaf sydd ar gael yn yr ysgol, a mesurir yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael a gydnabyddir gan y cyngor. Defnyddir System Fapio Gwybodaeth Ddigidol i fesur. FE FYDD angen tystiolaeth o’r cyfeiriad.

## Nodiadau

Rhaid cynnwys tystiolaeth ysgrifenedig gyda’r ffurflen gais ymhob achos sy’n nodi bedydd neu gysegru ymhob un o’r categorïau uchod.

## Brodyr a chwiorydd

Bydd plant sydd â brawd neu chwaer ar y gofrestr Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban yn y mis Medi y byddai'r ymgeisydd yn dechrau yn yr ysgol, yn cael blaenoriaeth ym mhob un o'r categorïau uchod. Cyfeirir y flaenoriaeth at y brawd neu chwaer ieuengaf yn yr ysgol, gyda'r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth o'r radd uchaf.

## Diffiniad o frawd neu chwaer

Rhaid nodi unrhyw gyswllt brawd neu chwaer ar y ffurflen gais. At ddibenion derbyn, mae brawd neu chwaer yn blentyn sydd yn frawd, chwaer, hanner brawd/chwaer (plentyn sydd â'r un rhiant), llysfrawd/chwaer lle mae dau blentyn yn perthyn drwy briodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant sydd wedi eu mabwysiadu/maethu ac yn byw yn yr un cyfeiriad.

Wrth gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, os yw'r plentyn olaf i gael ei dderbyn yn un o enedigaethau lluosog, bydd y llywodraethwyr yn derbyn y brawd/brodyr/chwaer chwiorydd eraill.

## Y Weithdrefn Apelio

Os gwrthodir derbyn plentyn i'r ysgol, bydd y Corff Llywodraethu yn ysgrifennu at y rhieni yn rhoi manylion llawn ynglŷn â pham y gwrthodwyd y cais, o ystyried y meini prawf a gyhoeddwyd.

Mae gan rieni'r hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod cais. Rhaid anfon y bwriad i apelio yn ysgrifenedig, o fewn 14 diwrnod ar ôl derbyn y llythyr gwrthod, at Glerc y Llywodraethwyr, d/o yr Ysgol. Caiff yr apêl ei chlywed gan Banel Apeliadau Annibynnol.

## Rhestr Arost

Bydd rhestr aros yn cael ei chynnal tan 31 Rhagfyr. Os daw lle ychwanegol ar gael, bydd y llywodraethwyr yn ystyried y rheiny ar y rhestr aros ar sail y meini prawf gordanysgrifio a gyhoeddwyd ac nid ar y dyddiad y derbyniwyd y cais.

Nid yw rhoi enw plentyn ar y rhestr aros yn atal rhieni rhag ymarfer eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle.

## Ceisiadau Hwyr

Bydd Pwyllgor Derbyniadau'r Llywodraethwyr yn defnyddio'r meini prawf uchod wrth fynd ati i ystyried ceisiadau hwyr. Os yw pob lle yn llawn, cynigir cyfle i rieni rhoi enw eu plentyn ar y rhestr aros. Nid yw hyn yn atal rhieni rhag defnyddio'u hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle.

## Sut i wneud cais?

Gall unrhyw riant wneud cais i'w blentyn/phlentyn gael eu derbyn i'r ysgol. Gellir cwblhau ffurflen gais ar wefan yr ysgol a bydd yn cael ei hystyried yng nghyd-destun y polisi hwn gan Is-Bwyllgor Derbyniadau'r Corff Llywodraethol.

# Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru Henllys

## Polisi Derbyn a Gweithdrefnau

Mae Corff Llywodraethu Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Henllys yn croesawu ceisiadau gan rieni sy'n dymuno i'w plant gael eu haddysgu mewn ysgol Anglicanaidd (gweler Nodyn 7).

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer plant y mae eu cyfeiriad cartref yn nalgylch yr ardal a chaiff ei diffinio fel Ardaloedd Gweinidogaeth Cwmbrân a Phontnewydd (gweler Nodyn 1).

## Deddfwriaeth

Mae'r Polisi hwn yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r codau statudol canlynol: Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Cod Derbyn i Ysgolion a'r Cod Apeliadau Derbyniadau Ysgol.

## Capasiti

Capasiti'r ysgol yw nifer y lleoedd sydd yn yr ysgol i ddisgyblion. Mae'r Awdurdod Lleol yn cytuno ar y nifer sydd yn cael ei chyfrifo yn ôl cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru'. Nifer neu capasiti Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Henllys yw 210.

## Nifer Derbyn

Y nifer derbyn (ND) yw'r uchafswm y gall yr ysgol ei dderbyn yn ei dosbarth derbyn. Ni wrthodir lle i ddisgyblion tan fod y Nifer Derbyn wedi ei gyrraedd. Yn achos y Dosbarth Derbyn yn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Henllys, y nifer yw 30.

Is-bwyllgor o Gorff Llywodraethu'r ysgol sydd yn cael ei adnabod fel y 'Pwyllgor Derbyn' sydd yn gyfrifol am y trefniadau derbyn. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol i gydlynu dyddiadau cau ar gyfer derbyn ceisiadau ac anfon llythyrau ar draws yr Awdurdod Lleol.

## Y Broses Geisio

Bydd yr ysgol yn danfon ffurflenni cais at y rhieni hynny sydd wedi mynegi diddordeb, yn Nhachwedd y flwyddyn cyn blwyddyn croesawu'r dosbarth Derbyn. Pan fydd darpar rieni'n dychwelyd y ffurflenni cais i'r ysgol, bydd angen iddyn nhw ddarparu llungopïau o'r dystysgrif geni a'r Dystysgrif Bedyddio os yw hynny'n briodol.

## Amserlen

Bydd y ceisiadau i gyd a dderbynnir cyn ac ar y dyddiad cau yn cael eu hystyried gyda'i gilydd.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflenni cais yw hanner dydd ar ddydd Gwener olaf Ionawr, a hysbysir rheini dim hwyrach na 16 Ebrill 2026. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn llythyrau yn apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â chynnig lle yw pythefnos ar ôl y dyddiad hysbysu.

Bydd rhieni (gweler Nodyn 2 am ddiffiniad) yn cael cyfnod penodol i dderbyn cynnig. Os nad yw rheini'n ymateb byddant yn cael gwahoddiad i ymateb eto ac yn cael gwybod y pryd hynny y bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl os nad ydynt yn ymateb.

## Ceisiadau Hwyr

Caiff ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau eu hystyried dim ond ar ôl ystyried y rheiny i gyd a dderbynnir erbyn y dyddiad cau. Mae hyn yn golygu, os nad oes lle ar ôl wedi ystyried yr holl geisiadau a dderbynnir cyn y dyddiad cau, hyd yn oed os byddwch yn bodloni meini prawf uwch na'r rheini sydd wedi peri cynnig lle Iymgeiswyr eraill, byddwch yn aflwyddiannus.

## Derbyn y tu allan i'r rownd arferol

Dylai ceisiadau i dderbyn ar unrhyw adeg ac eithrio'r adeg arferol i'r Dosbarth Derbyn gael eu nodi ar ffurflen gais yr ysgol, sydd ar gael gan yr ysgol, a dylid ei hanfon yn uniongyrchol i'r ysgol. Gofynnir i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'u cyfeiriad. Cynigir lleoedd yn amodol ar y lle sydd ar gael yn y dosbarth perthnasol.

## Meini Prawf Gordanysgrifio

Pan fydd nifer y ceisiadau a ddaw i law hyd at, ac yn cynnwys y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, yn llai na'r nifer derbyn neu'n gyfartal ag ef, cynigir lle i bob

plentyn yn y Dosbarth Derbyn.

Pan fydd nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer derbyn, dyrennir lleoedd yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio a ganlyn.

Fe fydd plant â datganiad ADY/Chynllun Datblygu Unigol sy'n enwi Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru Henllys yn cael eu derbyn yn awtomatig cyn defnyddio'r meini prawf ar gyfer gormod o alw.

1 Plant sy'n Derbyn Gofal, neu Blant a arferai Dderbyn Gofal (gweler Nodyn 3 ar gyfer y diffiniad), sydd wedi eu bedyddio'n Anglicaniaid.

2 Plant sydd wedi eu bedyddio'n Anglicaniaid ac y mae eu teuluoedd yn addoli'n rheolaidd/fel arfer mewn eglwys sy'n rhan o Ardal Weinidogaeth Cwmbrân a Phontnewydd. Rhoddir blaenoriaeth i frodyr a chwiorydd (gweler Nodyn 5)

3 Plant sydd wedi cael eu bedyddio yn y ffydd Anglicanaidd, y mae eu teuluoedd yn addoli'n gyson/rheolaidd mewn eglwys Anglicanaidd arall ac sy'n byw y tu allan i Ardal weinidogaeth Cwmbrân a Phontnewydd (gweler nodyn 4). Rhoddir blaenoriaeth i frodyr a chwiorydd (gweler nodyn 5)

4 Plant y mae eu teulu'n addoli'n gyson/rheolaidd mewn eglwys o wahanol enwad Cristnogol (gweler Nodyn 4 am ddiffiniad). Rhoddir blaenoriaeth i frodyr a chwiorydd (gweler Nodyn 5)

5 Plant sydd wedi eu bedyddio yn y ffydd Anglicanaidd ond nid ydynt yn mynychu'n rheolaidd, a theuluoedd nad ydynt yn mynychu (gordanysgrifiad i'w gymhwyso yn y drefn a nodir isod)

6 Plant heb eu bedyddio sydd: (gordanysgrifiad i'w gymhwyso yn y drefn a nodir isod)

7 Â brawd neu chwaer yn yr ysgol (gweler Nodyn 5)

8 Ag anghenion meddygol eithriadol, gyda thystiolaeth ysgrifenedig i'w cefnogi, a hynny fel arfer gan swyddog meddygol annibynnol neu berson arall sy'n briodol (gweler Nodyn 6 am ddiffiniad) ac

9 Yn byw ym Ardal Weinidogaeth Cwmbrân a Phontnewydd

**Plant Genedigaethau Lluosog (e.g. Efeilliaid neu Dripledi)**

Os yw'r plentyn olaf i gael ei dderbyn yn un o enedigaethau lluosog, yna, wrth gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, bydd yr ALl yn derbyn y brawd/brodyr neu chwaer/chwiorydd eraill.

# Torri'r Ddadl

Pan fydd angen gwahaniaethu rhwng dau blentyn sydd yn bodloni'r meini prawf, yn gyfartal bydd y pellter o gartref y plentyn i brif gatiau'r ysgol yn cael ei ddefnyddio. Bydd y pellter yn cael ei fesur o'r pwynt lle mae'r cartref yn cwrdd â'r briffordd, i brif fynedfa'r ysgol. Defnyddir System Mapio Gwybodaeth Ddigidol (Map Info Professional, Pitney Bowes).

# Apeliadau

Gall rhieni plant na chynhigiwyd le iddynt yn yr ysgol, apelio gerbron panel apêl annibynnol. Mae manylion gweithdrefnau apelio ar gael gan yr ysgol a rhoddir y rhain i rieni sydd yn cael eu gwrthod.

# Rhestri Aros

Dodir plant nad ydynt yn cael cynnig lle ar restr aros. Mae'r drefn flaenoriaeth ar y rhestr aros yr un fath â'r meini prawf os oes mwy o geisiadau na lleoedd. Ni chymerir i
ystyriaeth hyd yr amser ar y rhestr aros. Cedwir y rhestr aros tan 30 Medi. Ar ôl y dyddiad hwn, dylai rhieni wneud cais arall i'w plentyn fynychu'r ysgol.

# Nodiadau Esboniadol

**Nodyn 1:** Y cyfeiriad cartref yw'r lle y mae'r plentyn yn treulio mwyafrif yr wythnos ysgol (dydd Llun i ddydd Gwener, yn cynnwys nosweithiau) ar yr adeg y cyflwynir cais am le yn yr ysgol. Cedwir yr hawl gan yr ysgol i wirio dilysrwydd unrhyw gyfeiriad a roddir, drwy ofyn am dystiolaeth fel enw ar y Gofrestr Etholwyr, neu fil cyfleustodau diweddar sydd yn cadarnhau eich enw a chyfeiriad.

Os yw cyfeiriad cartref parhaol y plentyn yn wahanol i'r rhieni (ee os yw ef neu hi yn byw gyda rhiant-cu), cedwir yr hawl gan yr ysgol i weld dogfennaeth swyddogol, fel llyfr budd-daliadau neu gerdyn meddygol.

Nid yw trefniadau gofal plant yn rheswm digonol dros restru cyfeiriad arall.

Os ydych yn symud i'r dalgylch, byddwn yn gofyn am dystiolaeth o hyn, cyn ystyried eich cais am le. Mae enghraifft o dystiolaeth yn cynnwys llythyr gan eich cyfreithiwr yn cadarnhau fod gennych gytundeb yn rhwymo mewn cyfraith i brynu'r tŷ neu gytundeb les ffurfiol.

**Nodyn 2:** Rhiant yw unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhieniol neu warchodaeth gyfreithiol dros y plentyn. Os oes gennych amheuon, cysylltwch â'r ysgol am gyngor.

**Nodyn 3:** Mae Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989 ac y mae'r Awdurdod Lleol wedi cadarnhau y bydd yn derbyn gofal adeg derbyn y plentyn i'r ysgol.

**Nodyn 4:** Mae addoli cyson/rheolaidd yn cael ei ddiffinio fel addoli ar y Sul o leiaf unwaith y mis dros y 12 mis blaenorol. Rhaid cael tystiolaeth o hyn ar ffurf datganiad ysgrifenedig wedi ei lofnodi gan yr offeiriad neu weinidog perthnasol.

**Nodyn 5:** Mae brodyr a chwiorydd hefyd yn cyfeirio at hanner brawd neu chwaer, brawd neu chwaer a fabwysiadwyd, llysfrawd neu chwaer, plentyn maeth neu blentyn i gymar y rhiant/gofalwr sydd eisoes yn yr ysgol ac yn cyd-fyw yn yr un cyfeiriad.

**Nodyn 6:** Bydd angen llythyr ar y Corff Llywodraethol oddi wrth berson proffesiynol cofrestredig ym maes iechyd (fel meddyg) yn dweud pam mai'r ysgol yma yw'r ysgol fwyaf addas ac yn nodi'r anawsterau a fyddai'n cael eu hachosi pe bai rhaid i'r plentyn fynychu ysgol arall

**Nodyn 7:** Eglwysi sy'n derbyn athrawiaeth y Drindod Sanctaidd fel y nodir yn y cyfamod.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r ysgol. Dyma'r manylion cyswllt:

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru
Henllys Tŷ Canol Way
Henllys
Cwmbrân
Torfaen
NP44 6JA

Ffôn: 01633 877796
E-bost: minto.philippa@torfaen.gov.uk

# Ysgol Gynradd Gatholig Mair a'r Angylion

Sefydlwyd Ysgol Gynradd Gatholig Mair a'r Angylion gan yr Eglwys Gatholig ac mae'n rhan ohoni. Mae'n ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yn Esgobaeth Caerdydd ac fe'i cynhelir gan Awdurdod Leol Torfaen. Mae'n gwasanaethu cymuned Gatholig Plwyf Our Lady a Dewi Sant. Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig Mair a'r Angylion yw Awdurdod derbyn yr ysgol hon. Ein bwriad yw darparu Addysg Gristnogol yn seiliedig ar Grist yn yr Efengylau, ble mae pob unigolyn yn gallu datblygu ei dalent neu ei thalent i'r eithaf. Ein bwriad yw hyrwyddo ffydd ac ymrwymiad crefyddol, ymhlith aelodau'n cymuned, yn unol â defodau, arferion ac athrawiaethau'r Eglwys Gatholig.

Y nifer derbyn yw 30 yn y dosbarth/grŵp Derbyn ym Medi 2026 yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru / yr Awdurdod Lleol. Mae'r nifer derbyn yma'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn yn y cyfnod Sylfaen.

Bydd y Corff Llywodraethu yn cyfarfod yn ystod Tymor y Gwanwyn 2026 i ystyried ceisiadau. Gwnewch yn siŵr bod pob cais am fynediad yn cael ei gyflwyno erbyn 15 Ionawr 2026.

## Disgyblion â Datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol/ Cynllun Datblygu Unigol

Bydd plant â datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol/Chynllun Datblygu Unigol sy'n enwi'r ysgol yn cael eu derbyn cyn ymgeiswyr eraill.

## Meini Prawf Gordanysgrifio yn ôl blaenoriaeth

Pan fydd nifer y ceisiadau'n gyfartal â neu'n llai na'r nifer derbyn, caiff pob disgybl eu derbyn. Pan fo nifer y ceisiadau'n fwy na'r nifer derbyn, defnyddir y meini prawf canlynol gyda phob cais, yn nhrefn blaenoriaeth.

*NODER Bydd plant sydd â brawd neu chwaer ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Gatholig Mair a'r Angylion yn y mis Medi pan fyddai'r ymgeisydd yn dechrau yn yr ysgol, yn cael blaenoriaeth. Rhoddir blaenoriaeth trwy gyfeiriad at y brawd neu chwaer ieuengaf yn yr ysgol, gyda'r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth bennaf.

1. Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a arferai Dderbyn Gofal. Y diffiniad ar gyfer Plentyn sy'n Derbyn Gofal yw plentyn sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989. Mae Plant sy'n Derbyn Gofal sydd

wedi cael eu bedyddio i'r ffydd Gatholig yn cael blaenoriaeth dros Blant sy'n Derbyn Gofal sydd heb eu bedyddio i'r ffydd Gatholig. Rhaid i geisiadau gynnwys manylion yr Awdurdod Lleol a'r Gweithiwr Cymdeithasol.

2. Plant a fedyddiwyd yn y Ffydd Gatholig ac sy'n byw ym mhlwyf Our Lady a Dewi Sant, Cwmbrân.
3. Plant eraill sy'n wedi eu bedyddio'n Gatholig
4. Plant sydd heb eu bedyddio i'r ffydd Gatholig, sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gatholig/ Ysgol Eglwysig y Plwyf.
5. Plant o enwadau Cristnogol eraill y mae eu rhieni wedi mynegi dymuniad am addysg Gatholig
6. Plant o draddodiadau Ffydd eraill y mae eu rhieni wedi mynegi dymuniad am addysg Gatholig
7. Gall plant y mae ceisiadau wedi eu gwneud ar eu rhan mewn amgylchiadau arbennig gael eu derbyn yn ôl disgresiwn y Llywodraethwyr. Rhaid i bob cais ddod gyda llythyr gan y person proffesiynol priodol. Rhowch fanylion llawn os gwelwch yn dda ynglŷn â cheisiadau. Bydd y Llywodraethwyr yn trin yr holl wybodaeth yn gyfrinachol. Mae amgylchiadau arbennig yn cynnwys rhesymau meddygol a chymdeithasol.

# Nodiadau

*1. Maen prawf 1 – Tystiolaeth bod y plentyn yn Derbyn Gofal neu wedi Derbyn Gofal yn flaenorol

*2. Maen prawf 2 a 3 – Rhaid Darparu Copi o Dystysgrif Bedyddio.

*3. Maen prawf 4: Ffurflen "Datganiad o Fwriad" wedi ei lofnodi gan Arweinydd Ffydd.

*4. Maen prawf 5: Copi o Dystysgrif Bedyddio lel bo hynny'n briodol neu lythyr o gefnogaeth i ddangos eu bod yn rhan o'r ffydd y mae'r gweinidog/arweinydd ffydd yn rhoi cyngor.

# Torri'r ddadl o ran gordanysgrifio

Ymhob set o feini prawf gordanysgrifio, os yw'r nifer cronnus o geisiadau yn fwy na'r rhif derbyn a gyhoeddwyd, rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw'n agosaf at ysgol Mair a'r Angylion. Caiff y llwybr hwn ei fesur ar sail y 'pellter cerdded agosaf rhwng y fynedfa agosaf / giât flaen y cartref a phrif fynedfa (giât) ysgol Mair a'r Angylion.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r llwybr a bennir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen,

sy'n ystyried bod llwybr ar gael os gall plentyn, yng nghwmni rhywun, gerdded i'r ysgol yn weddol ddiogel.

Bydd Torfaen yn pennu'r llwybr fel yr amlinellir uchod gan ddefnyddio ei feddalwedd llwybro penodol ei hun. Er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb i bob ymgeisydd dyma'r unig offeryn mesur sy'n cael ei ddefnyddio gan y Cyngor ar gyfer ei ysgolion ei hun ac ysgol Mair a'r Angylion.

## Apeliadau

Mae gan rieni hawl statudol i apelio yn erbyn gwrthod derbyn plentyn i'r ysgol. Caiff hyn ei glywed gan Banel Apeliadau Annibynnol, ac ni fydd y Corff Llywodraethu na'r Pennaeth yn chwarae unrhyw rôl. Bydd manylion y broses apelio ar gael i rieni pan fyddant yn cael gwybod bod lle wedi ei wrthod (neu os ydynt yn gofyn am wybodaeth o'r fath gan y corff llywodraethu.

## Rhestr Aros

Pan fydd mwy o geisiadau na lleoedd, byddwn yn defnyddio'r meini prawf derbyn. Bydd enwau'r plant na fydd yn cael eu derbyn yn cael eu rhoi ar restr aros. Fe fydd yr enwau ar y rhestr aros mewn trefn yn ôl y meini prawf derbyn. Am na all dyddiad y cais fod yn faen prawf o ran trefnu enwau ar y rhestr aros, fe fydd ymgeiswyr hwyr yn cael eu slotio i mewn ar y rhestr yn ôl y meini prawf y maen nhw'n eu bodloni. Felly, mae'n bosibl y gall plentyn sydd yn symud i'r ardal yn ddiweddarach gael blaenoriaeth dros blentyn sydd wedi bod ar y rhestr ers tro.

Os daw lle ar gael o fewn y nifer derbyn, cynigir lle i blentyn y mae ei enw ar frig y rhestr. Nid yw hyn yn ddibynnol ar p'un ai yw wedi cyflwyno apêl.

## Ceisiadau Hwyr

Caiff unrhyw geisiadau hwyr eu hystyried gan Bwyllgor Derbyniadau'r Llywodraethwyr gan ddefnyddio'r meini prawf uchod.  Os yw pob lle wedi ei lenwi, bydd rhieni'n cael cyfle i roi enw eu plentyn ar y rhestr aros. Nid yw hyn yn atal rhieni rhag defnyddio'u hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â chynnig lle.

## Sut i wneud cais?

Gall unrhyw riant wneud cais i'w blentyn/phlentyn gael eu derbyn i'r ysgol Gellir cwblhau ffurflen gais ar wefan yr ysgol a bydd yn cael ei hystyried yn unol â'r polisi hwn gan Is-bwyllgor Derbyniadau'r Corff Llywodraethol.

# Ysgol Gynradd Gatholig Padre Pio

## Polisi Derbyn

Sefydlwyd Ysgol Gynradd Gatholig Padre Pio gan yr Eglwys Gatholig ac mae'n rhan ohoni. Mae'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn Archesgobaeth Caerdydd, a chaiff ei chynnal gan Awdurdod Lleol Torfaen. Mae'n gwasanaethu Plwyf Catholig Rhufeinig Alban Sant. Corff Llywodraethu Ysgol Padre Pio yw awdurdod derbyn yr ysgol.

Ein nod yw darparu Addysg Gristnogol o ansawdd uchel yn seiliedig ar ddysgeidiaeth Crist yn yr Efengylau, lle mae pob unigolyn yn aelod gwerthfawr o'n cymuned, ac yn medru datblygu ei ddoniau i'r eithaf. Ein nod yw hyrwyddo ffydd ac ymrwymiad crefyddol ymhlith aelodau ein cymuned a hynny'n unol â defodau, arferion a dysgeidiaeth yr Eglwys Gatholig.

## Sut i ymgeisio am le yn Ysgol Padre Pio

Fel ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ni yw ein hawdurdod derbyn ein hunain. Os hoffech wneud cais am le i'ch plentyn, cysylltwch â'r ysgol yn uniongyrchol drwy ffonio: 01495 742074, e-bost: clerk.padrepiorc@torfaen.gov.uk neu casglwch ffurflen o'r ysgol.

## Dyddiadau Derbyn 2026

- Dyddiad agor ar gyfer ceisiadau – 13 Tachwedd 2025
- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau –15 Ionawr 2026.
- Cynnig lleoedd – dydd Mercher 16 Ebrill 2026.

## Nifer Derbyn

Y Nifer Derbyn o fis Medi 2026 yw 30, yn ôl cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru/Awdurdod Lleol.

## Disgyblion â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig/Cynllun Datblygu Unigol

Bydd plant â datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol/Chynllun Datblygu Unigol sy'n enwi'r ysgol yn cael eu derbyn cyn ymgeiswyr eraill.

# Meini Prawf Gordanysgrifio a Threfn yn ôl Blaenoriaeth

Pan fydd nifer y ceisiadau yn gyfartal â'r nifer derbyn neu'n llai, bydd pob disgybl yn cael ei dderbyn. Pan fydd nifer y ceisiadau'n uwch na'r nifer derbyn, defnyddir y meini prawf canlynol yn ôl blaenoriaeth:- **Ymhob maen prawf fe fydd 'plant sy'n derbyn gofal/ plant a arferai dderbyn gofal' yn cael blaenoriaeth (Mae'r term 'Plentyn sy'n Derbyn Gofal' yn cyfeirio at blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn unol ag Adran 22, Deddf Plant 1989.)**

1 Plant sydd wedi eu bedyddio i'r ffydd Gatholig sy'n byw ym Mhlwyf Sain Alban yng Ngogledd Torfaen.

2 Plant sydd wedi eu bedyddio i'r ffydd Gatholig sy'n byw y tu allan i Blwyf Sain Alban.

3 Brodyr a chwiorydd plant sydd eisoes yn yr ysgol (hy bydd brodyr a chwiorydd, p'un ai'n hanner, llawn, wedi eu maethu neu eu mabwysiadu yn cael eu hystyried yn berthnasol os ydynt yn byw yn yr un aelwyd ac os bydd plentyn hŷn wedi ei gofrestru yn yr ysgol pan fydd yr ieuengaf yn gymwys i ddechrau)

4 Plant o unrhyw ffydd Gristnogol arall y mae eu rhieni'n ceisio addysg Gatholig benodol ar eu cyfer. Dylai'r ceisiadau hyn gynnwys tystysgrif geni neu lythyr o gefnogaeth gan arweinydd eu ffydd

5 Plant o unrhyw ffydd arall y mae eu rhieni'n ceisio addysg Gristnogol benodol ar eu cyfer. Dylai'r ceisiadau hyn gynnwys llythyr i'w cefnogi gan arweinydd eu ffydd

6 Plant y mae eu rhieni'n ceisio addysg ar sail ffydd

(cyfeiriwch os gwelwch yn dda at y nodiadau drosodd am gyfarwyddyd pellach am y meini prawf gordanysgrifio).

# Torri'r Ddadl

Pan fydd lleoedd ar gael i rhai ymgeiswyr ond nid yr holl ymgeiswyr mewn unrhyw gategori a rhestrir uchod, rhoddir y flaenoriaeth i'r rheiny sydd yn byw agosaf i'r ysgol. Mesurir y pellter yn ôl y pellter cerdded byrraf, mwyaf diogel rhwng cyfeiriad y cartref a giât yr ysgol. Mesurir hyn gan ddefnyddio system fapio gwybodaeth ddaearyddol ddigidol Torfaen.

## Nodiadau

A Haid cael tystysgrif bedydd ar gyfer yr holl geisiadau gan Gatholigion sydd wedi cael eu bedyddio.

B Mae plant sydd wedi cael eu bedyddio hefyd yn cyfeirio at blant sydd wedi mynegi dyhead i gael eu bedyddio yn yr Eglwys Gatholig ac sy'n paratoi ar gyfer y sacrament ar hyn o bryd. Rhaid i hyn gael ei gadarnhau'n ysgrifenedig gan offeiriad y plwyf.

C Os bydd plant sy'n efeilliaid/genedigaethau lluosog yn wynebu'r un meini prawf gordanysgrifio, a bod y llywodraethwyr yn medru derbyn un ohonynt, bydd y chwaer/ chwiorydd/brawd/brodyr eraill hefyd yn cael eu derbyn.

D Ym mhob un o'r categorïau uchod, bydd y Corff Llywodraethu yn ystyried y plant hynny yr ystyrir bod yr ysgol yn addas ar eu cyfer oherwydd yr anghenion meddygol neu gymdeithasol sydd ganddynt. Yn y fath achos, rhaid cyflwyno tystiolaeth gadarn a pherthnasol gan awdurdod priodol, ee ymarferydd meddygol, swyddog lles addysg, gweithiwr cymdeithasol neu offeiriad.

## Gweithdrefn Apelio

Os nad yw eich cais yn llwyddiannus, mae gennych yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Dylai rhieni sy'n dymuno mynegi'r hawl i apelio gysylltu â'r ysgol i ofyn am ffurflen apêl a nodiadau cyfarwyddyd ynghylch y weithdrefn apelio. Dylid dychwelyd y ffurflen apelio o fewn 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) o'r dyddiad y cawsoch wybod bod eich cais wedi bod yn aflwyddiannus - dylid dychwelyd y ffurflen apelio at Glerc y Corff Llywodraethu, dan ofal Ysgol Padre Pio. Cynhelir Panel Apeliadau annibynnol cyn gynted ag y bo'n ymarferol i benderfynu ar yr apêl - Ar gyfer derbyniadau yn ôl amserlen, bydd apeliadau'n cael eu clywed o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad cau a bennwyd ar gyfer derbyn apeliadau. Bydd apeliadau y tu allan i'r broses derbyn arferol yn ôl amserlen yn cael eu clywed o fewn 30 diwrnod o'r diwrnod y derbynnir yr apêl ysgrifenedig.

## Rhestr Aros

Bydd enwau'r plant na gynigiwyd lle ar eu cyfer yn yr ysgol, yn cael eu rhoi restr aros. Bydd y rhestr aros yn gweithredu yn ôl y meini prawf gordanysgrifio a rhestrir uchod. Nid yw cynnwys enw'r plentyn ar restr aros yn sicrhau y daw lle ar gael. Nid yw hyn yn atal rhieni rhag defnyddio'u hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle. Bydd enwau yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y maen nhw'n ymgeisio amdani.

## Ceisiadau hwyr

Bydd Pwyllgor Derbyniadau'r Llywodraethwyr yn defnyddio'r meini prawf uchod wrth fynd ati i ystyried ceisiadau hwyr. Os yw pob lle yn llawn, cynigir cyfle i rieni rhoi enw eu plentyn ar y rhestr aros. Nid yw hyn yn atal rhieni rhag defnyddio'u hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle.

## Ceisiadau a Dderbynnir y Tu Allan i'r Gylch Derbyn Arferol

Rhaid i ffurflen gais i ysgol gael ei chwblhau – caiff hyn ei hystyried gan Bwyllgor Derbyn y Llywodraethwyr a chaiff rhieni eu hysbysu o'r penderfyniad i gynnig neu wrthod lle o fewn 15 o ddiwrnodau ysgol neu 28 diwrnod calendr (p'un bynnag yw'r cyntaf).

# Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru Ponthir

## Pennu Derbyniadau

Corff Llywodraethu'r Eglwys yng Nghymru Ponthir yw'r awdurdod derbyn.

Rhaid cwblhau ffurflen gais a ddarperir gan yr ysgol wrth fynd ati i wneud cais am le. Y llywodraethwyr fydd yn pennu'r ceisiadau ar amser dynodedig y cytunwyd arno gyda Chyngor Sir Torfaen.

Fe'ch cynghorir bod pob ymgeisydd yn llenwi ac yn dychwelyd ei ffurflen gais Awdurdod Lleol yn manylu ar ddewisiadau amgen rhag ofn y byddwch yn aflwyddiannus yn eich cais i fynychu Ysgol Eglwys Ponthir yng Nghymru.

## Meini Prawf Gordanysgrifio a threfn blaenoriaethh

Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu hyd at nifer derbyn yr ysgol, sef 16. Rhaid derbyn plant sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig/Chynllun Datblygu Unigol sy'n enwi Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Ponthir fel yr ysgol fwyaf addas.

Rhaid derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a arferai Dderbyn Gofal hefyd h.y. plant sydd yng ngofal yr awdurdod lleol neu sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol.  Os bydd nifer y ceisiadau eraill yn fwy na nifer y llefydd sydd ar ôl, fe fydd y meini prawf 'torri dadl' canlynol, sydd wedi eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth, yn berthnasol.

Ymhob un o'r categorïau a ganlyn, rhoddir y flaenoriaeth i blant sydd yn byw agosaf i'r ysgol, a hynny yn ôl pellter cerdded diogel. Os na ellir penderfynu ar lwybr cerdded diogel ar gyfer ymgeisydd, defnyddir y llwybr gyrru byrraf.

At ddiben y polisi hwn, ystyr 'pellter cerdded diogel' yw'r llwybr sy'n defnyddio palmentydd a llwybrau troed, a hynny wedi ei fesur o ddrws blaen cartref y plentyn i brif fynedfa (gât) yr ysgol.

1 Plant sy'n byw yn nalgylch dynodedig yr ysgol sef Ponthir a Llanfrechfa, fel y'u diffinnir yn ôl ffiniau ardal gweinyddol llywodraeth leol. Mae map yn dangos ffiniau dalgylch yr ysgol i'w weld yn yr ysgol. Bydd yr ysgol hefyd yn cysylltu â'r ALl i fesur y pellter i'r ysgol dan ddefnyddio system yr ALl, sef "map info".

2 Y plant hynny, y bydd eu brodyr a neu chwiorydd dal i fod yn mynychu'r ysgol pan fydd ef neu hi yn ymuno. At diben y polisi hwn, mae brawd neu chwaer hefyd yn cyfeirio at hanner brawd neu chwaer, llysfrawd neu chwaer neu blentyn sydd yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol (hy 'plentyn maeth') sy'n byw yn yr un aelwyd. Sylwer na fydd derbyn plentyn i ysgol yn sicrhau y bydd lle ar gael i blant eraill yn y teulu, yn y dyfodol

3 Plant y mae eu rhieni yn addoli'n rheolaidd yn Eglwys yr Holl Seintiau, Llanfrechfa.

4 Plant y mae eu rhieni'n addoli'n rheolaidd mewn Eglwys Anglicanaidd arall.

5 Plant y mae eu rhieni yn addoli'n rheolaidd mewn Eglwys unrhyw enwad arall. At ddiben y polisi hwn, ystyr 'rhiant' yw rhiant naturiol neu riant mabwysiadol, llys riant neu riant 'maeth'. Ystyr 'addoli cyson/rheolaidd' yw mynychu gwasanaeth o leiaf unwaith y mis dros y 12 mis blaenorol. Rhaid cael tystiolaeth o hyn ar ffurf datganiad ysgrifenedig wedi ei lofnodi gan yr offeiriad neu weinidog perthnasol. Yn achos plant o enedigaethau lluosol (ee efeilliaid/tripledi) bydd yr ysgol yn derbyn y brawd/brodyr, chwaer/ chwiorydd eraill.

# Hysbysu Ymgeiswyr

Bydd canlyniadau'r holl geisiadau yn cael eu cyhoeddi'n ysgrifenedig ar y dyddiad cynnig perthnasol.

# Apeliadau Derbyn

Fe all Rhieni/Gwarcheidwaid y plant nas dderbyniodd lle, apelio o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad y gwrthodwyd eu cais am le mewn ysgol. Dylid gwneud hynny i Glerc y Panel Apêl Annibynnol, d/o Yr Ysgol. Mae apeliadau yn ystod y broses derbyn fesul amserlen yn cael eu clywed cyn pen 30 diwrnod o'r dyddiad cau penodol i dderbyn apeliadau, a'r apeliadau a ddaw i law y tu allan i'r broses honno, cyn pen 30 diwrnod ysgol o dderbyn yr apêl.

# Rhestr aros

Pan fydd mwy o geisiadau na lleoedd, unwaith y bydd lleoedd wedi'u dyrannu yn ystod y rownd dderbyn arferol, bydd enwau'n cael eu rhoi ar restr aros a fydd yn parhau ar agor tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y maent yn ymgeisio. Os daw lleoedd ar gael cyn hynny, rhaid eu dyrannu i'r rhai ar y rhestr aros ar y sail a nodir uchod.

Bydd angen i rieni lenwi Ffurflen Gais ychwanegol, ar ôl 30 Medi, os ydynt am i'w plentyn barhau ar y rhestr aros o'r 1af o Hydref.

# Ceisiadau Hwyr

Bydd ceisiadau hwyr a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau priodol ond cyn y dyddiad cynnig priodol yn cael eu hystyried a bydd rhieni'n cael eu hysbysu yn y mis yn dilyn diwrnod y cynnig.

Yna bydd ceisiadau hwyr pellach yn cael eu coladu bob mis yn seiliedig ar y mis y cânt eu derbyn. Dyrennir lleoedd yn unol â'r meini prawf a rhoddir gwybod i rieni am ganlyniad eu ceisiadau o fewn y mis ar ôl eu derbyn. Bydd y trefniadau ar gyfer ceisiadau hwyr yn parhau hyd at yr wythnos olaf ym mis Awst. Ar ôl y dyddiad hwn, caiff unrhyw dderbyniadau a dderbynnir eu prosesu fel trosglwyddo ysgol yn ystod y flwyddyn.

Sylwch y gallai ceisiadau y penderfynir eu bod yn hwyr gynyddu'r posibilrwydd o beidio â chael lle. Mae hyn oherwydd y bydd pob cais a gyflwynir gyda'r dystiolaeth angenrheidiol cyn y dyddiad cau yn cael blaenoriaeth dros y rhai a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau.

Os yw'r holl leoedd wedi'u llenwi, cynigir cyfle i rieni-ofalwyr roi enw eu plentyn ar y rhestr aros. Nid yw hyn yn atal rhieni-ofalwyr rhag arfer eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle.

# Derbyn ar bob adeg arall

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn datgan na ddylai unrhyw ddosbarth yn y Cyfnod Sylfaen gynnwys dros 30 o blant. Dymuniad Llywodraeth Cymru a Chorff Llywodraethu'r Ysgol yw nad yw meintiau dosbarthiadau yng Nghyfnod Allweddol 2 yn cynnwys dros 30 o blant.

Os daw cais i law am le mewn dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen a'r dosbarth hwnnw yn llawn fe fydd Panel Derbyniadau'' r Ysgol yn cwrdd i ystyried y cais. Hysbysir y rhieni ynghylch y cyfyngiadau statudol sydd yn berthnasol ar gyfer y cyfnod hwn. Os yw'r rhieni yn dymuno, roddir enw eu plentyn ar restr aros. Mae gan rieni'r hawl hefyd i apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â chynnig lle i'w plentyn.

Os daw cais i law am le mewn dosbarth yng Nghyfnod Allweddol 2 a'r dosbarth hwnnw yn llawn fe fydd Panel Derbyniadau'r Ysgol yn cwrdd i ystyried y cais, gan gyfeirio at y Polisi Derbyn. Rhoddir gwybod i rieni, yn ysgrifenedig ynghylch penderfyniad y panel. Os bydd y penderfyniad yn mynd yn erbyn y rhieni, gellir rhoi enw'r plentyn ar restr aros. Mae gan rieni hefyd hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle i'w plentyn.

Os daw lleoedd ar gael a bod plant ar y rhestr aros, bydd cynigir lle/oedd ar sail y meini prawf gordanysgrifio.

# Ysgol Feithrin ac Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant

Cafodd Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant ei sefydlu gan yr Eglwys Gatholig ac mae'n rhan ohoni. Mae'n ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yn Archesgobaeth Caerdydd ac fe'i cynhelir gan ALl Torfaen. Mae'n gwasanaethu cymuned. Gatholig Ein Harglwyddes a Dewi Sant Cwmbrân. Corff Llywodraethu Dewi Sant yw Awdurdod Derbyn yr ysgol hon. Y Rhif Derbyn yw 30 yn y dosbarth/grŵp Derbyn ym mis Medi 2026.

Bydd y corff llywodraethu yn cyfarfod yn Nhymor y Gwanwyn i ystyried pob cais. Gwnewch yn siŵr bod pob cais am le yn cael eu cyflwyno erbyn 15 Ionawr 2026 . Cadarnheir y lleoedd a gynigir erbyn 16 Ebrill 2026.

## Disgyblion sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig/ Cynllun Datblygu Unigol

Bydd plant â datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol/Chynllun Datblygu Unigol sy'n enwi'r ysgol yn cael eu derbyn cyn ymgeiswyr eraill.

## Meini Prawf Gordanysgrifio a Threfn Blaenoriaeth

Pan fydd bydd nifer yr ymgeiswyr yn uwch na'r nifer derbyn, sef 30 o leoedd, cynigir lle i ymgeiswyr yn y categorïau a nodir isod, yn ôl y flaenoriaeth ganlynol:

1. Plant sydd wedi'u bedyddio yn Eglwys Gatholig ym mhlwyf Ein Harglwyddes a Dewi Sant, Cwmbrân. (angen prawf o'r bedydd)
2. Plant eraill sydd wedi eu bedyddio yn y ffydd Catholig. (angen prawf o'r bedydd)
3. Plant Catholig nad ydynt wedi eu bedyddio eto (angen ffurflen prawf o fwriad wedi ei llofnodi gan y Plwyf/Offeiriad/Clerc)
4. Plant o enwadau Cristnogol eraill y mae eu rhieni wedi mynegi dymuni-ad am addysg Gatholig (rhowch lythyr o gefnogaeth os gwelwch yn dda gan eu Gweinidog neu Arweinydd Ffydd ble nad oes tystiolaeth o dystysgrif bedydd. Dylai'r llythyr ddangos cyfranogiad yn y ffydd y mae'r gweinidog/arweinydd ffydd yn rhoi cyngor yn ei chylch)
5. Plant o draddodiadau ffydd eraill y mae eu rhieni wedi mynegi dymuniad penodol am addysg Gatholig (rhowch lythyr o gefnogaeth os gwelwch yn dda gan eu Gweinidog neu Arweinydd Ffydd ble nad oes tystiolaeth o dystysgrif bedydd. Dylai'r llythyr ddangos cyfranogiad yn y ffydd y mae'r gweinidog/arweinydd ffydd yn rhoi cyngor yn ei chylch).

6 Gall plant y mae cais yn cael ei wneud ar eu cyfer mewn amgylchiadau gael eu derbyn gyda disgresiwn y Llywodraethwyr. Rhaid i bob cais ddod â llythyr gan berson proffesiynol priodol. Rhowch fanylion llawn os gwelwch yn dda ynglŷn â cheisiadau. Bydd y Llywodraethwyr yn trin pob gwybodaeth yn gyfrinachol. Mae amgylchiadau'n cynnwys rhesymau meddygol a chymdeithasol. (Mae angen tystiolaeth gefnogol broffesiynol gan e.e. meddyg, seicolegydd, gweithiwr cymdeithasol. Rhaid i dystiolaeth gyflwyno'r rhesymau arbennig pam mai'r ysgol o dan sylw yw'r ysgol fwyaf addas a'r anawsterau a fyddai'n cael eu hachosi pe bai rhaid i'r ysgol fynychu ysgol arall)

7 Unrhyw blant eraill

Ym mhob categori uchod:

Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a Arferai Dderbyn Gofal fydd yn cael y flaenoriaeth uchaf.

**Rhoddir y flaenoriaeth nesaf i frodyr a chwiorydd.**

Brodyr a chwiorydd yw: Brodyr a chwiorydd, boed hanner, llawn, llys neu a fabwysiadwyd yn cael eu hystyried yn berthnasol pan yn byw yn yr un cartref a ble bydd plentyn hŷn dal i fod wedi'i gofrestru yn yr ysgol pan fyddai'r un iau yn gymwys i fynychu.

**Efeilliaid / Genedigaethau Lluosog**

Pan fydd teulu o efeilliaid neu dripledi yn gwneud cais am le ac os cynigiwyd y lle olaf i un brawd neu chwaer, bydd y rheol "disgybl disgwyliedig" yn dod i rym a chynigir lle i'r efaill/tripledi arall/eraill.

Bydd brodyr a chwiorydd Catholig yn cael eu hystyried yn gyntaf ac yna brodyr a chwiorydd nad ydynt yn Gatholig.

# Torri'r Ddadl

Ar ôl ystyried y categorïau uchod, bydd y flaenoriaeth a roddir yn seiliedig ar y pellter o'r ysgol a hynny drwy fesur y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael o ddrws ffrynt yr ysgol i ddrws ffrynt y disgybl. Mesurir y pellter yn ôl System Mapio Gwybodaeth Ddigidol Awdurdod Lleol Torfaen. Bydd angen tystiolaeth o'r cyfeiriad.

# Meithrin

Atgoffir rhieni nad yw cynnig lle mewn dosbarth meithrin yn sicrhau y bydd y plentyn yn derbyn lle yn awtomatig yn y dosbarth Derbyn a bydd angen i rieni ailymgeisio am le yn mewn dosbarth Derbyn.

Nid oes gan ymgeiswyr aflwyddiannus y gwrthodir lle iddynt mewn dosbarth Meithrin, yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

## Rhestr Aros

Pan fydd gennym fwy o geisiadau na lleoedd, bydd plant sydd wedi bod yn aflwyddiannus o ran cael lle yn yr ysgol yn cael eu cynnwys ar restr aros. Bydd yr enwau ar restr aros hyn yn ymddangos yn ôl y meini prawf gordanysgrifio. Nid yw dyddiad y cais yn faen prawf ar gyfer trefn yr enwau ar y rhestr aros. Os bydd ceisiadau hwyr yn cyrraedd yr ysgol byddant yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf gordanysgrifio a'u cynnwys yn unol â hynny. Felly mae'n bosibl y bydd plentyn sy'n symud i mewn i'r ardal yn ddiweddarach yn cael blaenoriaeth uwch nag un sydd wedi bod ar y rhestr aros am beth amser. Os bydd lle ar gael o fewn y nifer derbyn, cynigir lle i'r plentyn y mae ei enw ar frig y rhestr. Nid yw hyn yn ddibynnol ar y ffaith bod apêl wedi ei gyflwyno.

Bydd y rhestr aros yn gweithredu tan ddiwedd y flwyddyn ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo.

## Apeliadau

Os nad yw eich cais yn llwyddiannus, mae gennych yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Dylai rhieni sy'n dymuno mynegi'r hawl i apelio gysylltu â'r ysgol i ofyn am ffurflen apelio a nodiadau cyfarwyddyd ar y weithdrefn apelio. Dylid dychwelyd y ffurflen apêl o fewn 14 diwrnod o dderbyn hysbysiad bod eich cais wedi bod yn aflwyddiannus - dylai'r ffurflen apêl gael ei dychwelyd at Glerc y Corff Llywodraethu, dan ofal Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant. Bydd Panel Apeliadau Annibynnol yn cael ei alw cyn gynted ag sy'n ymarferol i benderfynu ar yr apêl - byddwch yn cael o leiaf 14 diwrnod o rybudd ynghylch Gwrandawiad yr Apêl.

## Ceisiadau Sy'n Dod i Law y Tu Allan i'r Rownd Derbyn Arferol

Rhaid llenwi ffurflen gais am ysgol - bydd hyn yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Derbyniadau'r Llywodraethwyr a bydd rhieni yn cael gwybod am y penderfyniad i gynnig neu wrthod lle o fewn 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr (pa un bynnag sydd gyntaf).

# Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant

Ein nod yw creu diwylliannau a chymunedau cynhwysol yn ein hysgolion i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd addysgol i holl ddisgyblion Torfaen. Rydym am i bob plentyn, rhiant / gofalwr a staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal. Chwalu rhwystrau i ddysgu plant er mwyn annog eu cyfranogiad llawn ym mywyd yr ysgol trwy gynnig addysg i bob plentyn, sydd wedi'i gynllunio i'w galluogi i gael eu cynnwys, a chymryd rhan yn llawn, yn y gymdeithas y maent yn cyfrannu ati ac y maent yn elwa ohoni.

Bydd anghenion mwyafrif y disgyblion yn cael eu nodi, eu diwallu a'u monitro mewn lleoliad blynyddoedd cynnar prif ffrwd, ysgolion neu golegau. Mae pob plentyn a pherson ifanc yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd ac ar gyfraddau gwahanol. Ymhob dosbarth ym mhob ysgol bydd rhai disgyblion sy'n symud ymlaen yn arafach na phlant eraill. Bydd y disgyblion hyn yn elwa o addysgu a dysgu o ansawdd da a gwahaniaethol a chael cymorth cyffredinol o'u darpariaeth addysg.

# Beth ddylwn ei wneud os ydw i'n gofidio am fy mhlentyn?

Fel rhiant, y chi bydd yn adnabod eich plentyn orau. Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg neu ymddygiad eich plentyn dylech drafod pethau yn gyntaf gydag athro dosbarth eich plentyn, Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, Pennaeth neu ddarparwr y blynyddoedd cynnar. Mae'n bwysig iawn eich bod chi'n trafod eich pryderon gyda'r ysgol. Bydd cryn dipyn o blant yn cael trafferth â'u haddysg a'u hymddygiad ar ryw adeg yn ystod eu bywyd ysgol.

Mae ALl Torfaen yn credu mai'r ffordd orau i helpu'ch plentyn yw i bawb weithio gyda'i gilydd gan ddefnyddio dull sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Mae'r dull hwn yn rhoi'r disgybl wrth wraidd y cynllunio ac yn sicrhau bod yr holl asiantaethau perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio ar gyfer y person ifanc. Cred yr ALl y dylai plant a phobl ifanc deimlo'n hyderus y bydd pobl yn gwrando ar eu barn ac yn eu gwerthfawrogi. Lle bo modd, anogir plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn yr holl brosesau gwneud penderfyniadau sy'n digwydd mewn addysg.

# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

O fis Medi 2021 bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn disodli'r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) cyfredol, a hynny'n raddol dros 3 blynedd. Bydd y ddwy system yn cydredeg, gyda grwpiau o bobl ifanc yn trosglwyddo i'r system newydd fesul cam.

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer un Cynllun Datblygu Unigol statudol cyffredinol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc 0-25 oed yr aseswyd bod ganddynt ADY gan eu hysgol/coleg neu gan yr Awdurdod Lleol lle mae gan ddisgyblion anghenion difrifol a chymhleth neu maen nhw mewn grwpiau o ddisgyblion y mae'r ALl yn gyfrifol amdanynt e.e. Plant Mewn Gofal. Mae mwy o wybodaeth am y newidiadau i'w gweld isod https://llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol

# Cefnogaeth mewn Ysgolion

Mae mwyafrif y plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar / ysgolion / colegau prif ffrwd trwy ddarpariaeth a gwasanaethau cyffredinol. Mae gan bob ysgol fap darpariaeth sy'n nodi eu hymateb graddedig i ddiwallu anghenion disgyblion gyda'r gefnogaeth a'r ymyriadau y maent wedi'u datblygu fel dull ysgol gyfan i ddiwallu anghenion y myfyrwyr ar eu cofrestrau. Mae gan bob ysgol brif ffrwd a gynhelir yn Nhorfaen gyllideb ADY wedi'i dyrannu i gynllunio cefnogaeth a darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n mynychu eu hysgol.

Bydd rhai ysgolion yn nodi bod gan rai disgyblion Angen Dysgu Ychwanegol ac efallai y bydd angen cynllunio mwy unigol ar gyfer y disgybl gydag ymyriadau wedi'u targedu a darpariaeth ddysgu ychwanegol a ddarperir gan eu hysgol trwy Gynllun Datblygu Unigol neu Gynllun Addysg Unigol.

Os yw hyn yn wir, bydd yr ysgol yn siarad â chi am y cynllun a byddwch yn cael eich gwahodd i gyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â chefnogi'ch plentyn, i lunio cynllun. Efallai y bydd ysgol eich plentyn hefyd yn siarad â chi am gael hyd i gymorth gan un o'n gwasanaethau canolog fel Seicoleg Addysg neu Allgymorth a all ddarparu cyngor ac arweiniad i gefnogi cynllunio ar gyfer disgybl yn eu hysgol.

Mae Gwasanaethau ADY a Chynhwysiant yr Awdurdod Lleol yn gweithio ar y cyd â'r person ifanc / rhieni / gofalwyr / ysgolion ac asiantaethau eraill gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rydym yn darparu cyngor,

arweiniad a chefnogaeth i ddisgyblion sydd ag neu a allai fod ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

## Cynnwys Disgyblion a Rhieni

Mae Awdurdod Lleol Torfaen yn gweithio'n agos gyda rhieni/gofalwyr disgyblion ag ADY i sicrhau eu bod yn rhoi eu barn ar bob cam y broses ADY. Mae'r wybodaeth y gall rhieni ei rhoi i'r ALl i gefnogi'r broses o benderfynu yn rhan hanfodol o'r wybodaeth yr ydym yn ei derbyn. Mae Torfaen yn credu bod cael disgyblion i gymryd rhan yn elfen bwysig o'r broses ADY a dylai disgyblion gael eu hannog a'u cefnogi i gyfrannu eu barn ble bynnag y bo hynny'n bosibl, dylid eu hannog i fynychu a chymryd rhan yn y cyfarfod. Mae Torfaen yn arddel y Safonau Cyfranogiad Plant.

Mae gan Dorfaen gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda SNAP Cymru sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth annibynnol ac am ddim i helpu i gael yr addysg gywir i blant a phobl ifanc sydd â phob math o anghenion addysgol arbennig (AAA) ac anableddau. Maent yn rhoi cyngor a chefnogaeth ar ystod o faterion gan gynnwys asesiadau, datganiadau o anghenion addysgol arbennig, bwlio, presenoldeb ysgol, gwahardd, darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gwahaniaethu.

Gellir cysylltu â nhw ar 0808 801 0608 neu ar enquiries@snapcymru.org

## Gwasanaethau a Chefnogaeth yr Awdurdod Lleol

Mae Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant yr Awdurdod Lleol yn darparu ystod eang o wasanaethau i ysgolion. Nod y rhain yw hyrwyddo cynhwysiant a rhoi cyngor, arweiniad, a chefnogaeth i'r ysgol i'w helpu i gynllunio a diwallu anghenion disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu a allai fod ag ADY.

## Gwasanaeth Seicoleg Addysg

Mae Seicolegwyr Addysgol yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn yr amrediad oedran 0-25 oed. Mewn partneriaeth gyda'r plant a phobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr, staff y Gwasanaeth Addysg, staff yr ysgol a staff o asiantaethau eraill, mae Seicolegwyr Addysgol yn rhoi cefnogaeth ble mae yna bryder ynglŷn â datblygiad addysgol, emosiynol neu gymdeithasol person ifanc. Maen nhw'n ymgymryd ag asesiadau, yn gweithio'n uniongyrchol â'r bobol ifanc ac yn rhoi cyngor ar sut i reoli anawsterau. Maen nhw hefyd yn cynnig hyfforddiant i'r rheiny sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Bydd pob ysgol yn cael rhan o amser y gwasanaeth ar gyfer Seicoleg Addysgol.

## Swyddogion Cyswllt ADY

Mae gan bob ysgol Swyddog Cyswllt dynodedig sy'n darparu cefnogaeth, cyngor, arweiniad i'r ysgol, rhieni / gofalwyr / gofalwyr ac asiantaethau allanol ar brosesau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol). Maent yn gweithio gyda rhieni / gofalwyr a'r holl asiantaethau sy'n ymwneud â phobl ifanc i hyrwyddo cynhwysiant a sicrhau bod anghenion unigol disgyblion yn cael eu diwallu. Gallant gynnig cyngor ac arweiniad ar systemau a phrosesau ADY, gwaharddiadau a dysgwyr sy'n fregus.

## Gwasanaeth Anawsterau Dysgu Penodol

Mae gan Dorfaen athrawon arbenigol sydd â gwybodaeth a phrofiad o weithio gyda phlant sydd ag anghenion dysgu penodol. Maen nhw'n darparu cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant ar gyfer staff mewn ysgolion ac yn gweithio gydag ysgolion i ddarparu gwersi i blant sydd ag anawsterau dysgu penodol yn unigol neu mewn grwpiau bach.

## Gwasanaeth Cefnogaeth Awtistiaeth

Mae'r Gwasanaeth Cefnogaeth Awtistiaeth yn ceisio cefnogi plant a theuluoedd trwy edrych i mewn i'w sefyllfa bresennol gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar y person. Gall y gwasanaeth fod yn bont rhwng y teulu a'r ysgol gan sicrhau fod rhieni yn bartneriaid yn addysg eu plant. Rhoddir cefnogaeth ar ôl y diagnosis a thrwy drosglwyddiadau mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar ac ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae hyfforddiant ar gael i rieni /gofalwyr ar ôl y diagnosis ac i bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n cael diagnosis o anhwylder y sbectrwm awtistiaeth neu sy'n mynd trwy asesiad. Mae galwadau galw heibio are gael i rieni sy'n ystyried gofyn am asesiad niwroddatblygol ar gyfer awtistiaeth, neu sydd â'u plant yn mynd trwy'r asesiad.

## Gwasanaethau Cwnsela Ysgolion

Mae gan Dorfaen gytundeb lefel gwasanaeth i ddarparu gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion i blant a phobl ifanc.

## Y Gwasanaeth Cynradd

Gall Pobl Ifanc 7-11 oed gael eu hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Cynradd, ac mae angen caniatâd rhieni cyn i sesiynau cwnsela ddechrau. Gellir trefnu atgyfeiriadau trwy'r ysgol neu drwy gysylltu â'r gwasanaeth a hynny drwy yrru e-bost at Rheolwr y Gwasanaeth, ceri.jones@ccyp.org.uk neu'r cydlynydd cynradd oliver.wilford@ccyp.org.uk

## Y Gwasanaeth Uwchradd

I bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd, mae'r Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion ar gael dau ddiwrnod yr wythnos ym mhob ysgol. Gall pobl ifanc gyfeirio'u hunain, cael eu cyfeirio gan aelod o'r staff, rieni neu unrhyw oedolyn sy'n pryderu amdanyn nhw.

Rhaid i unrhyw un sy'n atgyfeirio at y gwasanaeth uwchradd sicrhau fod ganddyn nhw ganiatâd y person ifanc. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cynnig Gwasanaeth allan o'r Ysgol i ddisgyblion 11-18 oed ar ddydd Mawrth rhwng 4pm-6pm naill ai yng Nghanolfan Pobl Ifanc Cwmbrân neu yn Llyfrgell Pont-y-pŵl.

Am unrhyw wybodaeth am y gwasanaeth, neu i wneud atgyfeiriad at y gwasanaeth uwchradd neu allan o'r ysgol, cysylltwch â ni trwy ffonio'n gwasanaeth ateb cyfrinachol ar 01633 453035.

## Y Gwasanaeth Allgymorth

Mae gwasanaeth Allgymorth Torfaen yn cynnig cefnogaeth i bobl ifanc yn eu hysgolion a chefnogaeth i staff sy'n gweithio gyda disgyblion. Maen nhw'n gweithio mewn ffordd sydd â'r person yn ganolog ac yn cynnig dull cydlynol gyda'r awdurdod lleol, ysgolion, teulu ac asiantaethau eraill. Gall ysgolion wneud atgyfeiriadau ar gyfer cefnogaeth i'r cyfarfod wythnosol. Maen nhw'n rhoi cefnogaeth ar gyfer rheoli pryder, sgiliau cymdeithasol, rheoli ymddygiad, asesiadau, rhaglenni dysgu ac addysgu ac amrywiaeth o ymyraethau eraill i gefnogi ysgolion i ddatblygu cynllunio a chefnogaeth i ddisgyblion.

# Y Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd a Chyfathrebu (Sen-Com)

Mae'r timau yn SenCom yn darparu ystod eang o gyngor a strategaethau ymyrraeth yn cynnwys addysgu.  Rydym yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae ein lefelau ymyrraeth yn cyfateb i anghenion newidiol plant a phobl ifanc unigol.

Rydym yn cael ein cynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac rydym yn gweithio'n rhanbarthol ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen gyda phlant a phobl ifanc, teuluoedd, ysgolion, colegau, a lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Ein cenhadaeth yw bod yn bartner gyda theuluoedd ac ysgolion gan lwyddo i gynnwys plant a phobl ifanc ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol a sicrhau nad ydynt yn dod ar draws rhwystrau i symud ymlaen yn eu taith ddysgu.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys tri tîm dan arweinyddiaeth Pennaeth Gwasanaeth.

## ComIT (Tîm Ymyrraeth Cymunedol)

Mae ComIT yn wasanaeth sy'n gweithio gydag ysgolion ar draws pum awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru er mwyn galluogi ysgolion i adnabod plant a phobl ifanc ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu a'u cefnogi.

Mae sgiliau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu wrth wraidd pob agwedd ar ddysgu a datblygu, ac mae ymchwil yn dangos bod adnabod anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu'n gynnar, ac ymyrryd yn gynnar, yn gallu gwella canlyniadau academaidd a bywyd plant a phobl ifanc yn sylweddol.

Mae ComIT yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth Therapi Lleferydd ac Iaith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac mae'r tîm yn cynnwys Pennaeth y Gwasanaeth, Athrawon Ymgynghorol, Therapyddion Lleferydd ac Iaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chynorthwywyr Addysgu Arbenigol.

Mae ComIT yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau gan gynnwys gwybodaeth, codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant, yn ogystal â chymorth uniongyrchol i ddisgyblion, trwy ymateb graddedig.  Mae Cynorthwywyr Addysgu Arbenigol yn gweithio gyda disgyblion unigol a grwpiau bach mewn ysgolion ac yn cefnogi staff mewn ysgolion

i ddarparu sesiynau dilynol gan ddefnyddio strategaethau ac adnoddau dysgu a argymhellir.

## Sut mae mynd ati i ofyn am gefnogaeth?

Mae gan bob Awdurdod Lleol Arweinydd Proffesiynol ComIT penodol sy'n ymgynghori â Phennaeth Gwasanaeth ComIT er mwyn adnabod ysgolion i gael ymyrraeth, hyfforddiant a chefnogaeth gan ComIT. Derbynnir ceisiadau am gymorth i ddisgyblion yn uniongyrchol gan ysgolion.

Os oes gennych bryderon am leferydd, iaith a chyfathrebu eich plentyn, cysylltwch â'r ysgol a siaradwch â'r athro dosbarth neu'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gall staff yr ysgol ofyn i'w Harweinydd Proffesiynol ComIT am gyngor ac anfon Cais am Gyngor yn syth i ComIT.

## Gwasanaeth Cymorth i Blant a Phobl Ifanc b/Byddar

Mae'r Gwasanaeth Cymorth i Blant a Phobl Ifanc b/Byddar yn cynorthwyo pob plentyn ac unigolyn ifanc sydd â lefel o fyddardod wedi'i nodi, i gyflawni hyd eithaf eu potensial ac i gaffael ar y sgiliau bywyd angenrheidiol. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi cynhwysiant llwyddiannus mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion. Mae'r tîm yn cynnwys Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar cymwys a Chynorthwywyr Addysgu Arbenigol.

Mae'r Gwasanaeth Cymorth i Blant a Phobl Ifanc b/Byddar yn defnyddio Fframwaith Cymhwystra'r Bartneriaeth Namau Synhwyraidd Genedlaethol, sef offeryn ar gyfer Gwasanaethau Synhwyraidd sy'n ceisio arwain penderfyniadau wrth ddyrannu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc unigol. Mae cefnogaeth y gwasanaeth yn ddeinamig ac yn annog cysylltiadau agos â'r cartref, yr ysgol ac asiantaethau eraill. Ein nod yw meithrin gallu mewn ysgolion wrth ddiwallu anghenion disgyblion a darparu cefnogaeth â ffocws mewn ymateb i anghenion newidiol plant a phobl ifanc.

## Sut mae mynd ati i atgyfeirio?

Mae mwyafrif helaeth y plant yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth gan Iechyd, ond rydym hefyd yn gallu rhoi cyngor a chyfeirio rhieni neu weithwyr proffesiynol sydd ag unrhyw bryderon ynghylch clyw plentyn neu berson ifanc. Yn dilyn atgyfeiriad, caiff gwybodaeth ei rhannu gyda'r ysgol. Gellir trefnu ymweliad â'r cartref a/neu'r ysgol er mwyn asesu'r disgybl a chasglu gwybodaeth bellach.

# Y Gwasanaeth Nam ar y Golwg

Nod y Gwasanaeth Nam ar y Golwg (GNG) yw sicrhau bod dewis yn cael ei gynnig i blant, pobl ifanc a rhieni / gofalwyr. Mae arbenigedd ac adnoddau ar gael i ysgolion i alluogi mynediad cynhwysol a llawn i addysg. Addysgir sgiliau byw'n annibynnol a
symudedd gan arbenigwyr adsefydlu'r GNG. Eir ati i weithio cydweithredol i gefnogi a diwallu pob angen.

Mae'r GNG yn medru cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer anghenion unigol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda phlant a phobl ifanc sydd â nam ar eu golwg neu nam amlsynhwyraidd, rhieni, ysgolion, gwasanaethau addysg/gyrfaoedd ac asiantaethau meddygol i ddiwallu anghenion unigol a nodwyd trwy'r broses asesu.

# Sut mae mynd ati i atgyfeirio?

Rydym yn croesawu ymholiadau ac atgyfeiriadau gan unrhyw un sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc a allai fod â phryderon ynghylch y posibilrwydd o nam ar y golwg neu nam amlsynhwyraidd. Er mwyn atgyfeirio at y Gwasanaeth Nam ar yr Olwg, cysylltwch â'r gwasanaeth ac fe fydd aelod o staff yn gallu eich helpu.


**Ein Manylion Cyswllt**
Y Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd
a Chyfathrebu
Tŷ Aberhonddu
Y Ganolfan Ddinesig

Pont-y-pŵl
NP4 6YB
Rhif ffôn: 01633 648888
E-bost Sencom@torfaen.gov.uk

**Penaethiaid y Gwasanaeth**
Mary Jo Spearey and Rebecca Kelly
Pennaeth Gwasanaeth ComIT
maryjo.spearey@torfaen.gov.uk
Rebecca.Kelly3@torfaen.gov.uk

Jo Plant
Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth
i Blant a Phobl Ifanc b/Byddar
joanne.plant@torfaen.gov.uk

Sarah Hughes
Pennaeth Gwasanaeth GNG
sarah.hughes@torfaen.gov.uk

# Darpariaeth Arbenigol Torfaen

Bydd gan nifer fechan o blant anghenion ychwanegol dwys a chymhleth a bydd angen cymorth arbenigol arnynt, nad oes modd ei ddiwallu'n rhesymol mewn ysgol brif ffrwd. Mae gan Awdurdod Lleol Torfaen gontinwwm o ddarpariaeth arbenigol sy'n cynnwys Ysgol Arbennig Crownbridge a Safleoedd Adnoddau Arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd a hynny i ddisgyblion sydd wedi cael eu hasesu bod angen lleoliad addysg mwy arbenigol arnynt. Mae gan ein safleoedd adnoddau ac Ysgol Arbennig brofiad helaeth o weithio gyda disgyblion sydd ag anghenion mwy cymhleth.

Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am leoli disgyblion mewn Safleoedd Adnoddau a'r ysgol arbennig trwy'r Panel Lleoli Arbenigol ADY. Mae ysgolion yn asesu ac yn monitro disgyblion ar eu cofrestrau ADY. Pan fyddant wedi dod i'r casgliad y gallai fod angen cefnogaeth neu ymyrraeth fwy arbenigol ar ddisgybl na ellir ei ddarparu'n rhesymol gan ei ysgol brif ffrwd, maent yn cysylltu â Seicolegydd Addysg (SA) ei ysgol i drafod y disgybl. Os cytunir fel y bo'n briodol a bod rhieni / gofalwyr yn rhoi caniatâd, bydd y SA yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol i benderfynu a ddylid ystyried lleoliad arbenigol. Os cytunir, rhoddir enw'r disgybl ar y rhestr lleoliad arbenigol i'w drafod yn y cyfarfod. Ni fydd pob disgybl sy'n cael ei roi ar y rhestr neu'n cael ei drafod am leoedd arbenigol yn derbyn lleoliad a bydd rhai disgyblion yn gallu aros yn eu hysgol gyda chynlluniau unigol. Lle na ddyfernir lleoliad i ddisgybl mewn darpariaeth arbenigol bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r ysgol brif ffrwd y disgybl i roi cyngor ac arweiniad i barhau i gefnogi'r disgybl yn ei ysgol.

# Lleoliadau mewn Ysgolion y Tu Allan i'r Sir

Bydd Anghenion Dysgu Ychwanegol mwyafrif y disgyblion yn cael eu diwallu mewn ysgolion neu ddarpariaethau yn Nhorfaen. Ychydig iawn o blant fydd wedi cael eu hasesu'n rhan o'r broses asesu statudol / CDU fel rhai sydd ag anghenion difrifol a chymhleth nad oes gan Dorfaen ddarpariaeth yn y sir i ddiwallu eu hanghenion unigol. Yn yr achosion hyn, gofynnir am leoliad arbenigol y tu allan i'r awdurdod gan ddefnyddio proses gomisiynu'r Awdurdod Lleol. Byddwn yn ceisio comisiynu lleoliad dydd mewn ysgol arbennig annibynnol neu ysgol nas gynhelir, sydd o fewn pellter teithio rhesymol i gartref y disgybl. Byddwn hefyd yn gweithio ar y cyd â Gofal Cymdeithasol a / neu Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan i leoli disgyblion ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth a allai fod angen lleoliad

gofal preswyl ar y cyd â'r cynllun gofal.

Byddwn yn parhau i adolygu cynnydd y disgyblion hyn yn rheolaidd ac yn monitro eu darpariaeth i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn briodol i ddiwallu eu hanghenion addysg fel rhan o broses sicrhau ansawdd yr Awdurdod Lleol.

# Trafnidiaeth i ddisgyblion sy'n mynychu Darpariaeth Arbenigol

Mae mwyafrif y disgyblion gydag ADY yn mynychu eu hysgol prif ffrwd a gynhelir sy'n addas ac agosaf. Mae Polisi Trafnidiaeth Torfaen i ddisgyblion ag ADY yr un fath ag i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion prif ffrwd ble mae trafnidiaeth ond ar gael i ddisgyblion sy'n byw ymhellach na'r pellterau cerdded statudol o'u hysgol addas agosaf sef 2 filltir i ddisgyblion cynradd a 3 milltir i ddisgyblion. Os bydd rhiant-ofalwr wedi dewis ysgol nad yw'n ysgol a gynhelir sydd agosaf ac sy'n addas, y nhw fydd yn gyfrifol am gludo i'r ysgol.

Lle mae Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant Torfaen wedi dyfarnu lleoliad mewn darpariaeth arbenigol, hysbysir yr adran drafnidiaeth o'r lleoliad a rhoddir cludiant yn ei le lle mae'r disgybl fel arfer yn byw yn Nhorfaen ac wedi derbyn lleoliad gan banel arbenigwyr yr Awdurdod Lleol yn:

- Safle Adnoddau Anghenion Arbennig yr Awdurdod Lleol (oni bai bod y disgybl yn byw'n agosach na'r pellterau cerdded statudol o'r ysgol y mae ganddyn nhw le ynddi)
- Ysgol Arbennig Crownbridge
- Uned Cyfeirio Disgyblion neu Ganolfan Asesu Pont Fach neu Ysgol Arbennig Arbenigol sydd wedi ei henwi yn y Datganid AAA/CDU – lle mae'r Awdurdod lleol wedi comisiynu'r lleoliad

Bydd y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant yn gysylltiedig â thrafnidiaeth i ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth arbenigol a hynny'n unig. Bydd yr holl ymholiadau eraill ynghylch trafnidiaeth yn mynd drwy'r brif adran drafnidiaeth. (Gweler y brif adran ar drafnidiaeth).

# Cefnogaeth i Ddysgwyr Bregus

Mae gan Dorfaen ystod o wasanaethau ac maent yn gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill i ddarparu cefnogaeth i ddysgwyr bregus.

# Plant Sy'n Derbyn Gofal Gan Dorfaen

Mae gan yr awdurdod lleol swyddogion cyswllt dynodedig sy'n gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol / gofalwyr maeth / pobl ifanc a lleoliadau addysg i ddarparu cefnogaeth, cyngor, arweiniad i ysgolion ac asiantaethau allanol ar brosesau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol). Maent yn gweithio gyda'r holl asiantaethau sy'n ymwneud â phobl ifanc i hyrwyddo cynhwysiant a sicrhau bod anghenion unigol disgyblion yn cael eu diwallu. Gallant gynnig cyngor ac arweiniad ar systemau a phrosesau ADY, Gwaharddiadau a chynlluniau lleoli.

# Gwasanaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Mae Gwasanaeth Addysg Sipsiwn, Roma a Theithwyr Torfaen yn wasanaeth allgymorth sy'n darparu cefnogaeth ychwanegol yn seiliedig ar dasgau ac wedi ei leoli mewn ysgolion i ddisgyblion o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r tîm yn gweithio ar sail allgymorth i gefnogi disgyblion ar sail angen yn unol ag ymateb graddedig a matrics cefnogaeth ADY Torfaen. Bydd angen cefnogaeth allgymorth ar nifer o bobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar adegau allweddol yn eu haddysg. Mae darpariaeth allgymorth yn hanfodol i adeiladu perthnasau ar sail ymddiriedaeth gyda'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr gan gyfeirio a chydweithio gyda gwasanaethau a darparwyr eraill i sicrhau fod dysgwyr yn cael eu cynnwys yn llawn yn eu hysgolion.

# Disgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol

Mae gan Dorfaen gytundeb lefel gwasanaeth gyda Gwasanaeth Addysg Ethnig Lleiafrifol Gwent (GEMS). Mae GEMS yn cefnogi disgyblion yn Nhorfaen nad Saesneg neu Gymraeg yw eu hiaith gyntaf. Maent yn gweithio gydag ysgolion i godi cyflawniad a chyrhaeddiad dysgwyr du a lleiafrifoedd ethnig (BME) (4-19 oed). Gall GEMS gynghori staff addysgu ar strategaethau, adnoddau, asesu ac arfer da cyffredinol i ddysgwyr.

Maent yn gweithio'n agos gydag ysgolion a rhieni / gofalwyr i helpu disgyblion i wella eu sgiliau iaith Saesneg.

Mae GEMS yn darparu:

- cyngor, cefnogaeth ac arweiniad ar gydraddoldeb hiliol i ysgolion a chyrff llywodraethu

- asesiadau dwyieithog i ganfod y cymorth ieithyddol sydd ei angen
- ymweliadau â'r cartref i sicrhau bod cyfathrebu da rhwng rhieni / gofalwyr a'r ysgol. Mae gwybodaeth hanfodol o'r ysgol yn cael ei throsglwyddo i rieni / gofalwyr yn iaith eu cartref a chaiff eu pryderon a'u cwestiynau eu trosglwyddo yn ôl i'r ysgol

# Plant o Deuluoedd y Lluoedd Arfog

Mae Torfaen yn gweithio gydag SSCE Cymru a'n Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog i sicrhau ein bod yn dilyn Cyfamod y Lluoedd Arfog gan weithio gyda'n gilydd i ddarparu cefnogaeth i blant y Lluoedd Arfog sy'n mynychu ysgolion yn Nhorfaen.

# Gwaharddiadau

Y defnydd o wahardd.

Dylid cymryd y penderfyniad i wahardd plentyn am gyfnod penodol neu barhaol yn unig:

- Mewn ymateb i enghraifft ddifrifol o dorri polisi ymddygiad yr ysgol
- Os byddai caniatáu i'r disgybl aros yn yr ysgol yn achosi niwed difrifol i addysg neu les y disgybl neu eraill yn yr ysgol

# Y Penderfyniad i wahardd

Dim ond y Pennaeth neu rywun penodedig fel y Pennaeth dros dro sydd â'r grym i wahardd disgybl o'r ysgol. Ni ddylid gwneud penderfyniad byrbwyll i wahardd, oni bai bod risg uniongyrchol i ddiogelwch eraill yn yr ysgol neu'r disgybl dan sylw.

# Cyfnod y gwaharddiad

Mae Rheoliadau o dan Ddeddf Addysg 2002 yn caniatáu i Benaethiaid wahardd disgybl am un neu fwy o gyfnodau heb fod yn fwy na 45 diwrnod ysgol mewn unrhyw flwyddyn ysgol. Fodd bynnag, dylai cyfnodau gwaharddiad unigol fod am y cyfnod byrraf posibl i sicrhau manteision y gwaharddiad heb greu canlyniadau addysgol andwyol. Ym mhob achos o fwy na diwrnod o waharddiad, rhaid i Benaethiaid drefnu fod gwaith yn cael ei ddarparu a'i farcio. Dylai rhieni/gofalwyr drefnu i gasglu a dychwelyd y gwaith a rhaid i'r ysgol sicrhau bod rhagor o waith ar gael nes bydd y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol.

# Gwaharddiadau amser cinio

Gall ymddygiad rhai plant fod yn arbennig o anodd yn ystod cyfnod amser cinio. Mewn sefyllfa o'r fath, gall fod yn bosibl trwy drafod a chytuno gyda'r rhiant i drefnu i'r disgybl fynd adref am ginio. Os nad yw hyn yn ymarferol, mae darpariaeth yn bodoli i wahardd y disgybl am gyfnod yr amser cinio, gan osod y cyfrifoldeb cyfreithiol dros blentyn ar y rhiant/gofalwr. Dylid defnyddio gwaharddiad amser cinio fel mesur tymor byr yn unig. Os yw plentyn yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, dylid gwneud trefniadau i ddarparu'r pryd a gall hyn olygu cinio pecyn.

# Gwaharddiad parhaol

Mae gwaharddiad parhaol yn gam difrifol iawn. Mae'n gydnabyddiaeth gan yr ysgol ei bod wedi dihysbyddu pob strategaeth gyfer delio gyda'r plentyn ac nad yw'n gallu derbyn y plentyn yn ei chymuned mwyach.

# Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Ac eithrio yn yr amgylchiadau mwyaf neilltuol, dylai ysgolion osgoi gwahardd disgyblion â datganiad o ADY/Chynllun Datblygu Unigol, yn barhaol.. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y Pennaeth yn ymwybodol bod yr ysgol, pa un ai'n brif ffrwd neu'n arbennig, yn cael anhawster yn rheoli ymddygiad plentyn, ymhell cyn i'r sefyllfa gyrraedd y pwynt ble mae angen ystyried gwahardd. Dylai ysgolion geisio pob dull ymarferol i gynnal lleoliadau, gan gynnwys cysylltu â'r Awdurdod Lleol, ac os oes angen, trefnu adolygiad statudol o'r datganiad.

# Hysbysu'r 'person perthnasol' ynglŷn â'r gwaharddiad

O dan y rheoliadau a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2004, mae'r 'person perthnasol' yn golygu:

- Y rhiant, os oedd y disgybl yn ddeg oed neu iau ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn ysgol y cafodd hi/ef ei g/wahardd
- Y rhiant a'r disgybl os yw'r disgybl o oed ysgol orfodol ac yn un ar ddeg oed neu'n hŷn ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn ysgol y cafodd hi/ef ei g/ wahardd
- Y disgybl os yw dros oed ysgol orfodol (16 fel arfer)

Dylai Pennaeth sy'n gwahardd disgybl sicrhau yr hysbysir y person perthnasol ar unwaith, dros y ffôn yn ddelfrydol. Dylid anfon llythyr o fewn un diwrnod ysgol yn dilyn yr hysbysiad ffôn cyntaf. Dylai gwaharddiadau ddechrau ar y diwrnod ysgol nesaf fel arfer. Dylid goruchwylio disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd bob amser a ni ddylid eu hanfon o'r safle. Os yw'r Pennaeth yn penderfynu ymestyn cyfnod gwaharddiad penodol, neu droi cyfnod penodol yn waharddiad parhaol (sy'n eithriad), dylai ef/hi hysbysu'r person perthnasol eto. haid i'r pennaeth drefnu i ddarparu gwaith cyn gynted ag y bydd disgybl yn cael ei wahardd am gyfnod penodol.

# Y Broses apelio

Dylai llythyr gwaharddiad y Pennaeth hysbysu'r person perthnasol am y gweithdrefnau pe dymunent wneud sylwadau neu apelio'n yn erbyn y gwaharddiad i Bwyllgor Disgyblu'r Corff Llywodraethu. Wedi hynny, mae hawl i apelio i'r Panel Apeliadau Annibynnol ar gyfer gwaharddiadau parhaol ac eto, dylid hysbysu'r person perthnasol ar yr amser priodol. Ystyr y person perthnasol fel y'i diffinnir yn y rheoliadau yw:

- Y rhiant os oedd y disgybl yn 10 oed neu'n iau ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn ysgol y cafodd ei eithrio
- Y rhiant a'r disgybl os yw'r disgybl wedi cyrraedd oed ysgol orfodol a'i fod yn 11 oed neu'n hŷn ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn ysgol y cafodd ei eithrio ynddi
- Y disgybl os yw dros oed ysgol orfodol (16 fel arfer)

Felly, rhydd hyn yr hawl i bob disgybl a waharddwyd yr hawl i gael gwybod yn ffurfiol eu bod wedi cael eu gwahardd er mwyn eu galluogi i apelio.

Pan fydd plentyn yn cael ei wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu ragor, gall ei rieni/ rhieni ddatgan eu dewis o ysgol ond diddymir y rheidrwydd i gydymffurfio â'r dewis hwnnw am gyfnod o ddwy flynedd o ddyddiad yr eithriad diweddaraf.

Am fwy o wybodaeth am wasanaethau neu gefnogaeth, cysylltwch placeâ:

Y Tîm Anghenion Addysgol Arbennig
Y Ganolfan Ddinesig,
Pont-y-pŵl,
NP4 6YB
Ffôn: 01495 766968/01495 766848
E-Ebost:AdditionalLearningNeeds@torfaen.gov.uk

# Y Gwasanaeth Lles Addysg

## Beth yw gwaith Swyddogion Lles Addysg?

- Cynnig cyngor annibynnol am ddim i rieni, plant a phobl ifanc mewn cysylltiad â'r swyddogion cynhwysiant
- Gweithio gydag ysgolion Torfaen i gefnogi disgyblion a sicrhau eu bod yn derbyn addysg addas o ystyried oed, gallu, cymwysterau ac unrhyw anghenion addysgol arbennig
- Gweithio gyda'r gymuned fusnes ac eraill i gynghori ar gyflogi plant a'i rheoleiddio

## Sut mae'r Swyddogion Lles Addysg yn gweithio?

- Gall ysgolion ofyn i'r swyddog ymweld â phlentyn yn y cartref neu yn yr ysgol
- Gall plant drafod problemau gyda'u Swyddog Lles Addysg
- Gall rhieni ofyn am gymorth, cyngor neu gefnogaeth swyddog
- Mae'n bosibl y gall Swyddogion Lles Addysg fod yn gyfrifol am achosion cyfreithiol pan fydd rhieni yn methu yn eu dyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol. (Deddf Addysg 1998)

# Absenoldeb o'r ysgol (hysbysiadau cosb benodedig)

## Fframwaith Gyfreithiol

Mae'r gyfraith yn grymuso Swyddogion Dynodedig yr Awdurdod Lleol (ALl), penaethiaid, yn cynnwys y dirprwyon a enwebwyd ganddynt, a'r Heddlu i gyflawni Hysbysiadau Cosb Benodedig i rieni plant sydd yn absennol o'r ysgol heb ganiatâd, yn ardal Consortiwm De Ddwyrain Cymru.

## Cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig

- Dim ond pan fydd achosion o absenoldebau heb ganiatâd y ceir cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig;
- Bydd Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu cyfyngu i un hysbysiad fesul rhiant disgybl mewn blwyddyn academaidd;
- Os yw absenoldebau mwy nag un disgybl mewn teulu yn wael, gellir cyflwyno hysbysiadau i fwy nag un plentyn.

- Ni fydd cyfyngiadau ar nifer yr adegau y gellir rhybuddio rhiant ynghylch y posibilrwydd o dderbyn Hysbysiad Cosb Benodedig

# Ystyrir bod Hysbysiadau Cosb Benodedig yn briodol pan

- Bydd disgybl yn colli o leiaf 10 sesiwn (5 diwrnod ysgol) oherwydd absenoldeb heb ganiatâd yn ystod blwyddyn academaidd. Nid oes rhaid i'r rhain fod yn olynol;
- Absenoldebau heb ganiatâd am o leiaf 10 sesiwn (5 diwrnod ysgol) oherwydd gwyliau yn ystod y tymor neu oedi cyn dychwelyd i'r ysgol yn dilyn gwyliau; neu
- Cyrraedd yr ysgol yn hwyr, yn gyson, hy ar ôl i'r gofrestr gau, yn y tymor presennol. Mae "yn gyson" yn golygu cyrraedd o leiaf 10 sesiwn yn hwyr;
- Triwantiaeth, pan fydd yr Heddlu yn dod i gyswllt â'r heddlu neu'r cyhoedd yn.

# Ymateb i geisiadau i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig

Yn dilyn y rhybudd sy'n cael ei gyflwyno gan yr ysgol neu'r Heddlu, mae gan rieni gyfnod o 15 diwrnod ysgol i ymateb. Yn ystod y cyfnod hwn, rhaid sicrhau nad yw'r disgybl yn absennol heb ganiatâd. Gellir cynnwys y wybodaeth hon yn y rhybudd ysgrifenedig, os yw'r fath lythyr yn cael ei gyflwyno.

Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn ymateb i geisiadau gan ysgolion a'r Heddlu o fewn 10 diwrnod ysgol o ddyddiad y cais. Pan fydd yr All yn fodlon bod yr holl feini prawf wedi eu bodloni, bydd hysbysiad cosb benodedig yn cael ei gyflwyno.

# Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer gwyliau heb ganiatâd

Pan bydd Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei gyflwyno mewn ymateb i absenoldeb heb ganiatâd sy'n gysylltiedig a gwyliau, neu os yw mewn perthynas â throsedd dan adran 108, Deddf Addysg Ac Arolygiadau 2006, ni fydd y llythyr rhybudd ffurfiol a'r cyfnod o 15 diwrnod i ddangos gwelliant, yn berthnasol mwyach.

# Yr Hawl i apelio

Nid oes hawl statudol i apelio, ond pan fydd rhiant yn herio Hysbysiadau Cosb Benodedig, mae modd iddynt gwyno i'r Gwasanaeth Lles Addysg a/neu dewis wynebu achos gerbron y Llys Ynadon dan adran 444 Deddf Addysg 1998, pan fydd modd cynnal gwrandawiad llawn i glywed yr holl faterion sy'n gysylltiedig â'u Hysbysiad Cosb Benodedig.

# Talu Hysbysiadau Cosb Benodedig

Os bydd yr Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei dalu o fewn 28 niwrnod, bydd y swm sy'n daladwy yn £60, neu £120 os yw'n cael ei dalu o fewn 42 niwrnod. Ni dderbynnir tâl gan rieni ar ôl 42 niwrnod a ni ellir ei dalu mewn rhandaliadau.

# Peidio â Thalu Hysbysiadau Cosb Benodedig

Bydd peidio â thalu Hysbysiad Cosb Benodedig yn arwain at erlyniad am y cyfnod y mae'r Hysbysiad Cosb Benodedig yn ei gwmpasu dan Adran 444 Deddfa Addysg 1998.

Mae gwybodaeth bellach ar gael yn y ddogfen Cod Ymddygiad Lleol – Hysbysiadau Cosb Benodedig mewn Addysg. Cyswllt: Presenoldeb, Ymddygiad a Lles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

# Trefniadau ar gyfer darparu addysg mewn ysgolion y tu allan i Dorfaen

## Mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdod arall

Pan fo rhieni'n dymuno ymgeisio i'w plentyn fynychu ysgol mewn awdurdod derbyn arall (h.y. Casnewydd, Sir Fynwy, Blaenau Gwent neu Gaerffili), gofynnir i chi ymgeisio trwy'r awdurdod derbyn perthnasol yn unol â'u trefniadau derbyn nhw.

## Mewn ysgolion nas cynhelir gan awdurdod arall

Mae'n bosib y rhoddir cymorth ariannol i fynychu ysgolion nas cynhelir gan Awdurdod Addysg arall i blant personél sy'n gwasanaethu mewn gwledydd tramor lle nad oes cyfleusterau addysgol boddhaol ar gael.

## Trefniadau ar gyfer trosglwyddo rhwng ysgolion

Mae newid ysgolion yn gam difrifol i'ch plentyn a dylid rhoi llawer o ystyriaeth iddo.

Am wybodaeth a chyngor bydd angen i chi gysylltu â Kelly Tucker Ffôn:- 01495 766915, e-bost:-kelly.tucker@torfaen.gov.uk a fydd yn anfon ffurflen drosglwyddo a chanllawiau os yn briodol, y bydd angen ei dychwelyd i'r cyfeiriad ar y ffurflen.

(D.S.) Tra bydd y trosglwyddiad yn cael ei brosesu, rhaid i'ch plentyn fynychu ei ysgol bresennol. Bydd absenoldeb yn cael ei gofnodi yn gyfnod anawdurdodedig a gellir cyfeirio hwn at y Swyddog Lles Addysg. Dylai Rhieni/ Gofalwyr fod yn ymwybodol y darperir cludiant yn unol â pholisi cludiant yr awdurdod yr unig.

Cofiwch os gwelwch yn dda rhaid i'r awdurdod lleol gymeradwyo trosglwyddiadau.

# Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Cynghorir rhieni/gofalwyr i nodi'r newidiadau canlynol i ddarpariaeth ysgolion yn Nhorfaen yn rhan o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'r Cyngor.

## Ysgol Crownbridge

Gorffennwyd yr estyniad sy'n cynnig 50 o leoedd a chafodd ei agor ym mis Ionawr 2025.

## Ysgol Gynradd Maendy

Mae adeilad newydd yn cael ei adeiladu ar safle presennol Ysgol Maendy. Fe fydd yn cynnig 420 lle, yn ogystal â meithrinfa, Canolfan Adnoddau Anghenion Arbennig a chyfleusterau Gofal Plant. Bydd adeilad newydd yr ysgol (gan gynnwys y feithrinfa a'r Ganolfan Adnoddau Anghenion Arbennig) yn cael ei gwblhau erbyn mis Medi 2025, i'w ddilyn gan yr adeilad Gofal plant ym mis Ionawr 2026.

# Cyhoeddiadau a Newidiadau

Mae'r llyfryn hwn yn gysylltiedig â threfniadau derbyn y flwyddyn ysgol 2026/27 ac er bod yr wybodaeth yn gywir ar yr adeg y cafodd ei hargraffu, mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn cadw'r hawl i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol er mwyn galluogi iddo gydymffurfio â newidiadau mewn polisi a/neu ddeddfwriaeth.

Gellir cael gwybodaeth am ysgolion unigol, ynghyd â chopi o brosbectws yr ysgol gan y Pennaeth. Rhestrir yr ysgolion yng Nghyfeirlyfr yr Ysgolion sy'n dechrau ar dudalen.

# Cwynion

Mae rheoliadau diweddar a gyflwynwyd dan Ddeddf Addysg 2002 yn mynnu bod cyrff llywodraethu'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion meithrin, yn sefydlu gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion gan rieni, disgyblion, aelodau o staff, llywodraethwyr, aelodau o'r gymuned leol ac eraill.

## Cwynion Ynghylch Ysgolion

Os oes gennych gwyn yn ymwneud ag ysgol mae angen i chi gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol fel ei bod yn cael cyfle i ddatrys y mater.

- Gyda'r ysgol a'r corff llywodraethu mae'r cyfrifoldeb statudol ar gyfer ymateb i gwynion yn ymwneud ag ysgol.
- Mae gan bob ysgol yn Nhorfaen bolisi cwyno sy'n cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'n dri cham ac mae ar gael ar gais gan yr ysgol.
- Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o gwynion yn cael eu datrys ar Gam A neu B.
- Mae Cam C yn golygu y bydd y gwyn yn cael ei hystyried gan bwyllgor cwynion y corff llywodraethu. Dyma'r man terfynol y dyfernir cwynion yn ymwneud ag ysgol.
- Ym mhob achos bydd yr ysgol a'r corff llywodraethu yn sicrhau yr eir i'r afael â chwynion mewn ffordd ddiduedd, agored a theg.
- Mae pryderon a chwynion yn cael eu cymryd o ddifri ac os bu camgymeriadau bydd gwersi i'w dysgu oddi wrthynt. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru, Gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr Ffôn: 01633 415474.

## Cwynion Ynghylch y Gwasanaeth Addysg

Os ydych yn cysylltu â'r Gwasanaeth Addysg am wasanaeth am y tro cyntaf, (ee gofyn am apwyntiad ac ati) yna nid yw'r polisi cwynion yn berthnasol. Dylech yn gyntaf roi cyfle i ni ymateb i'ch cais. Os ydych yn gwneud cais am wasanaeth addysg ac nid ydych yn fodlon ar ein hymateb, gallwch fynegi eich pryder drwy'r broses gwynion. Mae dau gam, cam un yw datrys y gwyn yn anffurfiol o fewn 10 diwrnod gwaith a cham 2 yw ymchwiliad ffurfiol o fewn 20 diwrnod gwaith. Os byddwch dal yn anfodlon mae gennych y dewis i ddwyn eich cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

# Prosbectws Ysgolion

Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, gyhoeddi prosbectws ysgol ar gyfer rhieni a darpar rieni. Mae copïau o brosbectws ysgol ar gael o'r ysgolion a restrir yng Nghyfeirlyfr yr Ysgolion.

# Polisi Codi a Dileu Tâl

Gellir cael gwybodaeth ynglŷn â 'pholisi codi a dileu tâl' yr ysgol gan Bennaeth yr ysgol dan sylw yn y cyfeiriadau a restrir yng Nghyfeirlyfr yr Ysgolion.

# Arolygiadau Ysgolion

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru. Mae Estyn yn arolygu darparwyr addysg nas gynhelir, ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd a chynhelir dan Adran 10, Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996.

Mae pob ysgol yn cael ei harolygu o leiaf unwaith bob chwe blynedd. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnwys pob agwedd o ddarpariaeth ysgol, ar wahân i addysg enwadol a chynnwys addoli ar y cyd yn yr ysgolion gwirfoddol hynny a nodwyd yn Adran 23 y Ddeddf. Swyddogaeth arolwg yw adrodd ar:

- Y safonau addysgol a chyflawnir yr ysgol;
- Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol;
- Ansawdd yr arweinyddiaeth yn yr ysgol ynghyd a dulliau rheoli'r ysgol, gan gynnwys pa un a reolir yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r ysgol yn effeithiol;

- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn yr ysgol.
- Os byddwch angen copi o adroddiad arolygu'r ysgol, mae copïau ar gael yn uniongyrchol gan yr ysgolion unigol neu gellir eu lawr lwytho o'r adran Cyfeirlyfr Ysgolion ar y wefan.

Mae mwy o wybodaeth ynglŷn ag arolygiadau ysgolion ar gael ar wefan Estyn: www.estyn.co.uk.

# Uned Atgyfeirio Disgyblion Torfaen

Yr Awdurdod Lleol sydd yn cynnal yr Uned Atgyfeirio Disgyblion. Mae'n darparu addysg y tu allan i'r ysgol i ddisgyblion a fyddai fel arall, efallai, yn methu derbyn addysg addas a phriodol.

Mae UAD Torfaen yn cynnig addysg i ddisgyblion ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol a'r rheiny sydd angen addysg heblaw yn ysgol (EOTAS). Mae'r ddarpariaeth yn cynnig: prif safle, Tŷ Glyn, sydd yn darparu ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a 4, a'r Dafarn Newydd, sydd yn darparu ar gyfer disgyblion sydd yn bryderus neu'n ymwrthod â'r ysgol.

Gellir atgyfeirio disgyblion ag ystod o anghenion i UAD. Ymhlith y rhain mae:

- disgyblion sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol am gyfnod parhaol neu gyfnod penodol
- merched ysgol beichiog a mamau oed ysgol
- disgyblion pryderus a bregus
- disgyblion nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol am resymau meddygol ac sydd angen hyfforddiant amgen
- unrhyw ddisgyblion sy'n symud i'r awdurdod lleol sydd wedi mynychu darpariaeth debyg.
- disgyblion sydd wedi cael eu gwyliau ysgol

Mae'r UAD yn cynnig cymorth a chyngor i ysgolion ar sail allgymorth lle mae disgyblion aros yn eu hysgolion. Maen nhw hefyd yn cynnig lleoliadau tymor byr i ddisgyblion yn un o'r canolfannau hyn. Mae pobl disgybl yn aros ar gofrestr eu hysgolion tra eu bod yn mynychu'r UAD. Panel yr awdurdod lleol sydd yn cytuno ar bob lleoliad ac unrhyw allgymorth ac maent yn cael eu monitro'n agos. Mae cynnydd disgyblion yn cael ei adolygu gyda phartneriaid a'r disgyblion eu hunain bob hanner tymor. Maent yn mapio cynnydd disgyblion a chynllunio iddynt ddychwelyd i'r ysgol neu ystyried yr opsiynau gorau i'r person ifanc yn y dyfodol.

Yn ogystal â lleoliadau UAD ac allgymorth, gellir darparu hyfforddiant unigol oddi ar y safle pan ystyrir mai dyna sy'n briodol i fodloni anghenion penodol y disgyblion

Mae'r UAD yn gweithio'n agos mewn partneriaeth gyda holl ysgolion Cynradd ac Uwchradd Torfaen. Mae'n medru cynnig darpariaeth 5-diwrnod (25 awr) pan fo hynny'n briodol i anghenion y dysgwr, gyda'r nod o gynnig cwricwlwm cytbwys. Mae rhaglenni unigol y disgyblion yn canolbwyntio ar hyrwyddo dealltwriaeth bersonol a datblygu sgiliau mewn rheoli ymddygiad.

Mae pob disgybl yn astudio Mathemateg, Saesneg, Gwyddoniaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), celf, daearyddiaeth, hanes, addysg gorfforol, ABGI a thechnoleg bwyd. Rhoddir cyfle i bob disgybl ddilyn cyrsiau TGAU mewn Saesneg a Mathemateg, Cyrsiau BTEC a chymwysterau Sgiliau Allweddol a Hanfodol.

# Bwyta'n Iach Mewn Ysgolion

Mae ein "Polisi Bwyta'n Iach mewn Ysgolion" yno i sicrhau bod eich plentyn yn cael bwyd maethlon a da yn yr ysgol. Mae gwybodaeth bellach ar gael gan Lywodraeth Cymru.

Rhif ffôn: 03000257463
E-bost: wellbeingservice@gov.wales

# Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf

Menter sy'n cael ei redeg ar y cyd â Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newyn y tu allan i'r tymor ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim (FSM) yw rhaglen Gwella Gwyliau Ysgol (SHEP). Mae darparu Prydau Ysgol am Ddim yn ystod gwyliau'r haf yn cynnig y potensial i helpu teuluoedd incwm isel hwyluso'r baich ariannol o ddarparu prydau bwyd i'w plant yn ogystal â chynnig manteision cymdeithasol, maethol ac addysgol.

Dyma'r manylion cyswllt:
Rhif ffôn: 01495 742206
E-bost: julian.davenne@ torfaen.gov.uk

# Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

Mae Ysgol Iach yn un sy'n:

"Hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a chymdeithasol ei chymuned trwy weithredu cadarnhaol trwy ddulliau fel polisïau, cynllunio strategol a datblygu staff, a hynny o ran ei chwricwlwm, ei hethos, yr amgylchedd ffisegol a chysylltiadau cymunedol." - Llywodraeth Cymru (LlC) 2014.

Mae Cynllun Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru yn gynllun sy'n seiliedig ar wobrau sy'n arwain at Wobr Ansawdd Cenedlaethol o Ragoriaeth. Fe'i hariennir gan LC ac fe'i rheolir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn partneriaeth ag Addysg. Mae'r cynllun yn rhedeg ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol ac mae 97% o ysgolion cynradd ac uwchradd Torfaen yn cymryd rhan.

Mae Cynllun Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru yn cydnabod 7 pwnc iechyd y mae ysgolion yn mynd i'r afael â hwy trwy gymryd rhan yn y cynllun:

- Bwyd a Ffitrwydd
- Iechyd a Lles Meddyliol ac Emosiynol
- Datblygiad Personol a Pherthnasau
- Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau
- Amgylchedd
- Diogelwch
- Hylendid

Os hoffech wybodaeth bellach cysylltwch â Swyddog ABCh ac Ysgolion Iach rhif ffôn: 01495766980 neu 07960489134 e-bost:- Alison.Dally@torfaen.gov.uk

# Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy

Mae'r Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy yn estyniad o Gynllun Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru. Ar hyn o bryd mae yna 33 o leoliadau cyn-ysgol yn Nhorfaen yn rhan o'r cynllun ac maen nhw'n cynnwys meithrinfeydd, dechrau'n deg, grwpiau chwarae a gofalwyr plant.

Mae'r cynllun yn hyrwyddo ymddygiadau iachus o oedran cynnar, gan gynnwys iechyd geneuol da a phwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer corff i gefnogi lleihau gordewdra yn y Blynyddoedd Cynnar.

Mae'r cynllun wedi ei achredu, ac felly mae pob lleoliad yn casglu tystiolaeth i gefnogi pob un o'r meysydd canlynol:

- Maeth ac Iechyd Geneuol
- Ymarfer Corff/Chwarae'n Weithgar
- Iechyd Emosiynol Meddyliol, Lles a Pherthnasau
- Amgylchedd
- Hylendid
- Diogelwch
- Iechyd a Lles yn y Gweithle

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy, cysylltwch â Ruth Harris ffôn 07932772653, e-bost ruth.harris@torfaen.gov.uk

# Imiwneiddio

Cyn i'ch plentyn ddechrau'r ysgol mae'n bwysig eu bod yn gyfredol â'u brechiadau fel eu bod yn cael eu hamddiffyn rhag nifer o glefydau y gellir eu hatal gan frechlynnau. Bob blwyddyn mae brechu yn achub mwy o fywydau ledled y byd nag unrhyw ymyrraeth feddygol arall. Yng Nghymru, mae brechu yn fesur allweddol i gadw plant yn iach a rhoi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd.

Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at ba frechiadau y dylai eich plentyn fod wedi'u derbyn cyn dechrau'r ysgol.

| Oedran | Enw Brechu | Clefyd a Ddiogelir yn Erbyn |
|---|---|---|
| 2 fis oed | 6 in 1 | Diphtheria, Tetanus, Polio, Whooping Cough, Hib and Hepatitis B |
| | PCV | Pneumococcal |
| | MenB | Meningococcal Group B (MenB) |
| | Rotavirus | Rotavirus |
| 3 mis oed | 6 in 1 | Diphtheria, Tetanws, Polio, Y pas, Hib a Hepatitis B |
| | Rotafirws | Rotafirws |
| 4 mis oed | 6 yn 1 | Diphtheria, Tetanus, Polio, Whooping Cough, Hib and Hepatitis B |
| | MenB | MenB |
| | PCV | Pneumococcal |
| 12 - 13 mis oed | Hib/MenC | Hib a Meningococcal Grŵp C (MenC) |
| | PCV (Atgyfnerthu) | Pneumococcal |
| | MMR | MMR |
| | MenB (Booster) | MenB |
| 2 a 3 oed | Chwistrelliad Trwynol y Ffliw - Blynyddol | Influenza |

Mae brechiadau arferol ym mhlentyndod yn hynod effeithiol, diogel ac am ddim. Bydd brechiadau eraill wedi'u hamserlennu trwy gydol oes ysgol eich plentyn. Pan fydd eich plentyn i gael brechiad yn yr ysgol byddwch yn derbyn llythyr gwybodaeth a ffurflen ganiatâd, mae'n bwysig eich bod yn llenwi, llofnodi a dychwelyd y ffurflen ganiatâd yn brydlon.

Am fwy o wybodaeth ewch i NHS 111 Wales - Vaccinations

# Llaeth a Phrydau Bwyd

**Llaeth** - Darperir llaeth am ddim i holl blant meithrin a Chyfnod Sylfaen. Prydau - Darperir prif bryd bwyd ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd. Y prisiau cyfredol, sy'n agored i adolygiad (ar gyfer mis Medi 2026), yw:

Babanod Am ddim
Iau Am ddim
Disgyblion Hŷn £2.60

Mae gan bob ysgol uwchradd ei strwythur ei hun ar gyfer prisio bwyd. Mae gwasanaeth bar bwtri hefyd ym mhob ysgol gyfun. Gall cost y prif bryd gael ei ddileu'n rhannol neu'n gyfan gwbl mewn rhai achosion. Cyfeirier at ddulliau talu yr ysgolion unigol.

# Prydau Ysgol am Ddim

Mae Deddf Nawdd Cymdeithasol 1986 yn golygu bod gan y Cyngor ganiatâd i ddarparu prydau am ddim i ddisgyblion Iau a Hŷn pan fydd y teulu'n derbyn:- Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, yn seiliedig ar incwm, cymorth dan Ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, Budd-dal Credyd Cynhwysol, Elfen Warantedig Credyd Pensiwn y Wladwriaeth neu sy'n gymwys o dan reoliadau'n rheoli Credyd Treth Plant. Mae hyn yn berthnasol i ddisgyblion mewn ysgolion dydd arbennig hefyd.

Er mis Medi 2023, yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae pob disgybl mewn Ysgol Gynradd yn cael pryd o fwyd am ddim yn yr ysgol.

# Grant Hanfodion Ysgol

Gall plant sydd â'u teuluoedd ar incwm isel ac sy'n gymwys ar gyfer budd-daliadau penodol wneud cais am y grant o:

- £125 i bob dysgwr
- £200 i'r dysgwyr hynny sy'n cychwyn ym mlwyddyn 7 (i helpu gyda'r costau uwch sydd yn gysylltiedig â dechrau'r ysgol uwchradd)

Gall y grant help teuluoedd i brynu:

- Gwisg ysgol, yn cynnwys cotiau ac esgidiau;
- Gwisg chwaraeon yr ysgol yn cynnwys esgidiau;

- Gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i sgowtiaid; geidiau; cadetiaid; crefftau ymladd; chwaraeon; celfyddydau perfformio neu ddawns;
- Offer ee bagiau ysgol ac offer ysgrifennu;
- Offer arbenigol pan fydd gweithgareddau newydd yn y cwricwlwm yn dechrau, fel dylunio a thechnoleg; ac
- Offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau ysgol, fel dysgu awyr agored ee dillad addas sy'n addas i dywydd gwlyb;
- Gliniaduron, offer TG i helpu gyda gwaith ysgol

Mae pob blwyddyn ysgol orfodol o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 11 bellach yn gymwys.

Mae pob plentyn sy'n derbyn gofal ac sydd o oed ysgol orfodol yn gymwys i dderbyn y grant, p'un a ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim neu beidio.

Mae'r arian hefyd ar gael i'r disgyblion canlynol sy'n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim:

- Disgyblion heb ffynhonnell arian gyhoeddus, sy'n dechrau yn y blynyddoedd ysgol uchod
- Disgyblion mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau anghenion arbennig ac uned cyfeirio disgyblion, sy'n dechrau yn y blynyddoedd ysgol uchod

Nid yw disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim oherwydd trefniadau amddiffyn wrth bontio neu'r rheini sy'n rhan o gynllun Prydau Ysgol am Ddim i Bawb, yn gymwys i dderbyn y cyllid hwn. Trowch at yr adran Prydau Ysgol am ddim ar ein gwefan i gael mwy o wybodaeth.

Unwaith yn unig y gall teuluoedd hawlio ar gyfer plentyn, fesul blwyddyn ysgol. Bydd cynllun 2025 i 2026 yn cau ar 31 Mai 2026.

Gallwch wneud cais drwy'r ffurflen gais ar-lein ar ein gwefan rhwng 1 Gorffennaf 2025 a 31 Mai 2026.

Bydd angen eich:

- Gwybodaeth cyswllt
- Enw ysgol y plentyn
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Manylion banc

Rhowch glic ar www.torfaen.gov.uk ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgol.

# Cludiant i'r Ysgol a Choleg (ac eithrio i blant ag ADY)

Meini prawf cyffredinol ar gyfer darparu cludiant am ddim:

- Yn gyffredinol, mae cludiant am ddim wedi'i gyfyngu i ddisgyblion sy'n mynychu ysgol eu dalgylch ac sy'n byw'r pellter angenrheidiol o'r ysgol;
- Mesurir pellteroedd yn ôl y llwybr cerdded byrraf gan ddefnyddio System Mapio Gwybodaeth Ddigidol rhwng y cartref â'r ysgol. Mae'r pellter yn cael ei fesur o bwynt lle mae cartref y plentyn yn cwrdd â'r ffordd fawr i fynedfa agosaf yr ysgol.
- Bydd cludiant am ddim ar gael ar gyfer plant oed cynradd sydd yn byw dros 2 filltir o'r ysgol dalgylch a phlant oed uwchradd sydd yn byw dros 3 milltir o'u hysgol dalgylch. Bydd myfyrwyr ôl-16 hefyd yn medru derbyn cludiant o'r cartref i'r ysgol/coleg os ydynt yn byw dros 3 milltir o'r sefydliad addysgol perthnasol.
- Pan na fydd yr Awdurdod ym methu â chynnig lle i blentyn yn eu hysgol dalgylch, darperir cludiant am ddim i'r ysgol agosaf (nid yr ysgol o ddewis) sydd â lle, yn unol â'r meini prawf pellter fel y soniwyd uchod.
- Byddai cludiant am ddim hefyd yn cael ei ddarparu petai'r ysgol berthnasol fyddai'n cael ei mynychu yw'r ysgol agosaf (nid yr ysgol o ddewis) yn unol â'r meini prawf pellter fel y soniwyd uchod.
- Llwybrau Cerdded Diogel - Mae'n bosibl y darperir cludiant am ddim hefyd pan fydd yr Awdurdod yn ystyried bod y llwybr cerdded rhwng y cartref a'r ysgol yn ddigon peryglus i warantu'r fath ddarpariaeth, er bod y pellter yn is na'r ffigyrau a nodwyd uchod. Fel rhan o'i asesiad, byddai'r Awdurdod yn ystyried p'un ai yw'r perygl cymaint, byddai'r rhieni sy'n hebrwng mewn perygl eu hunain yn y sefyllfa sydd ohoni.

O ran ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, mae cludiant am ddim ar gael i'r ysgol eglwys agosaf yn unol â'r meini prawf pellter a nodir uchod ac yn unol â'r meini prawf bod rhieni plentyn a/neu eu plentyn yn glynu at ffydd enwadol yr ysgol dan sylw.

O ran ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, mae cludiant am ddim ar gael i'r ysgol 'eglwys' agosaf yn unol â'r meini prawf pellter fel y soniwyd amdano uchod ac yn unol â'r meini prawf bod rhieni plentyn a/neu eu plentyn yn ymlynu at ffydd enwadol yr ysgol dan sylw. e.e. wrth fynychu ysgol Gatholig, dylai'r rhiant a/

neu'r plentyn fod wedi'u bedyddio a lle'n bosibl, fod yn Gatholig mewn gair a gweithred. Bydd y Uned Cludiant Integredig yn ymgynghori â'r Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn unigol i gadarnhau'r meini prawf derbyn a ddefnyddiwyd pan dderbyniwyd y disgybl er mwyn cadarnhau'r hawl. Cedwir yr hawl gan yr Awdurdod, fodd bynnag, i alw ar y rieni i gyflwyno tystiolaeth er mwyn pennu'r hawl hwn.

O ran Ysgolion cyfrwng Cymraeg darperir cludiant i'r ysgol Gymraeg agosaf (nid yr ysgol o ddewis), yn unol â pholisi cludiant yr Awdurdod y cyfeiriwyd ato'n flaenorol.

Seddau Gwag - Mae'n bosibl y caniateir i ddisgyblion eistedd mewn seddau gwag ar fysys ysgol fel consesiwn dros dro, er nad ydynt yn bodloni'r meini prawf y cyfeiriwyd ato uchod. Ni fydd yr Awdurdod yn codi tâl am ddarparu cludiant mewn achosion o'r fath. Mae'n bosibl y bydd angen tynnu consesiynau yn eu hôl ar fyr rybudd.

Symud Cartref - Ni fydd disgyblion sy'n mynychu ysgol uwchradd ac yn symud i gyfeiriad sydd y tu allan i ddalgylch yr ysgol fel arfer yn parhau i dderbyn cludiant am ddim i'r ysgol honno os yw'n digwydd yn ystod Blynyddoedd 7,8 neu 9 yn yr ysgol honno, hyd yn oed os yw'r meini prawf pellter a nodwyd uchod yn cael eu bodloni. Ystyrir ceisiadau ar gyfer disgyblion sy'n symud cartref ym Mlynyddoedd 10 neu 11 os gellir darparu cludiant trwy ddefnyddio gwasanaethau presennol yn unig.

Cludiant ar gyfer disgyblion oedran uwchradd - Darperir yn bennaf trwy ddosbarthu tocynnau tymor i alluogi disgyblion ddefnyddio gwasanaethau bws lleol (glynir at leoedd sefyll cyfreithiol).

Cludiant i ddisgyblion oed cynradd - Darperir fel arfer ar ffurf cerbydau dan gontract. Ni fydd yn bosibl trefnu i deithiau'r cerbydau basio cartrefi'r holl ddisgyblion, a bydd yn ofynnol felly i rieni wneud trefniadau iddynt gyrraedd y man 'casglu' agosaf. Gwneir pob ymdrech fodd bynnag i gadw'r pellter hwn mor fyr â phosibl ac ni ddylai fod yn fwy na milltir o dan amgylchiadau arferol.

Ymddygiad ar Fysys - Os nad yw ymddygiad disgyblion o safon dderbyniol yn ystod taith i'r ysgol ac yn ôl, mae'n bosibl y bydd y trefniadau teithio y cytunwyd arnynt yn cael eu tynnu'n ôl.

Teithio Ôl-16 - Ddylai rhieni fod yn ymwybodol nad yw'n ofynnol yn gyfreithiol i ddarparu cludiant i ddisgyblion/myfyrwyr sy'n hŷn nag 16. Fodd bynnag, darperir cludiant am ddim os yw myfyriwr yn byw mwy na 3 milltir o gampws y coleg neu ddalgylch yr ysgol os yw eu rhieni/gofalwyr (neu'r myfyrwyr eu hunain) yn derbyn Cymhorthdal Incwm/Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm neu'n gymwys o

dan y rheoliadau sy'n rheoli Credyd Treth Plant.  Bydd y myfyrwyr 16-18 oed sy'n byw o fewn y pellter gofynnol, ond ble nad yw eu rhieni (neu eu hunain) yn derbyn y budd-daliadau uchod, yn derbyn grant blynyddol o £146 (i'w adolygu ym mis Medi 2025) tuag at gostau cludiant).

Gall myfyrwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd angen cludiant hefyd dderbyn cludiant am ddim ar ffurf cludiant dan gontract yn amodol ar asesiad.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â hawliau, cysylltwch ar 01495 766918/766919.

# Cyflogi plant

Mae Is-ddeddfau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar Gyflogi Plant yn rheoleiddio'r math o swydd y gall plant ei derbyn a nifer yr oriau y gellir cyflogi plant o dan oed gadael ysgol. Mae'n ofynnol i gyflogwyr hysbysu'r Awdurdodau Lleol am blant a gyflogir ganddynt (Is-ddeddfau 9). Rôl y Swyddogion Lles Addysg yw monitro'r ffordd y cyflogir plant er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd mewn ffordd ddiogel a chyfreithiol ac nad yw eu cyflogaeth yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd a'u haddysg. Mae manylion yr oriau y gall plant weithio yn ystod dyddiadau tymor a gwyliau'r ysgol ar gael gan y Swyddogion Lles a restrir ar dudalennau. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â chyflogi plant.

neu gefnogaeth ynglŷn â phresenoldeb yn yr ysgol, cysylltwch ag ysgol eich plentyn neu ffoniwch:- Sarah Allard, Uwch Swyddog Lles Addysg ar:- 01495 766965. Gwyliau Yn Ystod y Tymor Ni chaniateir gwyliau yn ystod y tymor heblaw y gwneir cais i'r Pennaeth, am nad oes gan rhieni hawl awtomatig i fynd â'u plant ar wyliau yn ystod y tymor.

# Arholiadau cyhoeddus

Arholiadau cyhoeddus yw'r rheiny sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni astudio gan gyrff dyfarnu allanol fel CBAC, EDEXCEL, RhCA, ac AQA. Mae ysgolion yn trefnu a gweinyddu ceisiadau i sefyll arholiadau ar gyfer disgyblion, a darperir i'r rhieni, naill ai copi papur neu gopi electronig o amserlen eu plentyn i'w helpu i drefnu cyfnodau adolygu a sicrhau bod disgyblion yn mynychu ar yr adegau cywir.

Dylai rhieni gysylltu ag ysgol eu plentyn mewn perthynas â'i pholisi ar ail sefyll arholiadau (a'r gost) pe byddai angen yn codi.

# Lleoliadau blynyddoedd cynnar preifat/ gwirfoddol cofrestredig

## Lleoliadau Cyfrwng Cymraeg

### Ysgol Feithrin Pont-y-pŵl

Neuadd Sant Iago
Cae Sant Iago
Pont-y-pŵl
NP4 6JT
Ffôn: 01495 755616
www.facebook.com/ysgolfeithrinpontypwl

## Lleoliadau Saesneg Meithrinfa

### Ddydd Belle Vue

Ffordd Belle Vue
Cwmbrân
NP44 3LF

Ffôn: 01633 489999
www.bellevuenursery.co.uk

### Meithrinfa Ddydd Building Blocks

Lôn Ynys
Croesyceiliog
Cwmbrân
NP44 2LH
Ffôn: 01633 864313
www.buildingblocksnursery.net

### Building Blocks Too

Fairwater Way
Cwmbrân
NP44 4PS

Ffôn: 01633 480250
https://buildingblocksnursery.net

### Meithrinfa Ddydd Buzzy Bees

27 Chestnut Green
Cwmbrân
NP44 5TH
Ffôn:- 01633 484228

### Meithrinfa Ddydd Henllys

Hen Ysgol Henllys
Henllys
Cwmbrân
NP446HU
Ffôn: 01633 869211
https://henllysvillagenursery.co.uk

### Meithrinfa Ddyd Little Stars

Monmouth House
Ystâd Parc Mamheilad
NP4 0HZ
Ffôn: 01495 755566
www.littlestarsnursery.com

## Grŵp Chwarae Llanyrafon
Ffordd Llanyrafon
Cwmbrân.
NP44 8RD

Ffôn: 07761 607540

## Meithrinfa Ddydd Osbourne Lodge
Ffordd Osbourne
Pont-y-pŵl
NP4 8LQ
Ffôn: 01495 752234
www.osbournelodge-nursery.co.uk

## Grŵp Chwarae Dan 5 Pont- y-moel
Y Ganolfan Byw Egnïol
Parc Pont-y-pŵl
Pont-y-pŵl
NP4 8AT
Ffôn: 07889 346348

## Meithrinfa Ddydd Seren Fach
Heol Caerllion
Ponthir
Casnewydd
NP18 1GD
Ffôn: 01633 431300
www.serenfach.co.uk

## Wriggles and Giggles
Yr Hen Gyfnewidfa
Ffôn, Stryd Buddug,
Hen Gwmbrân.
NP44 3JP
Ffôn:- 01633 876838

## Meithrinfa Pontnewydd
40 Station Road
Pontnewydd
Cwmbran
NP44 1NZ
Ffôn: 07901 826261/01633 873893
https://meithrinfa.co.uk

## Grŵp Chwarae Dan 5 Pont- y-moel yn Abersychan
Neuadd Gymuned Brynteg
Abersychan
NP4 7BG
Ffôn: 07889 346348

## Meithrinfa Ddydd Poppies
Tŷ Maesderwen
Ffordd Maesderwen
Pont-y-moel
Pont-y-pŵl
NP4 5LE
Ffôn: 01495 764675
www.poppiesdaynursery.co.uk

## Meithrinfa’r Ddwy Sir (CIC)
Yr Hen Ysgol
Y Briffordd,
Croesyceiliog
Cwmbrân
NP44 2HF
Ffôn: 01633 489966
https://two-counties.co.uk

# Rhestr o ysgolion uwchradd (â'r ysgolion cynradd perthnasol sy'n eu bwydo)

Dylid nodi nad yw mynychu unrhyw rhai o'r Ysgolion Cynradd yn sicrhau mynediad i'r Ysgol Uwchradd berthnasol . Nid yw derbyn disgybl i ysgol yn sicrhau y bydd cludiant yn cael ei ddarparu chwaith.

# Ysgolion uwchradd

## Ysgol Abersychan

Ysgol Gynradd Cwmffrwdoer
Ysgol Gynradd Garnteg
Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Treftadaeth Blaenafon

## Ysgol Croesyceiliog

Ysgol Gynradd Croesyceiliog
Ysgol Gynradd Llanyrafon
Ysgol Gynradd Maendy
Ysgol Gynradd Pontnewydd
Ysgol Gynradd Llantarnam
Ysgol Gynradd yr Eglwys Yng Nghymru Ponthir

## Ysgol Gymraeg Gwynllyw

Ysgol Gymraeg Cwmbrân
Ysgol Bryn Onnen
Ysgol Panteg

Hefyd, Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg o fewn ardaloedd, Blaenau Gwent a Gogledd Sir Fynwy

## Ysgol Uwchradd Cwmbrân

Ysgol Gynradd Coed Eva
Ysgol Gymunedol Blenheim Road
Ysgol Gynradd Greenmeadow
Ysgol Nant Celyn
Ysgol Gynradd Woodlands

## Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban

Ysgol Gynradd Gatholig Mair a'r Angylion
Ysgol Gynradd Gatholig Padre Pio
Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant


O.N. Nid yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Henllys wedi'i chysylltu ag unrhyw ysgol uwchradd benodol.

## Ysgol Gorllewin Mynwy

Ysgol Gynradd New Inn
Ysgol Gynradd Pen-y-garn
Ysgol Gynradd Griffithstown
Ysgol Gynradd George Street

# Map o Ysgolion Torfaen

Mae'r rhifau ar y mapiau'n dynodi lleoliad pob ysgol yn Nhorfaen. Gellir dod o hyd i'r rhif ar gyfer yr ysgol berthnasol ar ôl enw pob ysgol ar y tudalennau canlynol.



# Rhestr o ysgolion

**Mae'r rhestr hon yn rhoi pwyntiau cyswllt ar gyfer pob ysgol ac yn nodi eu hiaith ac enwadau.**
Mae'r 'rhif derbyn' yn cyfeirio at y nifer y disgyblion y gellir eu derbyn i unrhyw grŵp blwyddyn cyn y gellir gwrthod ceisiadau. Mae'n cael ei deillio o gapasiti ffisegol yr ysgol i ddarparu ar gyfer anghenion dysgu disgyblion, gan ddefnyddio fformiwla a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Sylwch nad yw ffigurau 'capasiti ysgol' a 'nifer ar y gofrestr' yn cynnwys disgyblion o oedran ysgol anstatudol a'u bod yn ymwneud â lleoedd/disgyblion prif ffrwd yn y Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 11.

***** Uned Feithrin Ynghlwm; **#** Canolfan Adnoddau Anghenion Arbennig Ynghlwm; • Adran nam ar y clyw; ◊ Yr ysgol (ffydd) enwado ysgol sy'n lletya.

| | Enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac ebost | Pennaeth (DD = Dros Dro) (G= Gweithredol) | Ystod Oed | Capasiti Ysgol | Rhif Derbyn | Ceisiadau a dderbyniwyd (Medi 2025 ar 16 Ebril 2025) | Lleoedd a Neilltuwyd (Medi 2025 ar 16 Ebril 2025) | Nifer Disgwyliedig ar y Gofrestr (Medi 2025) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg cyfrwng Cymraeg** | | | | | | | | |
| **Ysgolion Cynradd Cymunedol** | | | | | | | | |
| * | **Ysgol Bryn Onnen (18)**<br>Heol Varteg, Varteg, Pont-y-pŵl. NP4 7RT.<br>Ffôn: 01495 772284<br>Ebost: head.ysgolbrynonnen@torfaen.gov.uk | Mr R Ap Gwyn | 3 - 11 | 210 | 30 | 22 | 18 | 145 |
| * | **Ysgol Gymraeg Cwmbrân (19)**<br>Ffordd Henllys, Sain Derfel, Cwmbrân. NP44 4HB<br>Ffôn: 01633 483383<br>Ebost:head.ysgolgymraegCwmbrân@torfaen.gov.uk | Miss C Evans | 3 - 11 | 360 | 47 | 46 | 35 | 239 |
| * | **Ysgol Panteg (20)**<br>Station Road, Tref Gruffydd, Pont-y-pŵl, NP4 5JH<br>Ffôn: 01495 762581<br>Ebost: head.ysgolpanteg@torfaen.gov.uk | Dr M Williamson-Dicken | 3 - 11 | 420 | 60 | 59 | 45 | 354 |

| | Ysgol i Bob Oedran | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| * | **Ysgol Gymraeg Gwynllyw (31)**<br>Heol Folly, Trefddyn, Pont-y-pŵl. NP4 8JD<br>Ffôn: 01495 750405<br>Ebost: Mark.Jones@gwynllyw.cymru | Mr M Jones (DD) | 3 - 18 | 1115 (Sec)<br>210 (Pri) | 30 Rec<br>197 (yr 7)<br>72 (yr11 &12) | 126 (sec)<br>24 (rec) | 119 (sec)<br>21 (rec) | 69 (pri)<br>620 (sec)<br>(ac eithrio blynyddoedd 12 & 13) |

| | Enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac ebost | Pennaeth (DD = Dros Dro) (G= Gweithredol) | Ystod Oed | Capasiti Ysgol | Rhif Derbyn | Ceisiadau a dderbyniwyd (Medi 2025 ar 16 Ebril 2025) | Lleoedd a Neilltuwyd (Medi 2025 ar 16 Ebril 2025) | Nifer Disgwyliedig ar y Gofrestr (Medi 2025) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Addysg cyfrwng Saesneg** | | | | | | | |
| | **Ysgolion Cymunedol Meithrin a Chynradd** | | | | | | | |
| * | **Ysgol Gynradd Gymunedol Blenheim (2)**<br>Blenheim Road, Sain derfel, Cwmbrân. NP44 4SZ<br>Ffôn: 01633 484655<br>Ebost: head.blenheimroadcps@torfaen.gov.uk | Mr P Keane (G) | 3 - 11 | 315 | 45 | 39 | 24 | 213 |
| * | **Ysgol Gynradd Coed Eva (3)**<br>Teynes, Coed Eva, Cwmbrân. NP44 4TG<br>Ffôn: 01633 484131<br>Ebost: clerk.coedevaprimary@torfaen.gov.uk | Mr P Keane (G) | 3 - 11 | 420 | 60 | 56 | 38 | 372 |
| * | **Ysgol Gynradd Croesyceiliog (4)**<br>Heol y Gogledd, Croesyceiliog, Cwmbrân. NP44 2LL<br>Ffôn: 01633 624114<br>Ebost:head.croesyceiliogprimary@torfaen.gov.uk | Mr S Bates | 3 - 11 | 420 | 60 | 63 | 44 | 337 |
| * | **Ysgol Gynradd Cwmffrwdoer (5)**<br>Waunddu, Pontnewynydd, Pont-y-pŵl, NP4 6QZ<br>Ffôn: 01495 742761<br>Ebost:head.cwmffrwdoerprimary@torfaen.gov.uk | Mrs S Truelove | 3 - 11 | 315 | 45 | 28 | 18 | 191 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| * | **Ysgol Gynradd Garnteg (6)**<br>Hillcrest, Garndiffaith, Pont-y-pŵl, NP4 7SJ<br>Ffôn: 01495 742934<br>Ebost: head.garntegprimary@torfaen.gov.uk | Mrs S Roche | 3 - 11 | 420 | 60 | 31 | 26 | 319 |
| * | **Ysgol Gynradd George Street (7)**<br>Ffordd Waunfelin, Pont-y-pŵl, NP4 6BX<br>Ffôn: 01495 756436<br>Ebost: head.georgestreetprimary@torfaen.gov.uk | Mrs K Manley | 3 - 11 | 420 | 60 | 32 | 24 | 341 |
| | **Ysgol Gynradd Greenmeadow (8)**<br>Craig Road, Dôl Werdd, Cwmbrân. NP44 5YY<br>Ffôn: 01633 484320<br>Ebost: Claire.moses@torfaen.gov.uk | Mrs C Moses | 3 - 11 | 252 | 36 | 30 | 17 | 189 |
| * | **Ysgol Gynradd Griffithstown (9)**<br>Florence Place, Tref Gruffydd, Pont-y-pŵl. NP4 5DN<br>Ffôn: 01495 759679<br>Ebost: head.griffithstownprimary@torfaen.gov.uk | Mr N Blackburn | 3 - 11 | 420 | 60 | 54 | 42 | 315 |
| * | **Ysgol Gynradd Gymunedol Llantarnam (10)**<br>Ffordd Llantarnam, Llantarnam,<br>Cwmbrân, NP44 3XB<br>Ffôn: 01633 480039<br>Ebost: llantarnamcps@torfaen.gov.uk | Mrs L Perrett | 3 - 11 | 315 | 45 | 59 | 42 | 315 |
| | **Ysgol Gynradd Llanyrafon (11)**<br>Ffordd Llanyrafon, Llanyrafon, Cwmbrân. NP44 8HW<br>Ffôn: 01633 867130<br>Ebost: head.llanyravonprimary@torfaen.gov.uk | Mrs E Rowlands | 3 - 11 | 407 | 58 | 85 | 58 | 378 |
| * | **Ysgol Gynradd Maendy (12)**<br>Cilgant Wayfield, Cwmbrân. NP44 1NH<br>Ffôn: 01495 742780<br>Ebost: head.maendyprimary@torfaen.gov.uk | Mrs E Payne | 3 - 11 | 420 | 60 | 39 | 34 | 223 |
| *<br>#<br>• | **Ysgol Gynradd Nant Celyn (13)**<br>Ffordd Henllys, Cwmbrân. NP44 7DJ<br>Ffôn: 01633 624170<br>Ebost: clerk.nantcelyn@torfaen.gov.uk | Ms K Smith | 3 – 11 | 420 | 60 | 60 | 39 | 383 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| * | **Ysgol Gynradd New Inn (14)**<br>Golf Road, Y Dafarn Newydd, Pont-y-pŵl. NP4 0PR<br>Ffôn: 01495 757649<br>Ebost:head.newinnprimary@torfaen.gov.uk | Mrs K Prendergast | 3 – 11 | 601 | 75 | 84 | 70 | 503 |
| * | **Ysgol Gynradd Gymunedol Pen-y-garn (15)**<br>Ffordd Pen-y-garn, Pen-y-garn, Pont-y-pŵl. NP4 8JR<br>Ffôn: 01495 742090<br>Ebost: head.penygarncps@torfaen.gov.uk | Mrs L Smith | 3 – 11 | 446 | 63 | 28 | 25 | 307 |
| * | **Ysgol Gynradd Pontnewydd (16)**<br>Ffordd Bryn Celyn, Pontnewydd,<br>Cwmbrân. NP44 1JW<br>Ffôn: 01633 483307<br>Ebost: head.pontnewyddprimary@torfaen.gov.uk | Mrs A M Maloney (DD) | 3 – 11 | 420 | 60 | 32 | 28 | 301 |
| * | **Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands (17)**<br>Thornhill Road, Cwmbrân Uchaf. NP44 5UA<br>Ffôn: 01633 647488<br>Ebost:Clerk.WoodlandsPrimary@torfaen.gov.uk | Mrs J Bates | 3 – 11 | 319 | 45 | 36 | 30 | 273 |
| **Ysgolion Meithrin a Cynradd dan Reolaeth Gwirfoddol** | | | | | | | | |
| * | **Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Treftadaeth Blaenafon (21)**<br>Campws Cymunedol Blaenafon, Heol Coed Cae Canol, Blaenafon. NP4 9AW<br>Ffôn: 01495 766500<br>Ebost:bhvcprimaryhead@torfaen.gov.uk | Mrs A Britten | 3 - 11 | 450 | 64 | 39 | 38 | 383 |
| **Ysgolion Meithrin a Chynradd Cymorthedig Gwirfoddol** | | | | | | | | |
| ◊ | **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Henllys (22)**<br>Ty-Canol Way, Cwmbrân. NP44 6JA<br>Ffôn: 01633 877796<br>Ebost: minto.philippa@torfaen.gov.uk | Mrs P Minto | 3 – 11 | 210 | 30 | 32 | 30 | 179 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| * ◊ | **Ysgol Gynradd Gatholig Mair a'r Angylion (23)**<br>Stryd Buddug, Cwmbrân. NP44 3JR<br>Ffôn: 01633 484673<br>Ebost: head. Cwmbrânrc@torfaen.gov.uk | Mrs C Prosser | 3 – 11 | 210 | 30 | 17 | 17 | 180 |
| ◊ | **Ysgol Gatholig Padre Pio (24)**<br>Conway Road, Pont-y-pŵl. NP4 6HL<br>Ffôn: 01495 742074<br>Ebost: head.padrepiorc@torfaen.gov.uk | Mr P Welsh | 3 – 11 | 210 | 30 | 18 | 18 | 170 |
| ◊ | **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Ponthir (25)**<br>School Close, Ponthir. NP18 1GA<br>Ffôn: 01633 620999<br>Ebost:head.ponthirprimary@torfaen.gov.uk | Miss A O'Mahony | 3 – 11 | 118 | 16 | 20 | 20 | 97 |
| * ◊ | **Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant (26)**<br>Caldicot Way, Pontnewydd, Cwmbrân. NP44 1UF<br>Ffôn: 01633 482580<br>Ebost: head.stdavidsprimary@torfaen.gov.uk | Ms L Harris | 3 – 11 | 210 | 30 | 35 | 30 | 200 |
| | **Enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac ebost** | **Pennaeth (DD = Dros Dro) (G= Gweithredol)** | **Ystod Oed** | **Capasiti Ysgol** | **Rhif Derbyn** | **Ceisiadau a dderbyniwyd (Medi 2025 ar 3 Mawrth 2025)** | **Lleoedd a Neilltuwyd (Medi 2025 ar 3 Mawrth 2025)** | **Nifer Disgwyliedig ar y Gofrestr (Medi 2025)** |
| | **Ysgolion Uwchradd Cymunedol** | | | | | | | |
| # | **Abersychan (27)**<br>Incline Road, Abersychan, Pont-y-pŵl. NP4 7DF<br>Ffôn: 01495 773068<br>Ebost: head.abersychancomp@torfaen.gov.uk | Mr R Thomas | 11-16 | 952 | 190 | 141 | 120 | 725 |
| | **Croesyceiliog (29)**<br>Turnpike Road, Croesyceiliog, Cwmbrân. NP44 2YB<br>Ffôn: 01633 645900<br>Ebost: head.croesyceiliogcomp@torfaen.gov.uk | Mrs N Richards | 11-16 | 1200 | 240 | 284 | 240 | 1193 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| # • | **Ysgol Uwchradd Cwmbrân (30)**<br>Ty Gwyn Way, Fairwater, Cwmbrân. NP44 4YZ<br>Ffôn: 01633 643950<br>Ebost: info@chs.schoolsedu.org.uk | Mr M Simms | 11-16 | 1251 | 250 | 228 | 202 | 1124 |
| | **Gorllewin Mynwy (28)**<br>Heol Blaendar, Pont-y-pŵl. NP4 5YG<br>Ffôn: 01495 762080<br>Ebost:head.westmonmouthschool@torfaen.gov.uk | Ms E Jordan | 11-16 | 1250 | 250 | 235 | 208 | 1113 |
| | **Ysgolion Uwchradd Cymorthedig Gwirfoddol** | | | | | | | |
| ◊ | **Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban (32)**<br>Y Parc, Pont-y-pŵl. NP4 6XG<br>Ffôn: 01495 765800<br>Ebost: staenquiries@Stalbans.SchoolsEdu.org.uk | Mr S Lord | 11-16 | 850 | 170 | 217 | 170 | 850 |
| | **Ysgol Arbennig Cymunedol** | | | | | | | |
| | **Ysgol Crownbridge (1)**<br>Turnpike Road, Croesyceiliog, Cwmbrân. NP44 2BJ<br>Ffôn: 01633 624201<br>Ebost: head.crownbridgespecial@torfaen.gov.uk | Mrs B Moore | 3 -19 | AMH | AMH | AMH | AMH | AMH |
| | **Uned Cyfeirio Disgyblion** | | | | | | | |
| | **Uned Cyfeirio Disgyblion Torfaen**<br>Ty Glyn, Albion Road, Pont-y-pŵl NP4 6GE<br>Ffôn: 01495 742859<br>Ebost: Contact@TorfaenPRU.schoolsedu.org.uk | Ms S Pugh | 11-16 | AMH | AMH | AMH | AMH | AMH |

# Apeliadau

## Rowbd dderbyn arferol Medi 2025

| Ysgol | Nifer Derbyn | Nifer y dewisiadau a fynegwyd | Nifer y lleoedd a neilltuwyd | Nifer y dewisiadau a wrthodwyd | Nifer yr apeliadau a gyflwynwyd | Nifer yr apeliadau llwyddiannus* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Croesyceiliog | 240 | 284 | 240 | 5 | 2 | 0 |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban | 170 | 217 | 170 | 47 | 18 | 0 |

*Ar adeg cyhoeddi, nid yw gwrandawiadau apeliadau derbyn i ysgolion wedi eu cynnal ar gyfer Ysgolion Uwchradd 2025